
Cyngor Gwynedd

# ADRODDIAD CRYNO YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

## Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr




70115176-WSP-GEN-LBR-RP-TR-0040
GORFFENNAF 2025

CYHOEDDUS

**CYHOEDDUS**

**RHIF PROSIECT. 70115176**

**EIN RHIF CYF. 70115176-WSP-GEN-LBR-RP-TR-0040**

**DYDDIAD: GORFFENNAF 2025**

WSP

Tŷ Opus
Pentref Busnes Iâl
Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam

WSP.com

# RHEOLI ANSAWDD

| Cyhoeddiad/diwygiad | Cyhoeddiad cyntaf | Diwygiad 1 |
|---|---|---|
| Sylwadau | Drafft Cyntaf | Terfynol |
| Dyddiad | 15/07/2025 | 30/09/2025 |
| Paratowyd gan | Jack Down | Jack Down |
| Llofnod | J. Down | J. Down |
| Gwiriwyd gan | Jason Collins | Jason Collins |
| Llofnod |  |  |
| Awdurdodwyd gan | Jason Collins | Jason Collins |
| Llofnod |  |  |
| Rhif prosiect | 70115176 | |
| Rhif adroddiad | 70115176-WSP-GEN-LBR-RP-TR-0040 | |
| Cyfeirnod y ffeil | 70115176-WSP-GEN-LBR-RP-TR-0040 - WelTAG Stage 2 - Public Engagement Summary Report | |

# CYNNWYS


RHEOLI ANSAWDD 3

CYNNWYS 4

1 CYFLWYNIAD 1

2 YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD 2

3 TROSOLWG O ADBORTH RHANDDEILIAID 5

4 CYSYLLTIAD YMATEBWYR Â LLANBEDR 7

5 LLEOLIADAU CARTREF 8

6 AMCANION Y PROSIECT 10

7 PROBLEMAU TRAFNIDIAETH ERAILL 15

8 GWELLIANNAU I'R A496 A'R RHWYDWAITH FFYRDD LLEOL 19

9 FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 20

10 TERFYN CYFLYMDER 40MYA ARFAETHEDIG AR Y FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 26

11 CAU PONT AFON ARTRO I GERBYDAU MODUR 30

12 CAU FFORDD MOCHRAS I GERBYDAU MODUR 35

13 SYLWADAU CYFFREDINOL AR Y FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 40

14 GWELLIANNAU I BENTREF LLANBEDR – HEB FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 45

15 GWELLIANNAU PENTREF LLANBEDR – GYDA FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 52

**16 GWELLIANNAU FFORDD MOCHRAS – HEB FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 58**

**17 GWELLIANNAU FFORDD MOCHRAS – GYDA FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL 64**

**18 GORSAF REILFFORDD LLANBEDR 69**

**19 OPSIYNAU A FFEFRIR 75**

**20 PROFFIL DEMOGRAFFIG YR YMATEBWYR 82**

**21 EFFAITH AR Y GYMRAEG 95**

**22 EFFAITH AR UNIGOLION O DAN ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL 100**

## *TABLAU*

Tabl 6-1 – Crynodeb o’r sylwadau a dderbyniwyd o ran cytundeb yr ymatebwyr ag Amcanion y Prosiect 11

Tabl 7-1 – Crynodeb o’r sylwadau yn ymwneud â barn yr ymatebwyr ar y problemau trafnidiaeth ychwanegol 16

Tabl 9-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â’r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr 21

Tabl 10-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â’r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 27

Tabl 11-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â safbwyntiau ymatebwyr ar y cynnig i atal mynediad i gerbydau modur ar Bont Afon Artro 31

Tabl 12-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â’r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras 36

Tabl 13-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Ffordd liniaru cyflymder isel 40

Tabl 14-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Gwelliannau Pentref Llanbedr – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 47

Tabl 15-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Gwelliannau Pentref Llanbedr – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 53

Tabl 16-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Senario Gwelliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 59

Tabl 17-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Senario Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 65

Tabl 18-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Gorsaf Reilffordd Llanbedr 70

Tabl 19-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud ag opsiynau arfaethedig 78

Tabl 21-1 – Crynodeb o sylwadau ar y cyfleoedd i addasu'r cynlluniau arfaethedig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg 96

Tabl 22-1 – Crynodeb o'r sylwadau ar farn ymatebwyr ar effaith y cynlluniau arfaethedig ar y rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol 100

# FFIGURAU

Ffigur 2-1 – Platfform Ymgysylltu Ar-lein 3

Ffigur 4-1 – Cysylltiad ymatebwyr â Llanbedr 7

Ffigur 5-1 – Codau Post Cartref Ymatebwyr 8

Ffigur 6-1 – Cytundeb yr Ymatebwyr ag Amcanion y Prosiect 10

Ffigur 6-2 – Cytundeb yr Ymatebwyr ag Amcanion y Prosiect yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr 11

Ffigur 7-1 – Ymatebwyr yn Hysbysu am Broblemau Trafnidiaeth Ychwanegol 15

Ffigur 7-2 – Ymatebwyr yn Hysbysu am Broblemau Trafnidiaeth Ychwanegol yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr 15

Ffigur 8-1 – Angen am Welliannau ar yr A496 a'r Rhwydwaith Ffyrdd Lleol 19

Ffigur 8-2 – Angen am Welliannau ar yr A496 a'r Rhwydwaith Ffyrdd Lleol yn seiliedig ar ba un a oedd yr ymatebwr yn byw yn Llanbedr 19

Ffigur 9-1 – Ymatebwyr sy'n cefnogi Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr 20

Ffigur 9-2 – Ymatebwyr sy'n cefnog Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr 20

Ffigur 10-1 – Barn ymatebwyr ar derfyn cyflymder 40-mya ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 26

Ffigur 10-2 – Barn ymatebwyr ar derfyn cyflymder 40-mya ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr 26

Ffigur 11-1 – Barn ymatebwyr ar y cynnig i atal mynediad i gerbydau modur ar Bont Afon Artro 30

Ffigur 11-2 – Barn ymatebwyr ar y cynnig i atal mynediad i gerbydau modur ar Bont Afon Artro yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr 30

**Ffigur 12-1 – Barn ymatebwyr i atal mynediad i gerbydau modur ar Ffordd Mochras** 35

Ffigur 12-2 – Barn ymatebwyr i atal mynediad i gerbydau modur ar Ffordd Mochras yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr 35

Ffigur 14-1 – Barn ymatebwyr – gwelliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 45

Ffigur 14-2 - Trigolion Llanbedr ar Bentref Llanbedr – gwelliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 46

Ffigur 14-3 – Pawb arall ar Bentref Llanbedr – gwelliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 47

Ffigur 15-1 – Barn ymatebwyr ar welliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 52

Ffigur 15-2 – Gwelliannau Pentref Llanbedr ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn seiliedig ar fan preswyl 53

Ffigur 16-1 – Barn ymatebwyr ar Welliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 58

Ffigur 16-2 – Gwelliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn seiliedig ar fan preswyl 59

Ffigur 17-1 – Barn ymatebwyr ar Welliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel 64

Ffigur 17-2 – Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn seiliedig ar fan preswyl 65

Ffigur 18-1 – Barn ymatebwyr ar Welliannau Gorsaf Reilffordd Llanbedr 69

Ffigur 18-2 – Gwelliannau Gorsaf Reilffordd Llanbedr yn seiliedig ar fan preswyl 70

Ffigur 19-1 – Barn y Cyhoedd ar Senarios Gwella ar gyfer Llanbedr 75

Ffigur 19-2 – Barn a Senarios Gwella ar gyfer Llanbedr – Llanbedr 76

Ffigur 19-3 – Barn ar Senarios Gwella ar gyfer Llanbedr – Pawb arall 77

Ffigur 20-1 – Rhyw'r ymatebwr 82

Ffigur 20-2 – Rhyw'r ymatebwyr yn seiliedig ar eu mannau preswyl 83

Ffigur 20-3 – Grŵp oedran yr ymatebwyr 83

Ffigur 20-4 – Grŵp oedran yr ymatebwyr yn seiliedig ar fan preswyl 84

Ffigur 20-5 – Sgiliau Cymraeg yr ymatebwyr 85

Ffigur 20-6 – Sgiliau Cymraeg – Llanbedr 85

Ffigur 20-7 – Sgiliau Cymraeg – Pawb arall 86
Ffigur 20-8 – Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol yr ymatebwr 87
Ffigur 20-9 – Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol ymatebwyr yn seiliedig ar fan preswyl 87
Ffigur 20-10 – Hil yr ymatebwr 88
Ffigur 20-11 – Hil yr ymatebwr yn seiliedig ar fan preswyl 89
Ffigur 20-12 – Crefydd yr ymatebwr 89
Ffigur 20-13 – Crefydd yr ymatebwr yn seiliedig ar fan preswyl 90
Ffigur 20-14 – Rhywioldeb yr ymatebwr 91
Ffigur 20-15 – Rhywioldeb yr ymatebwr yn seiliedig ar fan preswyl 91
Ffigur 20-16 – Gwahaniaeth mewn hunaniaeth rhywedd o'r hyn a neilltuwyd ar adeg genedigaeth 92
Ffigur 20-17 – Gwahaniaeth mewn hunaniaeth rhywedd o'r hyn a neilltuwyd ar adeg genedigaeth – yn seiliedig ar fan preswyl 93
Ffigur 20-18 – Barn ymatebwyr ar ba un a ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl 93
Ffigur 20-19 - Barn ymatebwyr ar ba un a ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl yn seiliedig ar fan preswyl 94
Ffigur 21-1 – Barn Ymatebwyr ar effaith y cynlluniau arfaethedig ar y Gymraeg 95
Ffigur 21-2 – Barn ymatebwyr ar effaith y cynlluniau arfaethedig ar y Gymraeg yn seiliedig ar fan preswyl 95

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 TROSOLWG

1.1.1. Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu WSP i gyflawni astudiaeth WelTAG Cam 2 gyda'r nod o nodi ateb i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn Llanbedr.

1.1.2. Yn rhan o gyfnod Cam Dau WelTAG yr astudiaeth, ac yn unol â'i ddyletswyddau o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a WelTAG 2024, mae WSP wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar ffurf:

- Ymgysylltu uniongyrchol â rhanddeiliaid;
- Diweddariadau cymunedol;
- Gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd;
- Gweithdy cymunedol; ac,
- Adborth ysgrifenedig.

1.1.3. Cytunwyd ar y gweithgareddau gyda Chyngor Gwynedd ac maent yn bodloni gofynion Cam Dau WelTAG.

1.1.4. Canolbwyntiwyd yr ymgysylltu ar sicrhau cymaint â phosibl o adborth gan aelodau'r cyhoedd ar opsiynau'r astudiaeth Cam Dau.

1.1.5. Defnyddiwyd adborth ar gyfer datblygu opsiynau pellach ac mae'n amlygu blaenoriaethau, pryderon a dymuniadau'r cyhoedd.

## 1.2 DIBEN YR ADRODDIAD

1.2.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan o broses ymgysylltu Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr, a gyflawnir ar Gam Dau WelTAG. Mae hyn yn cynnwys arolwg a sesiynau galw heibio atodol.

**Diben y ddogfen hon yw rhoi trosolwg llawn o ymatebion i bob cwestiwn yn yr arolwg. Mae'n ddogfen atodol i'r prif Adroddiad Cryno Ymgysylltu.**

**Gweler y prif adroddiad am drosolwg llawn o'r holl ymgysylltu a wnaed yn ystod Cam Dau WelTAG.**

# 2 YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

## 2.1 TROSOLWG

2.1.1. Cynhaliwyd yr ymgysylltu â'r cyhoedd ar wefan Cyngor Gwynedd. Gallai ymwelwyr â'r wefan gael mynediad at:

- Yr arolwg adborth
- Darluniadau dylunio
- Gwybodaeth allweddol am y prosiect
- Cwestiynau Cyffredin
- Lluniau a delweddau

**Prif ddiben yr ymgysylltu oedd cael safbwyntiau'r cyhoedd ar yr opsiynau sy'n cael eu hystyried.**

**Roedd yr ymgysylltu hefyd yn gyfle i roi diweddariad ar statws y prosiect, i amlinellu newidiadau ers Cam 1 ac i esbonio'r camau nesaf.**

2.1.2. Nod yr ymgysylltu oedd casglu adborth ar y canlynol:

- Amcanion yr astudiaeth
- Problemau trafnidiaeth yn Llanbedr
- Pob un o'r deuddeg opsiwn a ddatblygiad ar Gam 2
- Yr opsiwn yr oedd pob ymatebwr yn ei ffafrio

2.1.3. Darparwyd y platfform ymgysylltu ar-lein a'r adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg.


## 2.2 AROOLWG

2.2.1. Darparwyd arolwg ar y platfform ar-lein i gasglu safbwyntiau'r gymuned leol, perchnogion busnesau, ac ymwelwyr.

2.2.2. Roedd yr arolwg yn cynnwys 22 o gwestiynau. Cadarnhaodd profion bod yr arolwg yn cymryd tua 5-10 munud i'w gyflawni. Roedd yn fyw am gyfnod o chwe wythnos rhwng **25 Mawrth a 6 Mai 2025**.

2.2.3. Dangosir tudalen we yr arolwg yn **Ffigur 2-1**.

**Ffigur 2-1 – Platfform Ymgysylltu Ar-lein**



Fy Nghyfrif English

CYNGOR GWYNEDD

Trigolion Busnesau Y Cyngor Ymweld

Cartref > Trigolion > Dweud eich Dweud > Canlyniadau > 2025 > Ymgynghoriad Llanbedr

# Ymgynghoriad Llanbedr

**Lleisiwch eich barn ar gynigion trafnidiaeth sy'n cael eu datblygu yn Llanbedr drwy gwblhau ein harolwg a/neu ewch i unrhyw un o'n sesiynau ymgysylltu galw heibio.**

Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ymchwilio i ymyriadau trafnidiaeth posibl a allai gael eu rhoi ar waith i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth ym mhentref Llanbedr.

Nod y gweithgarwch ymgysylltu hwn, a fydd yn para **6 wythnos**, yw casglu adborth gan y gymuned leol, perchnogion busnes, a'r sawl sy'n ymweld â'r ardal ar y cynigion sydd wedi cyrraedd y rhestr fer fel rhan o astudiaeth WelTAG Cam 2, sy'n cael ei chynnal gan WSP ac YGC, ar ran Cyngor Gwynedd.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech chi gwblhau'r arolwg a ddarperir.

Bydd eich adborth yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i nodi opsiwn a ffefrir i'w ddatblygu'n ddyluniad mwy manwl a'i ddarparu yn y pen draw (yn amodol ar gyllid).

**Mi fydd angen i chi agor yr opsiynau isod er mwyn gallu cwblhau'r arolwg:**

Opsiynau Cefnogol ac Amgen Posibl

## Mwy o wybodaeth

Pam mae gwelliannau yn cael eu hystyried yn Llanbedr?

Beth sydd wedi digwydd i'r cynigion blaenorol ar gyfer ffordd newydd yn Llanbedr?

Ffordd Liniaru Cyflymder Isel

## Cwestiynau a ofynnir yn aml

Beth yw'r adolygiad ffyrdd?

## 2.3 SESIYNAU GALW HEIBIO

2.3.1. I helpu i hyrwyddo'r ymgysylltu ac annog ymatebion i'r arolwg, cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio yn Neuadd Pentref Llanbedr ar 19 a 25 Mawrth 2025.

2.3.2. Roedd cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad i ateb unrhyw gwestiynau:

- WSP;
- Cyngor Gwynedd;
- Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy; a,
- Pharc Cenedlaethol Eryri.

2.3.3. Ar draws y ddwy sesiwn galw heibio, daeth tua 100 o aelodau'r cyhoedd i ymgysylltu â'r digwyddiadau trwy adolygu'r dyluniadau arfaethedig a chynnig adborth i dîm y prosiect.

## 2.4 HYRWYDDO

**Defnyddiwyd amrywiaeth o arfau hyrwyddo gyda'r nod o sicrhau cymaint â phosibl o ymwybyddiaeth o'r ymgysylltu a chyfraddau ymateb mor uchel â phosibl i'r arolwg.**

**Roedd hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a dosbarthiad llythyrau wedi'i dargedu yn bennaf.**

**E-bost**

2.4.1. I hysbysebu'r digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd a sicrhau bod y gyfradd ymateb mor uchel â phosibl, anfonwyd e-bost dwyieithog i restr a gytunwyd o randdeiliaid.

2.4.2. Cyfeiriodd yr e-bost randdeiliaid at y digwyddiad ymgysylltu ar-lein ac annog y derbynwyr i rannu'r wybodaeth mor eang â phosibl. Anogwyd y rhanddeiliaid i ymateb i'r e-bost os oeddent yn dymuno rhoi adborth uniongyrchol neu ofyn unrhyw gwestiynau.

**Cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau**

2.4.3. Hysbysebwyd yr ymgysylltu trwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau lleol hefyd.

**Dosbarthu llythyrau**

2.4.4. Rhoddodd ddosbarthiad llythyrau yn Llanbedr gyfle i'r rhai a allai gael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynllun gynnig adborth. Anogwyd adborth gan y rhanddeiliaid hyn trwy ohebiaeth e-bost a llythyr, yn ogystal â'r platfform ar-lein.

## 2.5 AROLYGON ALL-LEIN

2.5.1. I'r rhai yr oedd yn well ganddynt gynnig adborth ysgrifenedig â llaw, gwnaed copïau caled o'r arolwg ar gael yn ystod sesiynau galw heibio ac o Neuadd y Pentref yn Llanbedr. Roedd y wefan hefyd yn nodi bod copi o'r arolwg mewn llythrennau mawr ar gael ar gais, ag e-bost wedi'i ddarparu.

2.5.2. Derbyniwyd cyfanswm o wyth o ymatebion copi caled.

# 3 TROSOLWG O ADBORTH RHANDDEILIAID

## 3.1 ADBORTH RHANDDEILIAID

**Derbyniwyd cyfanswm o 408 o ymatebion arolwg yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Roedd y maint sampl cryf hwn yn golygu y gellid nodi tueddiadau a gwybodaeth allweddol.**

3.1.2. Roedd yr adborth yn cynnwys cwestiynau caeedig (yn cynnig opsiynau ymateb un dewis neu aml-ddewis) a chwestiynau penagored, gan ganiatáu i ymatebwyr ymhelaethu ar eu safbwyntiau.

3.1.3. Ni wnaeth yr holl ymatebwyr ddewis ymateb i'r holl gwestiynau, ac nid oedd yn ofynnol iddynt wneud hynny. O'r herwydd, roedd amrywiad o ran cyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn.

**Cwestiynau caeedig**

3.1.4. Dadansoddwyd cwestiynau caeedig (y rhai ag opsiynau ymateb sefydlog o restr) o ran cyfrifiadau amlder. Fe'u cyflwynwyd wedyn ar ffurf siartiau i gyflwyno sentiment a nodi'r ystyriaethau pwysicaf ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol, a blaenoriaethau i fwrw ymlaen â nhw.

**Cwestiynau agored**

3.1.5. Roedd y cwestiynau penagored (y rhai lle gallai ymatebwr ysgrifennu yn ei eiriau ei hun) yn gofyn am wahanol ddull.

3.1.6. Byddai atodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn gywir ond ni fyddai'n rhoi awgrym eglur i Cyngor Gwynedd o flaenoriaethau nac yn dynodi pa faterion yr oedd y nifer fwyaf o ymatebwyr yn ei deimlo oedd yn allweddol.

3.1.7. O'r herwydd, dadansoddwyd data'r cwestiynau penagored gan ddefnyddio technegau codio thematig.

**Codio data yn thematig**

3.1.8. Mae gan WSP brofiad sylweddol o godio data yn thematig i gyrff trafnidiaeth. Mae codio yn galluogi data ansoddol o 'eiriau eu hunain' yr ymatebwyr i gael eu troi o'u ffurf air am air i fformat rhifau, trwy neilltuo codau o ffrâm godau i'r sylwadau. Mae hyn yn caniatáu i ni nodi themâu allweddol o'r adborth.

3.1.9. Gellid neilltuo cod thematig i sylw unwaith yn unig (h.y. os bydd ymatebwr yn ailadrodd ei hun, caiff y codau priodol ar gyfer ei sylwadau eu neilltuo unwaith yn unig o hyd). Mae hyn yn golygu bod y nifer o weithiau y defnyddiwyd cod thematig yn dynodi nifer yr ymatebwyr sy'n codi'r mater priodol hwnnw neu'r thema briodol honno. Gellid neilltuo mwy nag un cod i sylw ymatebwr, felly nid yw'r rhifau yn annibynnol ar ei gilydd (e.e. gellid neilltuo pedwar cod i sylw ymatebwr).

3.1.10. Ar ôl cwblhau'r codio, paratowyd cyfrifiadau amlder. Cyflwynir y cyfrifiadau amlder codio llawn drwy gydol yr adroddiad hwn.

3.1.11. Rhannwyd tablau amlder codau thematig yn:

- Safbwyntiau cefnogol
- Beirniadaethau
- Pryderon
- Awgrymiadau
- Sylwadau ehangach / cyffredinol

## 3.2 TROSOLWG O'R DADANSODDIAD

3.2.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ydynt yn byw yn Llanbedr yng Nghwestiwn 1.

3.2.2. Gwnaed gwaith dadansoddi pellach i benderfynu a yw man preswyl yr ymatebwyr yn cael effaith sylweddol ar eu hymateb.


3.2.3. Rhennir yr holl ganfyddiadau (o ymatebion agored a chaeedig) rhwng y categorïau canlynol:

- **Llanbedr** – ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn drigolion Llanbedr fel ymateb i Gwestiwn 1.
- **Pawb arall** – ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt neu na ymatebodd a ydynt yn byw yn Llanbedr.

# 4 CYSYLLTIAD YMATEBWYR Â LLANBEDR

4.1.1. Nod cwestiwn cyntaf yr arolwg oedd deall cysylltiad ymatebwyr â Llanbedr. Gallai'r ymatebwyr ddewis sawl ymateb o'r rhestr o ddeg opsiwn a ddarparwyd, gan gynnwys 'dim o'r uchod'. Caiff yr ymatebion eu crynhoi yn **Ffigur 4-1**.

**Ffigur 4-1 – Cysylltiad ymatebwyr â Llanbedr**




- Rhoddodd cyfanswm o 368 (89%) o 408 o ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn.
- Disgrifiodd 140 o'r 368 o ymatebwyr fel trigolion Llanbedr, ac mae 114 yn drigolion ardal ehangach Dwyfor Meirionnydd.
- Mae 30 o'r 368 o ymatebwyr yn gymudwyr i Lanbedr, mae 69 yn gymudwyr trwy Lanbedr ac mae 11 yn berchnogion ail gartref yn Llanbedr.
- Nodir hefyd bod 28 o'r ymatebwyr wedi dewis 'ymwelwyr rheolaidd â'r ardal ar gyfer fy ngwyliau'.

4.1.2. O'r pedwar o ymatebwyr a oedd yn berchennog tir sy'n cael ei effeithio gan y cynnig, maent naill ai'n drigolion Llanbedr yn Berchennog Busnes Lleol neu'n berchennog ail gartref yn Llanbedr.

4.1.3. I asesu a yw man preswyl ymatebwyr yn dylanwadu'n sylweddol ar eu hatebion, grwpiwyd ymatebion i'r cwestiynau dilynol yn seiliedig ar eu hymateb i ba un a oeddent yn drigolion Llanbedr. Categoreiddiwyd y 140 o ymatebwyr a atebodd eu bod yn drigolion Llanbedr o ran "Llanbedr", a grwpiwyd y 268 ymatebwyr a oedd yn weddill – y rhai a atebodd nad oeddent neu na ymatebodd – o dan "Pawb arall".

# 5 LLEOLIADAU CARTREF


5.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu eu sector cod post: yr hanner cyntaf, a rhif cyntaf ail hanner eu cod post cartref.

5.1.2. Rhoddodd 294 o ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn, gan gynnwys un ymateb yn dweud, "Amherthnasol".

5.1.3. Gan na wnaeth mwyafrif yr ymatebion ddarparu'r manylion sector cod post, cynhaliwyd y dadansoddiad ar lefel ardal cod post.

- O'r 293 o ymatebwyr, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y grŵp mwyaf o ymatebwyr o ardal cod post LL45 (140 o ymatebwyr), ac yna'r rhai yn ardal cod post LL44 (41 o ymatebwyr) ac ardal cod post LL46 (37 o ymatebwyr).
- Dangosir lleoliadau'r codau post cartref a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn **Ffigur 5-1**.

**Ffigur 5-1 – Codau Post Cartref Ymatebwyr**




5.1.4. Roedd rhai ymatebwyr o bob cwr o Gymru ac ardaloedd o Loegr hefyd. Er bod y nifer fwyaf o ymatebwyr o ogledd-orllewin Cymru, â phwyslais penodol ar Lanbedr a'r cyffiniau, cafwyd rhai ymatebion hefyd o leoliadau fel Conwy ac Ynys Môn.

5.1.5. Derbyniwyd ymatebion unigol o ardaloedd ehangach hefyd, gan gynnwys Manceinion, Llundain, Warrington, Newcastle, a Derby.

5.1.6. Darparodd gyfanswm o 132 o’r 140 o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn drigolion Llanbedr yng Nghwestiwn 1 eu codau post cartref. Roedd 127 o’r 132 o ymatebwyr hyn o ardal cod post LL45, ac yna 3 o ardal cod post LL46 ac un bob un o ardaloedd cod post LL48 ac ST5.

# 6 AMCANION Y PROSIECT

6.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno ag amcanion arfaethedig y prosiect neu'n teimlo bod angen gwelliannau amgen i ddiwallu anghenion Llanbedr yn well.

6.1.2. Dyma'r cwestiynau penodol a ystyriwyd yn yr adran hon:


- Amcanion y prosiect yw gwella diogelwch, galluogi mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy, gwella'r amgylchedd adeiledig yn Llanbedr, a lleihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol. A ydych chi'n cytuno â'r amcanion hyn?
- Ac eithrio ar gyfer diogelwch, mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy, a'r economi ymwelwyr, a oes unrhyw broblemau trafnidiaeth eraill y mae angen mynd i'r afael â nhw yn Llanbedr a'r ardal leol?
- A oes angen gwneud unrhyw welliannau ar yr A496 trwy Lanbedr a'r rhwydwaith ffyrdd lleol?

6.1.3. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis un ymateb o'r rhestr a ddarparwyd. Fe'u gwahoddwyd wedyn i ddarparu sylwadau testun rhydd ar gyfer yr holl gwestiynau yn yr adran.

**Barn y cyhoedd ar amcanion y prosiect**


6.1.4. I gychwyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno ag amcanion y prosiect, sy'n cynnwys gwella diogelwch, galluogi mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy, gwella'r amgylchedd adeiledig yn Llanbedr, a lleihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 6-1**.

**Ffigur 6-1 – Cytundeb yr Ymatebwyr ag Amcanion y Prosiect**




- Mae'r data yn dangos bod 77% (216) o'r 281 o ymatebwyr a ddewisodd ateb y cwestiwn yn cytuno ag amcanion y prosiect.
- Fodd bynnag, nid yw 16% (44) o'r ymatebwyr yn cytuno ag amcanion y prosiect, wedi'u dilyn gan 7% (21) o ymatebwyr a ddywedodd nad ydynt yn siŵr.

**Ffigur 6-2 – Cytundeb yr Ymatebwyr ag Amcanion y Prosiect yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr**




6.1.5. Fel y dangosir yn **Ffigur 6-2**, nid yw 19% (24) o 128 o ymatebwyr o Lanbedr yn cytuno ag amcanion y prosiect o'i gymharu â 13% (20) o 153 o fannau eraill.

6.1.6. Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i roi unrhyw sylwadau o ran eu cytundeb â'r amcanion, gan gyfiawnhau eu safbwyntiau.

6.1.7. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd o ran amcanion y prosiect yn **Tabl 6-1**.

**Tabl 6-1 – Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd o ran cytundeb yr ymatebwyr ag Amcanion y Prosiect**

| **Sylwadau Cefnogol** | **Llanbedr** | **Pawb arall** |
|---|---|---|
| Yn cefnogi amcanion y Prosiect | 3 | 6 |
| Yn cefnogi'r cynnig ffordd liniaru cyflymder isel | 13 | 9 |
| Yn cefnogi'r amcan i wella diogelwch | 11 | 10 |
| Yn cefnogi'r amcan i alluogi mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy | 1 | 2 |
| Yn cefnogi'r amcan i leihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol | 4 | 5 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu y dylid ailgyflwyno'r cynllun ffordd osgoi / ffordd liniaru gwreiddiol | 2 | 5 |
| Yn awgrymu cael gwared ar leoedd parcio tymhorol ar y brif ffordd (yn hytrach na'r Prosiect) | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwella mynediad at Fochras (e.e. i leihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol) | 3 | 2 |
| Yn awgrymu amcan ychwanegol i leihau tagfeydd traffig ar y Bont dros Afon Artro ac nesaf ati, a'r allyriadau cysylltiedig | 0 | 1 |
| Yn awgrymu amcan ychwanegol i wella mynediad i gerbydau at Faes Awyr Llanbedr i roi hwb i'r economi leol | 0 | 2 |
| Yn awgrymu cael gwared ar draffig trwodd drwy'r pentref (yn hytrach na'r Prosiect) | 3 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu gwella mynediad i ddenu cyfleoedd cyflogaeth newydd | 0 | 2 |
| Yn awgrymu cyfleusterau parcio ychwanegol yn y pentref | 0 | 2 |
| Yn awgrymu adeiladu pont droed ar wahân ar hyd y bont ffordd | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid annog twristiaeth | 3 | 5 |
| Yn awgrymu mesurau i wella diogelwch ar y ffyrdd yn y pentref | 3 | 2 |
| Yn awgrymu y dylai'r Prosiect sicrhau bod bywyd ac economi y pentref yn cael eu cynnal | 5 | 4 |
| Yn awgrymu goleuadau traffig yn ystod yr haf (yn hytrach na'r Prosiect) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd | 1 | 1 |
| Yn awgrymu bod angen gwell cysylltiadau trafnidiaeth (yn gyffredinol) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu lleihau nifer y lleoedd parcio yn y pentref (e.e. i wella diogelwch) | 2 | 0 |
| Yn awgrymu bod y ffordd liniaru'n cael ei hadeiladu, ac yna gellir cynnal asesiad ar welliannau eraill wedi hynny | 1 | 0 |
| Yn awgrymu mai prin yw'r tarfu oherwydd trafnidiaeth y tu allan i'r tymor gwyliau (ac eithrio tarfu yn deillio o gerbydau mwy) | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu amcanion y Prosiect | 3 | 2 |
| Beirniadaeth bod y Prosiect yn canolbwyntio gormod ar deithio cynaliadwy | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu cynigion y Prosiect | 3 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion yng nghanol y pentref | 7 | 1 |
| Beirniadaeth nad yw'r amcanion yn eglur / eu bod yn rhy amwys | 4 | 2 |
| Yn gwrthwynebu'r amcan i alluogi mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy | 0 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r amcan i wella'r amgylchedd adeiledig yn Llanbedr | 3 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r amcan i leihau effaith yr economi ymwelwyr r y gymuned leol | 3 | 9 |
| Yn gwrthwynebu'r cynnig ffordd liniaru | 0 | 2 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder am ddiogelwch cerddwyr ar groesfan y bont | 0 | 4 |
| Pryder am gost y Prosiect | 4 | 1 |
| Pryder am ddiogelwch / strwythur y bont | 3 | 1 |
| Pryder y gallai ymdrechion i sicrhau bod effaith yr economi ymwelwyr mor fach â phosibl niweidio llesiant economaidd y pentref | 1 | 3 |
| Pryder am lefelau presennol o dagfeydd traffig | 5 | 12 |
| Pryder am oryrru presennol trwy Goed Artro | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar leoedd parcio trigolion | 2 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar ddanfon tanwydd trigolion | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar yr amgylchedd / cefn gwlad | 2 | 2 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar dwristiaeth | 0 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Pryder am effaith y Prosiect ar drigolion Llanbedr | 3 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar fusnesau lleol | 0 | 2 |
| Pryder nad yw'r effaith ar yr amgylchedd yn cael ei hadlewyrchu yn amcanion y Prosiect | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 0 | 1 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 1 | 2 |

6.1.8. Darparodd cyfanswm o 89 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn. 44 o ymatebwyr o Lanbedr a 45 o ymatebwyr o fannau eraill oedd y rhain. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

6.1.9. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i amcanion y prosiect i wella diogelwch, galluogi mynediad teithio cynaliadwy a lleihau'r effaith ar yr economi ymwelwyr gan dri o ymatebwyr yn Llanbedr a chwech o ymatebwyr o fannau eraill.

6.1.10. Roedd sylwadau cefnogol eraill yn cynnwys:

- Cefnogaeth i'r amcan i wella diogelwch;
- Cefnogaeth i'r amcan i leihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol;
- Cefnogaeth i alluogi mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy; a
- Cefnogaeth i'r ffordd liniaru cyflymder isel arfaethedig.

**Awgrymiadau**

6.1.11. Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau yn ymwneud â gwelliannau trafnidiaeth a seilwaith yn Llanbedr. Roedd yr awgrymiadau a godwyd amlaf yn cynnwys ailgyflwyno'r cynllun ffordd osgoi neu ffordd liniaru gwreiddiol (dau o ymatebwyr o Lanbedr a phump o ymatebwyr o fannau eraill), gwella diogelwch ar y ffyrdd yn y pentref (tri o ymatebwyr o Lanbedr, dau o fannau eraill), a sicrhau bod y cynigion yn cynnal bywyd yn y pentref a'r economi leol (pump o ymatebwyr o Lanbedr, pedwar o fannau eraill). Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Cael gwared ar draffig trwodd;
- Gwell mynediad at Fochras;
- Annog twristiaeth;
- Gwella mynediad at Faes Awyr Llanbedr a
- Lleihau nifer y lleoedd parcio i wella diogelwch.

**Beirniadaethau**

6.1.12. Un pryder nodedig a godwyd oedd amhendantrwydd tybiedig amcanion y prosiect, â phedwar o ymatebwyr o Lanbedr yn dweud bod yr amcanion yn aneglur, a dau o ymatebwyr o fannau eraill hefyd yn mynegi'r farn hon.

6.1.13. Roedd beirniadaethau eraill yn cynnwys:

- Ymatebwyr yn gwrthwynebu'r amcan i leihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol,
- Ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion yng nghanol y pentref;
- Ymatebwyr yn gwrthwynebu cynigion y prosiect yn gyffredinol;
- Ymatebwyr yn gwrthwynebu amcanion y prosiect; a
- Beirniadaeth bod gormod o bwyslais ar deithio cynaliadwy.

6.1.14. **Pryderon**

6.1.15. Tagfeydd traffig oedd y mater y cyfeiriwyd ato amlaf gan drigolion Llanbedr ac ymatebwyr o fannau eraill.

6.1.16. Mynegodd yr ymatebwyr bryderon hefyd am gost y prosiect (cafodd ei grybwyll gan bedwar o drigolion Llanbedr ac un o rywle arall), ei effaith negyddol bosibl ar yr economi leol (cafodd ei chrybwyll gan ddau o ymatebwyr o fannau eraill), a'r canlyniadau amgylcheddol (cawsant eu crybwyll gan un o drigolion Llanbedr).

6.1.17. Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- Pryderon strwythurol a diogelwch am y bont yn Llanbedr;
- Effaith y cynigion ar leoedd parcio trigolion;
- Danfoniadau tanwydd;
- Yr effaith ehangach ar dwristiaeth leol; ac
- Effaith ar fusnesau.

**Arall**

6.1.18. Cododd rhai ymatebwyr sylwadau eraill, ac mae'r rhain yn cynnwys:


- Cais am ragor o wybodaeth; a
- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd.

# 7 PROBLEMAU TRAFNIDIAETH ERAILL

7.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw broblemau trafnidiaeth yr oedd angen mynd i'r afael â nhw yn Llanbedr a'r ardal leol, yn ogystal â'r materion y soniwyd amdanynt eisoes, sef diogelwch, mynediad trwy ddulliau teithio cynaliadwy, ac effaith yr economi ymwelwyr.


7.1.2. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 7-1** ynghyd â dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a oedd yr ymatebwr yn byw yn Llanbedr yn **Ffigur 7-2**.

**Ffigur 7-1 – Ymatebwyr yn Hysbysu am Broblemau Trafnidiaeth Ychwanegol**




- Mae **Ffigur 7-1** yn amlygu bod 45% o 271 o ymatebwyr wedi nodi nad oedd unrhyw broblemau trafnidiaeth eraill yr oedd angen mynd i'r afael â nhw yn Llanbedr a'r ardal leol.
- Roedd hyn yn cymharu â 55% o 271 o ymatebwyr a ddywedodd bod problemau o'r fath.

**Ffigur 7-2 – Ymatebwyr yn Hysbysu am Broblemau Trafnidiaeth Ychwanegol yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr**



7.1.3. Fel y dangosir yn **Ffigur 7-2**, roedd 59% (69) o 123 o ymatebwyr o Lanbedr yn cytuno bod angen mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth eraill yn Llanbedr a'r ardal leol. Gellid gweld tuedd debyg ar gyfer 'pawb arall', lle'r oedd 52% (76) o 148 o ymatebwyr eu bod yn cytuno.

7.1.4. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i roi unrhyw sylwadau am eu cytundeb â'r amcanion, gan gyfiawnhau eu safbwyntiau.

7.1.5. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn **Tabl 7-1**.

**Tabl 7-1 – Crynodeb o'r sylwadau yn ymwneud â barn yr ymatebwyr ar y problemau trafnidiaeth ychwanegol**

| Sylwadau Awgrymiadol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â thraffig a thagfyedd tymhorol yn Llanbedr a'r ardal leol | 6 | 7 |
| Yn awgrymu y dylid rhoi sylw i gyfyngiad strwythurol y bont restredig | 5 | 7 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael ag effaith traffig ar drigolion lleol (e.e. llygredd sŵn, llygredd aer, diogelwch, ansawdd bywyd) | 7 | 3 |
| Yn awgrymu darparu ffordd osgoi (e.e. i leddfu pwysau a gwella llif traffig trwy bentref Llanbedr, i wella mynediad ar gyfer gwasanaethau brys, i wella mynediad ar gyfer trigolion, i wella mynediad at y maes awyr, i wella mynediad at Fochras) | 11 | 10 |
| Yn awgrymu gwella diogelwch / mynediad cerddwyr yn Llanbedr a'r ardal leol | 8 | 7 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â goryrru yn Llanbedr a'r ardal leol / Pryder am oryrru presennol yn Llanbedr a'r ardal leol | 6 | 5 |
| Yn awgrymu darparu pont droed | 3 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â phroblemau parcio yn Llanbedr a'r cyffiniau (e.e. cael gwared ar barcio ar y stryd, mwy o ddefnydd o linellau melyn dwbl) | 9 | 15 |
| Yn awgrymu bod angen mynediad â char i drigolion sy'n byw ymhellach i fyny'r dyffryn | 0 | 1 |
| Yn awgrymu bod angen gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus yn Llanbedr a'r ardal leol (e.e. bws cynharach neu hwyrach, cysylltiadau trên; gwelliannau gorsaf fysiau / gorsaf reilffordd) / Beirniadaeth o'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol (e.e. annibynadwy, prin) | 17 | 13 |
| Yn awgrymu darparu lonydd beicio yn Llanbedr a'r ardal leol | 3 | 0 |
| Yn awgrymu gwella mynediad ar gyfer datblygiad busnes i ddenu cyflogaeth o ansawdd yn Llanbedr a'r ardal leol | 2 | 3 |
| Yn awgrymu llwybr mynediad amgen i gerbydau nwyddau trwm ym Mharth Menter Maes Awyr Llanbedr (e.e. atal tagfeydd wrth Bont Afon Arto) | 2 | 0 |
| Yn awgrymu mynediad diogel/haws at y cae chwarae (maes y pentref) a'r maes chwarae o'r Gofeb Ryfel a'r bont | 2 | 0 |
| Yn awgrymu mynediad diogel/haws at y toiledau o'r maes chwarae | 1 | 0 |
| Yn awgrymu lleoedd parcio addas i drigolion ac ymwelwyr | 8 | 5 |
| Yn awgrymu creu llwybrau beicio o Harlech i Abermo | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyflwr ffordd gwell (e.e. sylfeini) / Beirniadaeth o gyflwr presennol y ffordd | 1 | 3 |
| Yn awgrymu y dylid cael gwared ar y terfyn cyflymder 20mya | 0 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y dylid gwella'r gwelededd wrth y fynedfa i'r Hen Efail a Brynheulog Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwell hygyrchedd i bobl ag amhariadau corfforol a /neu feddyliol (e.e. hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus) | 2 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â llif / tagfeydd traffig trwy Lanbedr gyfan (yn gyffredinol / lle na roddir unrhyw awgrym o natur dymhorol / na roddir lleoliad) | 8 | 6 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â thraffig wrth Gyffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod trigolion Llanbedr yn cael eu blaenoriaethu (yn gyffredinol) | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod maint lorïau yn cael ei leihau | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen goleuadau traffig ar gyfer cyffyrdd | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid cael gwared ar draffig ac yna gellir cynnal asesiad o welliannau eraill wedyn | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod ffordd osgoi newydd yn cael ei darparu i gerbydau eraill osgoi'r pentref, ond bod mynediad i Lanbedr i bobl leol ac ymwelwyr yn cael ei ganiatáu | 0 | 1 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Beirniadaeth o'r Prosiect | 2 | 2 |
| Beirniadaeth bod y Prosiect yn canolbwyntio gormod ar deithio cynaliadwy | 0 | 2 |
| Beirniadaeth bod y Prosiect yn wastraff arian | 0 | 2 |
| Beirniadaeth o unrhyw gynigion i gynyddu traffig i'r ardal i ddefnyddio maes awyr Llanbedr | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder y disgwylir i'r tagfeydd ychwanegol a achosir gan gerbydau nwyddau trwm a faniau gwersylla mawr waethygu wrth i lefelau traffig gynyddu | 2 | 2 |
| Pryder am ddyfodol Lein Arfordir y Cambrian | 0 | 1 |
| Pryder bod yr orsaf reilffordd yn rhy bell o bentref Llanbedr (e.e. gan effeithio ar oedolion hŷn) | 1 | 0 |
| Pryder yn ymwneud â cherbydau danfon (e.e. gan gynnwys cerbydau nwyddau trwm) yn ceisio symud drwy'r pentref | 0 | 1 |
| Pryder yn ymwneud â thraffig cerbydau nwyddau trwm yn teithio trwy Lanbedr a / neu'r ardal leol (e.e. nid yw'r ffyrdd a'r cyffyrdd yn addas ar gyfer cerbydau mawr modern) | 1 | 4 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 0 | 0 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 0 | 0 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 0 | 0 |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 0 | 1 |
| Ddim yn siŵr | 0 | 1 |

7.1.6. Darparodd cyfanswm o 156 o ymatebwyr sylwadau testun rhydd ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd hyn yn cynnwys 76 o ymatebwyr o Lanbedr ac 80 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Awgrymiadau**

7.1.7. Cyflwynodd tua 48% o gyfanswm yr ymatebion amrywiaeth o awgrymiadau yn ymwneud â phroblemau trafnidiaeth y mae angen mynd i'r afael â nhw yn Llanbedr. Roedd yr awgrymiadau a godwyd amlaf yn cynnwys:

- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn Llanbedr a'r ardaloedd lleol (17 o ymatebwyr o Lanbedr a 13 o ymatebwyr o fannau eraill)
- Darparu ffordd osgoi i leddfu pwysau a gwella llif traffig trwy bentref Llanbedr (11 o ymatebwyr o Lanbedr, 10 o fannau eraill)
- Sicrhau bod problemau parcio yn cael sylw (naw o ymatebwyr o Lanbedr, 15 o fannau eraill)

7.1.8. Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Sicrhau bod effeithiau traffig cyn lleied â phosibl,
- Gwella diogelwch a mynediad cerddwyr,
- Goryrru,
- Mynd i'r afael â chyfyngiadau strwythurol y bont;
- Traffig a thagfeydd;
- Darparu lonydd beicio lleol; a
- Gwella cyflwr ffyrdd.

**Beirniadaethau**

7.1.9. Darparwyd pedwar sylw yn beirniadu, ac roedd y rhain yn cynnwys:

- Beirniadaethau cyffredinol am y prosiect;
- Beirniadaeth o unrhyw gynigion i gynyddu traffig i'r ardal i ddefnyddio maes awyr Llanbedr;
- Pryderon bod y prosiect yn canolbwyntio gormod ar deithio cynaliadwy; a
- Beirniadaethau bod y prosiect yn wastraff arian cyhoeddus.

**Pryderon**

7.1.10. Codwyd nifer o bryderon am effaith lefelau traffig presennol ac yn y dyfodol ar Lanbedr a'r cyffiniau:

- Mynegodd ymatebwyr bryder am draffig cerbydau nwyddau trwm yn y pentref a chynaliadwyedd y rhwydwaith ffyrdd lleol a chyffyrdd ar gyfer cerbydau mawr.
- Amlygodd ymatebwyr bod tagfeydd ychwanegol a achosir gan gerbydau nwyddau trwm a faniau gwersylla mawr yn debygol o waethygu wrth i lefelau traffig cyffredinol gynyddu.

7.1.11. Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- Pryder am effaith cerbydau danfon;
- Pryder am bellter yr orsaf reilffordd o'r pentref, gan gyfeirio'n benodol at effaith hyn ar oedolion hŷn; a
- Phryder am ddyfodol Lein Arfordir y Cambrian.

**Arall**

7.1.12. Codwyd dau sylw arall, sef:

- Ddim yn siŵr; a
- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd.


# 8 GWELLIANNAU I’R A496 A’R RHWYDWAITH FFYRDD LLEOL

8.1.1. Gofynnwyd i’r ymatebwyr wedyn am unrhyw welliannau sydd eu hangen ar yr A496 trwy Lanbedr a’r rhwydwaith ffyrdd lleol.


8.1.2. Ni roddwyd unrhyw opsiwn sylwadau testun rhydd ar gyfer y cwestiwn hwn. Rhoddir crynodeb o’r ymatebion yn **Ffigur 8-1** isod. Mae **Ffigur 8-2** yn crynhoi dosbarthiad yn seiliedig ar fan preswyl.

- Mae’r data yn dangos bod 80% (221) o 277 o ymatebwyr yn credu bod angen gwneud gwelliannau i’r A496 a’r Rhwydwaith Ffyrdd Lleol.
- Dywedodd yr 20% (56) o ymatebwyr sy’n weddill nad oedd angen unrhyw welliannau.

**Ffigur 8-1 – Angen am Welliannau ar yr A496 a’r Rhwydwaith Ffyrdd Lleol**




**Ffigur 8-2 – Angen am Welliannau ar yr A496 a’r Rhwydwaith Ffyrdd Lleol yn seiliedig ar ba un a oedd yr ymatebwr yn byw yn Llanbedr**





8.1.3. Fel y dangosir yn **Ffigur 8-2**, mae trigolion Llanbedr a mannau eraill yn dangos yr un duedd ag 80% o 123 a 154 o ymatebwyr o bob categori, yn eu trefn, yn cytuno bod angen gwelliannau i’r A496 a’r Rhwydwaith Ffyrdd Lleol. Nid oedd lleoliad man preswyl yr ymatebwyr yn effeithio ar eu hymateb.

# 9 FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

9.1.1. Nod y rhan hon o'r arolwg oedd casglu safbwyntiau'r cyhoedd ar Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis un ymateb o'r rhestr a ddarparwyd. Fe'u gwahoddwyd wedyn i gynnig sylwadau testun rhydd ar gyfer pob cwestiwn.


9.1.2. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ydynt yn cefnogi'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau dilynol i ymatebwyr a fynegodd gefnogaeth i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (a atebodd 'Ydw') yn ymwneud â hyn. Cyfeiriwyd y rhai a ymatebodd 'Nac ydw' i neidio ymlaen i Gwestiwn 10.

**Ffigur 9-1 – Ymatebwyr sy'n cefnogi Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr**




- Mae **Ffigur 9-1** yn dangos bod 85% (213) o'r cyfanswm o 251 o ymatebwyr yn cefnogi egwyddor Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr.

**Ffigur 9-2 – Ymatebwyr sy'n cefnog Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr**



9.1.3. Mae **Ffigur 9-2** yn dangos rhyw fymryn o amrywiad yn yr ymatebion yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr neu bawb arall. Mae 90% (105) o 117 o ymatebwyr o Lanbedr yn cefnogi egwyddor Ffordd Liniaru Cyflymder Isel o'i gymharu ag 81% (108) o 134 o fannau eraill.

9.1.4. Roedd yr ymatebwyr yn gallu ateb cwestiwn penagored i rannu unrhyw sylwadau yn ymwneud ag egwyddor Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr.

9.1.5. Cyflwynir crynodeb o sylwadau a dderbyniwyd yn **Tabl 9-1**.

**Tabl 9-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (yn gyffredinol) | 16 | 14 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel oherwydd llai o draffig / tagfeydd (gan gynnwys tymhorol) / amseroedd teithiau llai / | 31 | 14 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i wella parcio yn y pentref | 1 | 0 |
| Yn cefnogi gwelliannau teithio llesol yn rhan o gynllun y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 13 | 2 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i leihau gwrthdrawiadau / cynyddu diogelwch | 20 | 13 |
| Yn cefnogi'r terfyn amser o 40mya ar hyd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 1 | 2 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gan y bydd yn annog busnesau i gyflogi pobl leol | 1 | 1 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gan y bydd yn annog twristiaeth | 2 | 1 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel oherwydd manteision amgylcheddol (e.e. llai o lygredd / ansawdd aer gwell / llai o sŵn) | 8 | 3 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i gadw strwythur y bont | 4 | 2 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ar gyfer gwell mynediad i gerbydau brys | 3 | 2 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i gynorthwyo i ddenu buddsoddiad a chyflogaeth o ansawdd da | 1 | 0 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i gynnig gwell mynediad at y maes awyr | 2 | 1 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i gynnig gwell mynediad at Fochras | 7 | 2 |
| Yn awgrymu y dylai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel fod wedi digwydd yn gynharach | 4 | 1 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel oherwydd gwell mynediad at amwynderau | 1 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i leihau effaith cerbydau mawr ar ffyrdd cul | 4 | 3 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i wella ansawdd bywyd i drigolion y pentref | 7 | 3 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel oherwydd gwell gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus | 1 | 0 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu y dylai fod yn hawdd cyrraedd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel o'r pentref | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid rhoi marciau llinell felen ddwbl ar y naill ffordd i ffordd y bont a'r llall, gan roi cymorth i drigolion ddod o hyd i leoedd parcio amgen (yn hytrach na'r Ffordd Liniaru) | 1 | 0 |
| Yn awgrymu defnyddio goleuadau traffig wrth gyffyrdd (yn hytrach na'r Ffordd Liniaru) | 0 | 3 |
| Yn awgrymu y dylid cynllunio ffordd osgoi yn y dyfodol i'r ardal arfordirol cyn iddi ddod yn orfodol oherwydd cynnydd yn lefel y môr, ymsuddiad ac ati | 0 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu ffordd osgoi arferol â'r terfyn cyflymder cenedlaethol | 0 | 2 |
| Yn awgrymu y dylid cadw'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y ffordd osgoi | 0 | 1 |
| Yn awgrymu llai o leoedd parcio / cyfyngiadau parcio (yn hytrach na'r Ffordd Liniaru) | 0 | 5 |
| Yn awgrymu adeiladu pont droed ar ochr y bont bresennol (fel Talybont) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu mesurau rheoli cyflymder (yn hytrach na'r Ffordd Liniaru) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai trigolion allu parhau i ddefnyddio'r ffordd trwy Lanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid ymgorffori dyluniadau teithio llesol yn y penderfyniad terfynol | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y gallai mesurau effaith isel, cost isel wella'r sefyllfa gyda chydweithrediad gan drigolion | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu arwyddion digonol i ddynodi gwasanaethau lleol sydd ar gael yn Llanbedr | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel fod yn ddewis olaf, ar ôl i'r holl opsiynau eraill gael eu gwerthuso trwy broses arfarnu drwyadl | 0 | 1 |
| Yn awgrymu darparu maes parcio | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen gwastatáu'r ffordd allan o Lanbedr tua'r gogledd | 0 | 1 |
| **Beirniadaethau / Gwrthwynebiad** | | |
| Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (yn gyffredinol) | 3 | 9 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gan fod y problemau yn brin / tymhorol | 0 | 3 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion yng nghanol y pentref e.e. ffyrdd wedi'u peintio, rhwystrau, rhwystrau igam-ogamu | 2 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau cyflymder ar y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 2 | 6 |
| Beirniadaeth bod symiau mawr o arian wedi cael eu gwario ar gynllunio ac ymgynghori ar gyfer y cynnig ffordd osgoi blaenorol, sydd bellach yn cael ei awgrymu eto | 1 | 1 |
| Beirniadaeth nad yw'r cynnig yn caniatáu i draffig groesi'r bont, gan arwain at amseroedd teithiau hwy | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel oherwydd nad cyflymder yw'r broblem, ond ceir wedi parcio a ffyrdd cul yn achosi problemau yn Llanbedr | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder am gost y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 3 | 5 |
| Pryder y byddai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd / cefn gwlad / bywyd gwyllt / tirwedd / rhywogaethau | 5 | 3 |
| Pryder y byddai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn arwain at gynnydd i draffig i'r gogledd a'r de o Lanbedr | 0 | 1 |
| Pryder nad yw'r ffordd yn ddigon llydan i ddau gerbyd mawr fynd heibio ei gilydd (Talsarnau i Harlech) | 0 | 1 |
| Pryder am effaith y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ar dwristiaeth | 0 | 2 |
| Pryder am y lle pasio a ddarperir i feicwyr yn rhan o'r cynigion | 0 | 1 |
| Pryder y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cynyddu achosion o gythraul gyrru / ymddygiad gwael gan yrwyr | 0 | 2 |
| Pryder y byddai'r terfyn cyflymder arfaethedig ar y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cael ei anwybyddu | 0 | 1 |
| Pryder am effaith y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ar fusnesau lleol | 0 | 2 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 1 | 0 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 1 | 1 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 1 | 1 |

9.1.6. Darparodd cyfanswm o 127 o drigolion sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn. Roedd hyn yn cynnwys 64 o ymatebwyr o Lanbedr a 63 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd isod.

**Sylwadau Cefnogol**

9.1.7. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gan 16 o ymatebwyr yn Llanbedr a 14 o ymatebwyr o fannau eraill. Cefnogwyd lleihau tagfeydd traffig, amseroedd teithio, a lleddfu pwysau tymhorol gan 31 o ymatebwyr o Lanbedr a 14 o fannau eraill.

9.1.8. Roedd cefnogaeth dda i'r amcan i wella diogelwch drwy'r Ffordd Liniaru arfaethedig hefyd, ag 20 o ymatebwyr o Lanbedr a 13 o ymatebwyr o fannau eraill. Cafwyd cefnogaeth i welliannau i deithio llesol yn rhan o'r cynllun gan 13 o ymatebwyr yn Llanbedr a dau o fannau eraill. Cefnogwyd manteision amgylcheddol fel gostyngiadau i lygredd aer a sŵn gan wyth o ymatebwyr yn Llanbedr a thri o fannau eraill.

9.1.9. Canolbwyntiodd cefnogaeth arall ar y themâu canlynol:

- Gwell mynediad;
- Cefnogaeth i'r terfyn cyflymder 40mya; a
- Manteision i drafnidiaeth gyhoeddus, twristiaeth, a chyflogaeth.

**Awgrymiadau**

9.1.10. Cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau yn ymwneud â'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Gwnaed awgrymiadau ar sail y themâu canlynol:

- Cyflwyno goleuadau traffig wrth gyffyrdd allweddol;
- Parcio a mesurau rheoli parcio;
- Adeiladu ffordd osgoi safonol â therfyn cyflymder cenedlaethol;
- Creu pont droed ar ochr y bont ffordd bresennol;
- Teithio llesol;
- Cadw'r cynnig ffordd osgoi gwreiddiol;
- Arwyddion; a
- Sicrhau yr ystyrir y Ffordd Liniaru fel dewis olaf yn unig.

**Beirniadaethau**

9.1.11. Mynegodd ymatebwyr wrthwynebiad cyffredinol i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn ogystal â gwrthwynebu'r cynigion yng nghanol y pentref, fel nodweddion ffordd a gosod rhwystrau.

9.1.12. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth o'r achos anghenion;
- Yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau cyflymder sy'n gysylltiedig â'r Ffordd Liniaru;
- Beirniadaeth o'r cynllun ffordd osgoi blaenorol; a
- Phryder y byddai'r llwybr newydd yn arwain at amseroedd teithiau hwy.

**Pryderon**

9.1.13. Mynegwyd pryderon am gost y Ffordd Liniaru arfaethedig gan dri o ymatebwyr o Lanbedr a phump o fannau eraill. Codwyd y potensial o effeithiau amgylcheddol negyddol gan gynnwys effeithiau ar gefn gwlad, bywyd gwyllt, a thirwedd gan bump o ymatebwyr o Lanbedr a thri o fannau eraill.

9.1.14. Codwyd pryderon eraill gan ymatebwyr, gan gynnwys y themâu canlynol:

- Pryderon traffig;
- Pryderon twristiaeth; ac
- Ymddygiad gyrwyr.

**Arall**

9.1.15. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau eraill ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cais am ragor o wybodaeth;

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd; a
- Sylw y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad


# 10 TERFYN CYFLYMDER 40MYA ARFAETHEDIG AR Y FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

10.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn pa un a oeddent yn cytuno â'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, yn ymestyn o'r parth 40-mya presennol yn Llanfair (i'r gogledd) i safle Knightmovers/Cambrian Clearance (i'r de), a pha un a oeddent yn teimlo bod hwn yn gyflymder addas ar gyfer y ffordd newydd bosibl.


- Fel y dangosir yn **Ffigur 10-1**, mae 80% (192) o'r cyfanswm o 240 o ymatebwyr yn cefnogi'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig ar y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.
- Roedd hyn yn cynnwys 90% (97) o 108 o ymatebwyr o Lanbedr a 72% (95) o 132 o ymatebwyr o fannau eraill.

10.1.2. Caiff y dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr ai peidio ei grynhoi yn **Ffigur 10-2**.

**Ffigur 10-1 – Barn ymatebwyr ar derfyn cyflymder 40-mya ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**




**Ffigur 10-2 – Barn ymatebwyr ar derfyn cyflymder 40-mya ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr**



10.1.3. Roedd cyfanswm o 28% (37) o'r 132 o ymatebwyr o fannau eraill yn gwrthwynebu'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig ar y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, o'i gymharu â 10% (11) o 108 o ymatebwyr o Lanbedr.

10.1.4. Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i rannu unrhyw sylwadau yn ymwneud â'u barn ar y terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig.

10.1.5. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cwestiwn hwn yn **Tabl 10-1**.

**Tabl 10-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig ar gyfer y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r terfyn cyflymder 40-mya (yn gyffredinol) | 13 | 7 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 6 | 1 |
| Yn cefnogi'r terfyn cyflymder 40-mya oherwydd defnyddwyr ffordd agored i niwed yn yr ardal (e.e. beicwyr, defnyddwyr beiciau cwad, defnyddwyr gator, ac ati) | 1 | 0 |
| Yn cefnogi'r terfyn cyflymder 40-mya gan y bydd hyn yn fwy tawel na ffordd cyflymder uwch | 1 | 0 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu y dylai'r terfyn cyflymder fod yn 50-mya | 0 | 5 |
| Yn awgrymu y dylai'r terfyn cyflymder fod yn is na 40-mya | 3 | 5 |
| Yn awgrymu y dylai'r terfyn cyflymder fod yn 60-mya / y terfyn cyflymder cenedlaethol | 1 | 10 |
| Yn awgrymu y dylai'r terfyn cyflymder fod yn 50 neu 60mya rhwng cyffordd groesgam yr ochr ogleddol ym Mhensarn ac ar waelod Rhiw Cae Cethin | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen rhoi sylw i rai mynedfeydd tramwyfeydd yn agos at/gyferbyn â Knightmovers fel ffordd allan/mynedfa ar y ffordd osgoi | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid gorfodi / cyfyngu'r terfyn cyflymder (e.e. camerâu cyflymder) | 3 | 2 |
| Yn awgrymu y dylai'r rhan ym Mhensarn i Lanbedr fod yn uwch na 40mya | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig | 5 | 10 |
| Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 1 | 5 |
| Yn gwrthwynebu'r terfyn cyflymder arfaethedig gan y bydd yn creu sŵn | 1 | 3 |
| Yn gwrthwynebu'r terfyn cyflymder arfaethedig gan y bydd gyrwyr yn anwybyddu'r terfyn cyflymder fel mater o drefn | 0 | 3 |

| Pryderon | | |
|---|---|---|
| Pryder y bydd defnyddwyr ffordd, heb orfodaeth, yn mynd y tu hwnt i'r terfyn cyflymder 40-mya / Ymholiad am sut y bydd y terfyn cyflymder yn cael ei orfodi | 3 | 3 |
| Pryder am gost arwyddion ailadroddus ar gyfer y terfyn cyflymder 40mya | 0 | 1 |
| Pryder am effaith amgylchedd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (e.e. effaith garbon) | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 0 | 1 |

10.1.6. Darparodd cyfanswm o 79 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 36 o ymatebwyr o Lanbedr a 43 o ymatebwyr o fannau eraill.

10.1.7. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau Cefnogol**

10.1.8. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig gan 13 ymatebwyr yn Llanbedr a daith o ymatebwyr o fannau eraill. Nodwyd cefnogaeth i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn fwy eang hefyd gan chwech o ymatebwyr o Lanbedr ac un ymatebwr o fan arall.

10.1.9. Roedd sylwadau cefnogol ychwanegol, er yn fwy prin, yn adlewyrchu rhesymau penodol am gytuno â'r terfyn 40-mya:

- Cefnogaeth oherwydd presenoldeb defnyddwyr ffordd agored i niwed fel beicwyr a defnyddwyr beiciau cwad.
- Cefnogaeth fel opsiwn amgen tawelach yn hytrach na ffordd cyflymder uwch.

**Awgrymiadau**

10.1.10. Gwnaeth sawl ymatebwr awgrymiadau amgen yn hytrach na'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig.

10.1.11. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Gorfodi'r terfyn cyflymder; ac
- Awgrymiadau y dylai'r rhan ym Mhensarn i Lanbedr fod yn uwch na 40mya.

**Beirniadaethau**

10.1.12. Codwyd gwrthwynebiad i'r terfyn cyflymder 40-mya arfaethedig gan bump o ymatebwyr o Lanbedr a deg o ymatebwyr o fannau eraill. Codwyd gwrthwynebiad ehangach i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ei hun gan un ymatebwr yn Llanbedr a phump o ymatebwyr o fannau eraill.

10.1.13. Roedd beirniadaethau pellach yn cynnwys:

- Pryder am y sŵn a gynhyrchir ar 40 mya; a
- Phryder ei bod yn debygol y byddai'r terfyn cyflymder arfaethedig yn cael ei anwybyddu gan yrwyr.

**Pryderon**

10.1.14. Codwyd pryderon am y diffyg gorfodaeth cyflymder gan dri o ymatebwyr yn Llanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill.

10.1.15. Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- Pryder am gost bosibl gosod arwyddion ailadroddus ar gyfer y parth 40-mya; a
- Phryder am effaith amgylcheddol y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

**Arall**


10.1.16. Roedd sylwadau eraill a godwyd yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd.

# 11 CAU PONT AFON ARTRO I GERBYDAU MODUR


11.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn pa un a oeddent yn cytuno â'r cynnig i atal mynediad i gerbydau modur (ac eithrio bysiau lleol a gwasanaethau brys) at y Bont Afon Artro bresennol yn rhan o gynllun y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion a ddarparwyd yn **Ffigur 11-1** ac mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr wedi'i grynhoi yn **Ffigur 11-2**.

**Ffigur 11-1 – Barn ymatebwyr ar y cynnig i atal mynediad i gerbydau modur ar Bont Afon Artro**




- Mae **Ffigur 11-1** yn dangos bod 61% (149) o'r cyfanswm o 244 o ymatebwyr yn gwrthwynebu cau Pont Afon Artro i gerbydau modur (ac eithrio bysiau lleol a gwasanaethau brys).

**Ffigur 11-2 – Barn ymatebwyr ar y cynnig i atal mynediad i gerbydau modur ar Bont Afon Artro yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr**



11.1.2. Fel y dangosir yn **Ffigur 11-2**, roedd 65% (73) o'r 112 o ymatebwyr o Lanbedr a 58% (76) o 132 o ymatebwyr o fannau eraill ymhlith y rhai a oedd yn gwrthwynebu cau'r bont. Nodir nad oedd lleoliad man preswyl yr ymatebwyr yn cael effaith arwyddocaol ar eu hymateb.

11.1.3. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r ymatebwyr ateb cwestiwn penagored am eu cytundeb â'r cynnig.

11.1.4. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cynnig yn **Tabl 11-1**.

**Tabl 11-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â safbwyntiau ymatebwyr ar y cynnig i atal mynediad i gerbydau modur ar Bont Afon Artro**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio'r Bont Afon Artro bresennol yn Llanbedr | 4 | 8 |
| Yn cefnogi adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 5 | 2 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu goleuadau traffig ar y bont yn hytrach na'r cynnig | 1 | 1 |
| Yn awgrymu cyfyngu traffig i ganol Llanbedr ar hyd y ffordd bresennol i "Fynediad yn Unig" yn hytrach na'r cynnig | 4 | 2 |
| Yn awgrymu cael gwared ar / lleihau nifer y ceir drwy'r pentref | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau parcio yn y pentref | 1 | 2 |
| Yn awgrymu cyflwyno cyfyngiadau ar bwysau neu faint cerbydau yn hytrach na'r cynnig | 5 | 0 |
| Yn awgrymu caniatáu mynediad i drigolion trwy system drwydded | 14 | 7 |
| Yn awgrymu darparu llwybr mynediad lleol amgen cyn gorfodi cyfyngiadau | 1 | 2 |
| Yn awgrymu darparu Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn y lle cyntaf, gan asesu'r angen am gyfyngiadau ychwanegol yn ddiweddarach | 3 | 0 |
| Yn awgrymu gwella'r ffordd rhwng Bermo a Maentwrog | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid cadw mynediad i gerbydau gwasanaeth y cyngor | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y gallai Pont Afon Artro gael ei defnyddio o hyd gan gerbydau gwastraff, hersiau a thrigolion | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid hyrwyddo mynediad diogel, cynaliadwy i'r pentref gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r Prosiect | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid cadw mynediad ar gyfer busnesau lleol | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu pont droed a chael gwared ar y ddau balmant (yn hytrach na gwahardd cerbydau modur o'r bont) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu lledaenu palmant y bont a gwneud y bont yn un lôn yn unig â cheir yn teithio tua'r gogledd yn cael blaenoriaeth | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 0 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio cerbydau modur rhag defnyddio'r Bont Afon Artro bresennol | 19 | 16 |
| Yn gwrthwynebu'r cynnig gan y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn lleihau traffig drwy'r pentref eisoes | 16 | 9 |
| Beirniadaeth bod y cynnig hwn wedi cael ei gyflwyno yn Llanbedr yn unig ac nid mewn unrhyw bentrefi arall | 0 | 1 |
| Beirniadaeth o gost y cynnig | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder am effaith y cynnig ar effaith ar fynediad at Abermo | 2 | 1 |
| Pryder am sut y bydd y cynnig yn cael ei orfodi / Ymholiad am sut y bydd y cynnig yn cael ei orfodi | 6 | 2 |
| Pryder am effaith y cynigion ar drigolion Llanbedr | 25 | 31 |
| Pryder y bydd y cynnig yn cynyddu tagfeydd | 0 | 2 |
| Pryder am effaith y cynnig ar yr economi leol | 3 | 3 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fusnesau lleol | 7 | 19 |
| Pryder y bydd y cynnig yn rhannu'r pentref yn ddwy ochr | 17 | 8 |
| Pryder am effaith y cynigion ar bobl ag amhariadau corfforol a/neu feddyliol | 4 | 2 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fynediad i ymwelwyr | 3 | 6 |
| Pryder am effaith y cynnig ar dwristiaeth | 1 | 1 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fynediad at swyddi | 3 | 0 |
| Pryder am effaith y cynnig ar gasgliadau gwastraff | 2 | 2 |
| Pryder am effaith y cynnig ar ddanfoniadau lleol | 3 | 5 |
| Pryder y bydd y cynigion yn arwain at amseroedd a phellteroedd teithiau hwy | 15 | 6 |
| Pryder am effaith y cynnig ar yr amgylchedd (e.e. oherwydd gwyriadau maith) | 4 | 3 |
| Pryder am effaith y cynnig ar amgylchedd / atmosffer y pentref | 2 | 2 |
| Pryder am effaith cynigion ar oedolion hŷn | 4 | 0 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fynediad at ysgolion | 2 | 3 |
| Pryder am effaith y cynnig ar barcio dros nos | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fynediad at Gwm Nantcol | 0 | 1 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 1 | 0 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 1 | 1 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 2 | 1 |

11.1.5. Darparodd cyfanswm o 154 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 76 o ymatebwyr o Lanbedr a 78 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

### Sylwadau cefnogol

11.1.6. Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio'r Bont Afon Artro bresennol yn Llanbedr gan bedwar o ymatebwyr o Lanbedr ac wyth o ymatebwyr o fannau eraill.

11.1.7. Nodwyd cefnogaeth i adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gan bump o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill.

### Awgrymiadau

11.1.8. Yr awgrymu a godwyd amlaf oedd gweithredu system trwyddedau mynediad i drigolion, a gefnogwyd gan 14 o ymatebwyr yn Llanbedr a saith y tu allan i'r ardal.

11.1.9. Darparwyd awgrymiadau eraill ar sail y themâu canlynol:

- Cynnig i ddisodli'r cynllun presennol gyda goleuadau traffig ar y bont;
- Cyfyngiadau pwysau neu faint cerbydau yn hytrach na'r cynnig presennol;
- Cyfyngiadau "Mynediad yn Unig" i mewn i'r pentref;
- Awgrym y dylai cerbydau'r cyngor gadw mynediad;
- Awgrym i newid y bont bresennol i drefniant un lôn â phalmentydd mwy llydan a thraffig blaenoriaeth tua'r gogledd; ac
- Awgrym y dylid darparu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel syn gyntaf, gan asesu unrhyw gyfyngiadau pellach ar ôl ei chyflwyno yn unig.

### Beirniadaethau

11.1.10. Gwrthwynebwyd y cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio'r Bont Afon Artro bresennol gan 19 o ymatebwyr o Lanbedr ac 16 o fannau eraill, gan ddynodi pryder eang.

11.1.11. Mynegodd 16 o ymatebwyr o Lanbedr a naw o fannau eraill bryder y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn lleihau traffig drwy'r pentref, gan leihau'r effaith a fwriedir.

11.1.12. Roedd beirniadaethau eraill yn cynnwys:

- Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ei hun;
- Beirniadaeth bod y cynnig wedi cael ei gyflwyno yn Llanbedr yn unig ac nid mewn pentrefi eraill;
- Beirniadaeth o gost y cynnig.

### Pryderon

11.1.13. Y pryder a godwyd amlaf ymhlith yr ymatebwyr oedd effaith y cynigion ar drigolion Llanbedr, a nodwyd gan 25 o ymatebwyr o Lanbedr, o'i gymharu â 31 o ymatebwyr o fannau eraill.

11.1.14. Mynegodd nifer sylweddol o drigolion Llanbedr (17) bryder hefyd y byddai'r cynigion yn rhannu'r pentref yn ddwy ochr, safbwynt a atseiniwyd gan wyth o ymatebwyr o fannau eraill.

11.1.15. Codwyd pryderon am amseroedd teithiau hwy a phellteroedd teithio mwy oherwydd y cynnig gan 15 o drigolion yn Llanbedr a chwech o bobl eraill. Amlygwyd yr effaith negyddol bosibl ar fusnesau lleol gan saith o ymatebwyr Llanbedr a 19 o bobl eraill. Hefyd, fe wnaeth chwech o drigolion Llanbedr a dau o bobl eraill gwestiynu sut y byddai'r cynnig yn cael ei orfodi.

11.1.16. Soniwyd am bryderon amgylcheddol, yn enwedig y rhai yn ymwneud â gwyriadau maith, gan bedwar o drigolion Llanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill.

11.1.17. Roedd pryderon eraill a godwyd yn cynnwys effaith cynigion i atal mynediad i gerbydau ar y Bont Afon Artro bresennol ar y canlynol:

- Danfoniadau lleol;
- Effaith ar oedolion hŷn;
- Effaith ar unigolion ag amhariadau corfforol a/neu feddyliol;
- Mynediad at swyddi;
- Yr economi leol;
- Mynediad i ymwelwyr;
- Casgliadau gwastraff;
- Mynediad at ysgolion;
- Awyrgylch y pentref;
- Mynediad at Abermo;
- Parcio dros nos; a
- Thwristiaeth.

**Eraill**

11.1.18. Roedd sylwadau eraill a godwyd yn cynnwys:


- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd;
- Y tu allan i'r cwmpas; a
- Chais am ragor o wybodaeth.

# 12 CAU FFORDD MOCHRAS I GERBYDAU MODUR


12.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras o dan y ffordd newydd gan ganiatáu mynediad i gerddwyr, beicwyr, ac olwynwyr (cadeiriau olwyn/sgwteri ac ati) yn unig yn rhan o'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

- Fel y dangosir yn **Ffigur 12-1**, roedd 55% (127) o 234 o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig.
- Roedd hyn yn cymharu â 45% o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig.
- O ddadansoddi ymhellach, nodwyd bod 50% o 107 o ymatebwyr o Lanbedr naill ai o blaid neu yn erbyn y cynnig. Fodd bynnag, roedd 57% o 127 o ymatebwyr o fannau eraill yn cefnogi'r cynnig i gau Ffordd Mochras. Caiff y dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a oedd yr ymatebwr yn byw yn Llanbedr ei grynhoi yn **Ffigur 12-2**.

**Ffigur 12-1 – Barn ymatebwyr i atal mynediad i gerbydau modur ar Ffordd Mochras**




**Ffigur 12-2 – Barn ymatebwyr i atal mynediad i gerbydau modur ar Ffordd Mochras yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr**




12.1.2. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i rannu unrhyw sylwadau ar gau Ffordd Mochras i gerbydau modur.

12.1.3. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cwestiwn hwn yn **Tabl 12-1**.

**Tabl 12-1 Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Cefnogaeth i'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras | 5 | 1 |
| Cefnogaeth i'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras, dim ond os darperir Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 1 | 1 |
| Yn cefnogi nodau'r cynnig | 4 | 1 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu bod lleoedd parcio digonol yn cael eu darparu ar y ddwy ochr i'r ffordd newydd | 1 | 0 |
| Yn awgrymu caniatáu mynediad i drigolion trwy system drwydded | 2 | 0 |
| Yn awgrymu cyflwyno cyfyngiadau pwysau neu faint cerbydau i ddiogelu'r bont | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid darparu llwybr amgen i ymwelwyr gyrraedd Mochras | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cael gwared ar yr angen am gynigion ym Mhentref Llanbedr | 6 | 2 |
| Yn awgrymu y dylid cyfyngu traffig ar hyd Ffordd Mochras rhwng y pentref a'r orsaf reilffordd i 'Fynediad yn Unig', yn hytrach na'i wahardd yn llwyr | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y byddai symud ceir wedi'u parcio o'r naill ochr i'r bont a'r llall yn datrys y problemau | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y byddai mân gylchfan neu groesfan yn datrys y problemau | 1 | 1 |
| Yn awgrymu lleoedd parcio i drigolion yn unig ger Afon Artro | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid hyrwyddo mynediad diogel, cynaliadwy at y pentref gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r cynllun | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid gosod system ANPR i fonitro mynediad lleol gan ddefnyddio mesurau adnabod rhifau cerbydau | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod trigolion yn cael mynediad at y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel trwy folardiau ar dag | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu lle parcio mawr i ganiatáu i'r rhai sy'n aros ym Mochras ymweld â phentref Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod yn rhaid i bob llwybr, trac a ffordd ar gyfer defnyddwyr nad ydynt mewn cerbydau modur, gan gynnwys marchogaeth, gyrru car a cheffyl a phob defnyddiwr agored i niwed | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid cadw mynediad ar gyfer traffig lleol | 0 | 2 |
| Yn awgrymu darparu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn y lle cyntaf, gan asesu'r angen am gyfyngiadau ychwanegol yn ddiweddarach | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras. | 7 | 8 |
| Beirniadaeth o'r achos anghenion ar gyfer y cynnig (e.e. nid oes angen y cynnig) | 3 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Beirniadaeth bod y Prosiect yn canolbwyntio gormod ar deithio cynaliadwy | 1 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder am gost y cynnig | 1 | 2 |
| Pryder y bydd y cynnig yn cyfyngu mynediad at y man parcio/picnic ar Ffordd Mochras | 1 | 1 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fynediad ffermwyr at dir | 2 | 0 |
| Pryder am effaith y cynnig ar fusnesau lleol | 5 | 4 |
| Pryder y byddai'r cynnig yn effeithio ar fynediad at faes awyr Llanbedr | 1 | 2 |
| Pryder y bydd y cynnig yn niweidiol i drigolion sy'n byw ar Ffordd Mochras | 2 | 1 |
| Pryder am effaith y cynnig ar ddanfoniadau | 3 | 2 |
| Pryder y gallai'r cynnig achosi dryswch i ymwelwyr â'r ardal, ac y gallai cerbydau fynd yn sownd | 0 | 1 |
| Pryder y bydd y cynnig yn cyfyngu mynediad at yr orsaf reilffordd (yn gyffredinol) | 6 | 2 |
| Pryder y bydd y cynnig yn cyfyngu mynediad at yr orsaf reilffordd i'r rhai ag amhariadau corfforol a meddyliol | 1 | 0 |
| Pryder y bydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar drigolion Llanbedr (e.e. yn peryglu'r gallu i gyrraedd amwynderau) | 7 | 13 |
| Pryder y bydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar drigolion Ffordd Mochras | 6 | 2 |
| Pryder y bydd y cynnig yn creu heriau sylweddol o ran mynediad i ymwelwyr | 1 | 3 |
| Pryder am effaith y cynnig ar y rhai ag amhariadau corfforol a/neu feddyliol | 3 | 1 |
| Pryder y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar lesiant | 3 | 0 |
| Pryder y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y rhai sy'n ddibynnol ar geir | 2 | 1 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 1 | 1 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 0 | 1 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 1 | 5 |
| Ddim yn siŵr | 1 | 2 |

12.1.4. Darparodd gyfanswm o 109 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 57 o ymatebwyr o Lanbedr a 52 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau Cefnogol**

12.1.5. Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras gan bump o ymatebwyr yn Llanbedr ac un ymatebwr o fan arall. Roedd pedwar ymatebwr ychwanegol o Lanbedr ac un o fan arall yn cefnogi nodau cyffredinol y cynnig, fel hybu diogelwch cerddwyr a beicwyr.

12.1.6. Mynegwyd cefnogaeth amodol i'r cynnig hefyd, gan gytuno ag ef dim ond os darperir y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

**Awgrymiadau**

12.1.7. Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau i helpu i reoli effaith y cynnig, â'r un a godwyd amlaf oedd adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel i fynd i'r afael â'r problemau. Codwyd y pwynt hwn gan chewch o ymatebwyr Llanbedr a dau o fannau eraill.

12.1.8. Gwnaed sawl awgrym arall. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Creu lle parcio mawr ar gyfer ymwelwyr â Mochras i'w hannog i ymweld â phentref Llanbedr;
- Lleoedd parcio i drigolion yn unig ger Afon Artro;
- Caniatáu mynediad at y Ffordd Liniaru trwy system folardiau a weithredir gyda thagiau trigolion;
- System ANPR i reoli mynediad lleol;
- Mynediad cynaliadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- "Mynediad yn Unig" ar Ffordd Mochras; a
- Sicrhau bod llwybrau teithio anfodurol yn cynnwys marchogion a defnyddwyr agored i niwed eraill.

**Beirniadaethau**

12.1.9. Codwyd gwrthwynebiad i'r cynnig i atal cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras gan saith o ymatebwyr o Lanbedr ac wyth o ymatebwyr o fannau eraill.

12.1.10. Fe wnaeth tri o ymatebwyr o Lanbedr a phedwar o fannau eraill feirniadu'r cyfiawnhad o'r cynnig, gan awgrymu nad oedd ei angen.

12.1.11. Fe wnaeth ymatebwyr hefyd feirniadu bod y cynnig yn canolbwyntio gormod ar deithio cynaliadwy.

**Pryderon**

12.1.12. Pryderon am yr effaith ar drigolion oedd y mater y cyfeiriwyd ato amlaf. Amlygwyd y potensial i'r cynnig effeithio'n sylweddol ar drigolion Llanbedr gan saith o ymatebwyr o Lanbedr a 13 o ymatebwyr o fannau eraill. Yn gysylltiedig â hyn, codwyd pryder y byddai trigolion sy'n byw ar hyd Ffordd Mochras yn cael eu heffeithio'n arbennig gan chwech o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill.

12.1.13. Daeth mynediad at yr orsaf reilffordd i'r amlwg fel maes arall sy'n peri pryder, y cyfeiriwyd ato gan chwech o ymatebwyr o Lanbedr a dau o ymatebwyr o fannau eraill.

12.1.14. Soniwyd am effaith y cynigion ar fusnesau lleol gan bump o ymatebwyr o Lanbedr a phedwar o ymatebwyr o fannau eraill. Amlygwyd yr effaith bosibl ar fynediad danfoniadau hefyd gan dri o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill.

12.1.15. Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- Pryder y gallai'r newidiadau arfaethedig roi unigolion ag amhariadau corfforol neu feddyliol o dan anfantais;
- Pryder am yr effaith ar lesiant.
- Colli mynediad at dir amaeth.
- Dibyniaeth ar gerbydau preifat.
- Heriau i ymwelwyr o ran dod o hyd i lwybrau amgen a'u defnyddio; a

- Cholled bosibl o fynediad at y man parcio a phicnic ar Ffordd Mochras.

12.1.16. Amlygwyd sawl pryder yn ymwneud â mynediad hefyd.

**Sylwadau Eraill**

12.1.17. Roedd sylwadau eraill a wnaed yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd;
- Ddim yn siŵr;
- Y tu allan i'r cwmpas; a
- Chais am ragor o wybodaeth.

# 13 SYLWADAU CYFFREDINOL AR Y FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

13.1.1. Rhoddwyd cyfle i'r holl ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a ymatebodd 'Na' gan osgoi'r cwestiynau blaenorol yn ymwneud â chynigion ochr yn ochr â'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, wneud unrhyw sylwadau pellach ar y cynnig o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

13.1.2. Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i roi unrhyw sylwadau pellach ar y cynnig ar gyfer Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd o ran y cynnig ar gyfer Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn **Tabl 13-1**.

**Tabl 13-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Ffordd liniaru cyflymder isel**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (yn gyffredinol) | 18 | 12 |
| Yn cefnogi'r terfyn cyflymder 40mya ar hyd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 0 | 1 |
| Yn cefnogi gwella'r pentref, gan greu cyfleoedd datblygu yn yr ardal leol (e.e. ar safle'r Maes Awyr) | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gael ei hadeiladu'n fwy buan | 7 | 9 |
| Yn cefnogi'r ffordd liniaru cyflymder isel gan y byddai'n gwella diogelwch ac ansawdd bywyd yn ardal Llanbedr | 4 | 2 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu y dylid gwahardd parcio ar y stryd fawr | 2 | 0 |
| Yn awgrymu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cyfle i'r pentref ddatblygu busnes a gweithgareddau twristiaeth, ochr yn ochr â rhodfeydd, llwybrau beicio a mannau parcio | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod mynediad o'r ffordd liniaru yn cael ei ddarparu i Ffordd Mochras a maes awyr Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu ymgorffori mesurau i wella diogelwch ar y ffyrdd wrth gyffordd yr A496 a Phensarn | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel cyn gwneud unrhyw addasiadau i'r pentref | 4 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â'r problemau gan ddefnyddio cyfyngiadau parcio | 2 | 4 |
| Yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â'r problemau gan ddefnyddio goleuadau traffig | 0 | 2 |
| Yn awgrymu y dylid adeiladu pont gerddwyr/beicwyr ochr yn ochr â'r ffordd bresennol | 0 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu ffordd osgoi 'normal' yn hytrach na'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 0 | 2 |
| Yn awgrymu darparu maes parcio ger y pentref | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai mynediad i gerbydau aros fel y mae ar hyn o bryd i drigolion lleol | 2 | 1 |
| Yn awgrymu gwelliannau i gyfleusterau llwybr troed/cerddwyr | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu cyfyngiadau parcio/ llinellau melyn dwbl drwy'r pentref | 2 | 0 |
| Yn awgrymu plannu coed ar ochr y pentref i'r ffordd | 0 | 1 |
| Yn awgrymu darparu maes parcio i drigolion | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid rhoi sylw arbennig i dirlunio newydd fel bod effaith weledol gwaith peirianneg ffordd cyn lleied â phosibl ac yn cael ei lleddfu | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu slipffordd ger Talwrn Bach | 0 | 0 |
| Yn awgrymu nad yw cambr palmentydd yn rhy serth | 0 | 1 |
| Yn awgrymu darparu llwybrau beicio | 1 | 0 |
| Yn awgrymu goleuadau traffig ar adegau brig yn ystod misoedd brig | 0 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu pont droed ar ochr isaf y bont garreg bresennol | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai cynllun y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel wneud dim i atal mynediad diogel i gerbydau at Lanbedr, ond dylai hefyd annog mwy o ddefnydd a defnydd mwy diogel o fynediad ar droed ac ar feic i'r pentref | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu slipffordd ger y gylchfan fach – fel y gall cerbydau gael mynediad at y Pentref mewn ffordd debyg i Cambrian Clearance (e.e. bydd pobl sydd angen osgoi Llanbedr yn gallu gwneud hynny trwy ddefnyddio'r ffordd osgoi, gan gymryd llawer o bwysau traffig oddi ar yr hen ffordd a'r bont hynafol) | 1 | 0 |
| Caniatáu i gerbydau ddefnyddio Pont Artro ac eithrio cerbydau nwyddau trwm / lorïau (h.y. cyfyngu cerbydau trwm ar y bont) | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau ar Fochras (e.e. niferoedd ymwelwyr / twf) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu gwahardd cerbydau nwyddau trwm o'r ffyrdd arfordirol | 0 | 1 |
| Yn awgrymu llwybr amgen ar gyfer ffordd liniaru os oes angen (e.e. yn mynd heibio Abermo a Mochras) | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu'r Prosiect (yn gyffredinol) | 6 | 2 |
| Beirniadaeth o achos anghenion y Prosiect | 2 | 1 |
| Yn gwrthwynebu ei gyfyngu i gerddwyr yn unig | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer addasiadau yn y pentref | 7 | 4 |
| Yn gwrthwynebu'r Prosiect gan fod y problemau wedi'u cyfyngu i adegau brig | 0 | 2 |
| Beirniadaeth bod canslo'r ffordd liniaru wreiddiol wedi arwain at wastraffu arian | 1 | 1 |
| Beirniadaeth o'r ymgynghoriad (e.e. amserlenni amhriodol) | 1 | 1 |
| Beirniadaeth o'r syniad y dylid caniatáu trafnidiaeth gynaliadwy yn unig ar hyd y brif ffordd bresennol o ran lleihau trafnidiaeth gan y bydd pobl leol angen teithio ddwywaith mor bell i gyrraedd y pentref | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu'r terfyn cyflymder 40mya ar hyd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 0 | 1 |
| Yn gwrthwynebu cymryd tir yn ddiangen ar gyfer Ffordd Liniaru (h.y. cymryd mwy o dir maes glas ar gyfer parcio ac ati) | 1 | 0 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder y gallai cyfanswm y traffig sy'n dod i'r A496 o Fochras yn ystod y tymor brig achosi pryderon diogelwch | 0 | 1 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar yr amgylchedd (e.e. difrod i gefn gwlad, mwy o lygredd sŵn, effaith ar gorstir cyfagos, effaith ar rywogaethau, effaith ar gynefin) | 4 | 2 |
| Pryder y gallai'r Prosiect achosi problemau traffig wrth y gyffordd o gwmpas y Victoria Inn | 0 | 1 |
| Pryder am ddibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus trwy Lanbedr heb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar drigolion Llanbedr | 1 | 1 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar fusnesau | 1 | 2 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar fynediad at Lanbedr (e.e. i drigolion, danfoniadau) | 1 | 0 |
| Pryder y bydd y cynigion yn y pentref yn niweidio'r gymuned a chymeriad y pentref | 0 | 2 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar wasanaethau brys | 1 | 0 |
| Pryder am sicrwydd cyllid | 2 | 0 |
| Pryder am effaith ar dwristiaid | 0 | 1 |
| Pryder am effeithiau amgylcheddol lefelau tagfeydd presennol | 0 | 1 |
| Pryder bod Canolfan Awyrofod Eryri (h.y. y maes awyr) yn mynd yn fwy prysur / yn tyfu. (e.e. yn achosi problemau mynediad oherwydd cerbydau wedi parcio) | 1 | 1 |
| Pryder y bydd y ffordd liniaru yn galluogi datblygiad (e.e. preswyl ac ati) | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 4 | 0 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 3 | 0 |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 0 | 1 |
| Beirniadaeth Sero Net | 0 | 1 |

13.1.3. Darparodd cyfanswm o 103 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 55 o ymatebwyr o Lanbedr a 48 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

13.1.4. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gan 18 o ymatebwyr yn Llanbedr a 12 o ymatebwyr o fannau eraill. Rhoddwyd yr awgrym i adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn fwy buan gan saith o ymatebwyr yn Llanbedr a naw o fannau eraill.

13.1.5. Rhannwyd y safbwynt y byddai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn gwella diogelwch ac ansawdd bywyd yn sylweddol yn ardal Llanbedr gan bedwar o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill.

13.1.6. Nodwyd cefnogaeth i wella'r pentref, gan gynnwys creu cyfleoedd datblygu fel safle'r Maes Awyr, gan un ymatebwr o Lanbedr ac un o fan arall.

13.1.7. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i'r terfyn cyflymder 40mya arfaethedig ar hyd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn brin, ac ni fynegodd unrhyw ymatebwyr o Lanbedr y farn hon, a dim ond un o fan arall.

**Awgrymiadau**

13.1.8. Gwnaeth sawl ymatebwr amrywiaeth o awgrymiadau. Roedd yr awgrymiadau a godwyd amlaf yn cynnwys:

- Adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r pentref;
- Cyflwyno cyfyngiadau parcio i fynd i'r afael â phroblemau;
- Gwahardd parcio ar y stryd fawr;
- Awgrym i gadw mynediad presennol i gerbydau trigolion; a
- Chyflwyno cyfyngiadau parcio neu linellau melyn dwbl drwy'r pentref.

13.1.9. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Gwella diogelwch ar y ffordd ar yr A496 a chyffordd Pensarn;
- Gwella cyfleusterau llwybr troed a cherddwyr; ac
- Adeiladu pont droed ar ochr isaf y bont garreg bresennol.

**Beirniadaethau**

13.1.10. Roedd gwrthwynebiad amlwg i'r prosiect yn gyffredinol, â chwech o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol. Cwestiynwyd y rhesymeg sy'n sail i'r prosiect hefyd gan ddau o ymatebwyr o Lanbedr ac un o fan arall.

13.1.11. Gwrthwynebwyd y cynigion ar gyfer addasiadau yn y pentref gan saith o ymatebwyr o Lanbedr a phedwar o fannau eraill.

13.1.12. Roedd beirniadaethau eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth bod y problemau wedi'u cyfyngu i adegau brig ac felly nad ydynt yn cyfiawnhau'r cynigion;
- Beirniadaeth o ganslo'r ffordd liniaru wreiddiol, gan nodi gwariant a wastraffwyd;
- Beirniadaeth o'r pwyslais ar drafnidiaeth gynaliadwy; a
- Gwrthwynebiad i'r terfyn cyflymder 40mya.

**Pryderon**

13.1.13. Effaith amgylcheddol oedd y pryder a nodwyd amlaf yn gyffredinol.

13.1.14. Roedd pryderon eraill a godwyd yn cynnwys:

- Pryder am sicrwydd cyllid;
- Pryder am ddibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus heb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel;
- Yr effaith ar wasanaethau brys;
- Problemau traffig wrth gyffordd y Victoria Inn; a'r
- Effaith ar dwristiaeth.

**Arall**

13.1.15. Roedd sylwadau eraill a godwyd yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd;
- Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru;
- Beirniadaeth o Sero Net; a
- Chais am ragor o wybodaeth.

# 14 GWELLIANNAU I BENTREF LLANBEDR – HEB FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL


14.1.1. Nod y rhan hon o’r arolwg oedd casglu safbwyntiau’r cyhoedd ar y gwelliannau ym mhentref Llanbedr heb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Gallai ymatebwyr ddewis ateb cadarnhaol neu negyddol o bob opsiwn arfaethedig a ddarparwyd ac yna fe’u gwahoddwyd i wneud sylwadau testun rhydd ar gyfer cwestiynau yn yr adran.

14.1.2. Gofynnwyd i bobl a fyddent yn teimlo’n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno, neu’n beicio ym mhentref Llanbedr â’r mesurau canlynol ar waith pe baent yn cael eu cyflwyno heb i Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gael ei hadeiladu:

- Opsiwn 1– Gwelliannau Diogelwch.
- Opsiwn 2 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus.
- Opsiwn 3 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Goleuadau Traffig).
- Opsiwn 4 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Lleoedd Parcio Preswyl Oddi ar y Stryd).


- Rhoddir crynodeb o’r ymatebion yn **Ffigur 14-1**.
- Nodir bod 42% (96) o’r cyfanswm o 226 o ymatebwyr yn cefnogi Opsiwn 4 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Lleoedd Parcio Preswyl Oddi ar y Stryd), tra bod 41% (93) o 228 o ymatebwyr yn cefnogi Opsiwn 1– Gwelliannau Diogelwch.
- Dilynir y rhain gan Opsiwn 2 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus, a gefnogir gan 38% (85) o 224 o ymatebwyr.
- Opsiwn 3 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Goleuadau Traffig) yw’r opsiwn a ffefrir leiaf, â 35% (76) o 220 o ymatebwyr.

**Ffigur 14-1 – Barn ymatebwyr – gwelliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**



14.1.3. I ddeall a oedd y man preswyl yn cael effaith ar ddewisiadau'r ymatebwyr, dadansoddwyd yr ymatebion ar wahân ar gyfer y rhai o Lanbedr ac o fannau eraill. Caiff yr ymatebion ar gyfer trigolion Llanbedr eu crynhoi yn **Ffigur 14-2**.


**Ffigur 14-2 - Trigolion Llanbedr ar Bentref Llanbedr – gwelliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**




14.1.4. Mae **Ffigur 14-2** yn dangos:

- Opsiwn 1– Gwelliannau Diogelwch oedd yr opsiwn a ffafriwyd fwyaf â chefnogaeth gan 36% (38) o 105 o ymatebwyr.
- Dilynir hwn gan Opsiwn 4 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Lleoedd Parcio Preswyl Oddi ar y Stryd), â chefnogaeth gan 34% (36) o 105 o ymatebwyr.
- Opsiwn 3 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Goleuadau Traffig) oedd yr opsiwn a ffafriwyd leiaf â 27% (27) o 101 o ymatebwyr.

**Ffigur 14-3 – Pawb arall ar Bentref Llanbedr – gwelliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**




14.1.5. Mae **Ffigur 14-3** yn dangos:

- Bod ymatebwyr o fannau eraill yn ffafrio Opsiwn 4 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig (Lleoedd Parcio Preswyl Oddi ar y Stryd) â 50% (60) o 121 o ymatebwyr o blaid.
- Cefnogwyd Opsiwn 1– Gwelliannau Diogelwch gan 45% (55) o 123 o ymatebwyr.
- Ffafriwyd Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 yr un faint gan bawb arall, â 41% (49) o 119 o ymatebwyr yn eu cefnogi.

14.1.6. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i rannu unrhyw sylwadau. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cwestiwn hwn yn **Tabl 14-1**.

**Tabl 14-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Gwelliannau Pentref Llanbedr – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi peidio ag adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 0 | 1 |
| Yn cefnogi peidio ag adeiladu ffordd liniaru: Gwell i'r amgylchedd / byddai ffordd liniaru yn niweidio'r amgylchedd | 0 | 2 |
| Yn cefnogi'r opsiynau arfaethedig (heb nodi pa opsiwn) | 1 | 3 |
| Yn cefnogi Opsiwn 1 (Gwelliannau diogelwch) | 2 | 2 |
| Yn cefnogi Opsiwn 2 (Gwelliannau diogelwch, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus) | 0 | 0 |
| Yn cefnogi Opsiwn 3 (Gwelliannau diogelwch, teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a llif y traffig – h.y., goleuadau traffig) | 3 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn cefnogi Opsiwn 4 (Gwelliannau diogelwch, teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a llif y traffig – h.y., lleoedd parcio oddi ar y stryd) | 3 | 2 |
| Yn cefnogi'r opsiynau arfaethedig: Gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr (haws cyrraedd cyfleusterau yn Llanbedr) | 0 | 1 |
| Yn cefnogi'r opsiynau arfaethedig: Byddent yn cadw traffig drwodd ar gyfer busnes / yn dda ar gyfer busnes | 0 | 1 |
| Yn cefnogi'r opsiynau arfaethedig: Cynnal treial dros dro yn gyntaf | 1 | 1 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu gwahardd parcio ar y stryd – h.y. ychwanegu llinellau melyn dwbl / cyfyngiadau parcio ar y stryd | 5 | 11 |
| Yn awgrymu gwahardd parcio ar yr A496 | 2 | 0 |
| Yn awgrymu darparu lleoedd parcio ar gyfer ymwelwyr | 4 | 2 |
| Yn awgrymu y dylai cyfyngiadau parcio fod yn rhan-amser / yn ystod adegau brig yn unig (gan gynnwys y tymor twristiaeth) | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai goleuadau traffig fod yn rhan-amser / yn ystod adegau brig yn unig (gan gynnwys y tymor twristiaeth) | 0 | 4 |
| Yn awgrymu camerâu cyflymder / gorfodi ar gyfer goryrru | 4 | 1 |
| Yn awgrymu gwelliannau teithio llesol pellach yn Llanbedr | 3 | 1 |
| Yn awgrymu gwelliannau teithio llesol pellach y tu allan i Lanbedr / mewn mannau eraill | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid defnyddio'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar y Ffordd Liniaru | 0 | 1 |
| Yn awgrymu lledaenu'r bont ffordd | 3 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu pont i gerddwyr ochr yn ochr â'r bont ffordd | 3 | 3 |
| Yn awgrymu darparu llwybr cerdded / beicio pwrpasol trwy Lanbedr | 2 | 0 |
| Yn awgrymu cynnig blaenorol / ailgyflwyno cynnig blaenorol | 1 | 1 |
| Yn awgrymu dull graddol | 2 | 1 |
| Yn awgrymu darparu lleoedd parcio i drigolion | 3 | 2 |
| Yn awgrymu darparu goleuadau stryd i Orsaf Reilffordd Llanbedr | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu cynnig heb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (h.y. mae angen Ffordd Liniaru Cyflymder Isel) | 29 | 24 |
| Yn gwrthwynebu pob un o'r opsiynau arfaethedig a'r ffordd liniaru | 3 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r cynnig i gyflwyno goleuadau traffig | 2 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r cynnig i gyflwyno llwybrau cerdded a beicio | 2 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Bydd yn gwneud tagfeydd / problemau traffig yn waeth | 8 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Dim gwelliant i draffig drwodd / dim budd (beirniadaeth o'r opsiynau arfaethedig) | 9 | 3 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Agwedd fyrdymor / bydd angen ffordd liniaru yn y pen draw | 1 | 2 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Ddim yn datrys y broblem o gerbydau nwyddau trwm / loriau trwy Lanbedr | 1 | 4 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Defnydd gwael o gyllid / gwastraff arian | 4 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Ni fyddai'n gwella diogelwch / mae angen Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ar gyfer diogelwch | 6 | 4 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Byddai'n amharu ar gymeriad yr ardal / ddim yn cyd-fynd â'r tirlun | 4 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Bydd traffig parhaus yn atal ymwelwyr | 0 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Nid lleoedd parcio ceir sy'n achosi'r broblem | 0 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Ni fydd y rhwydwaith ffyrdd lleol yn caniatáu gwelliannau (cyffyrdd gwael ac ati) | 0 | 2 |
| Yn gwrthwynebu'r opsiynau arfaethedig: Bydd Ffordd Liniaru o fudd i'r economi / yn creu swyddi newydd | 2 | 0 |
| **Pryderon** | | |
| Bydd darparu lleoedd parcio ar y stryd yn arwain at draffig cyflymach / mwy o gyflymder | 1 | 0 |
| Heb ffordd liniaru, gallai'r bont trwy Lanbedr ddymchwel / fethu'n strwythurol | 0 | 3 |
| Pryder am effaith y cynigion ar bobl leol | 2 | 2 |
| Pryder am effaith y cynigion ar fusnesau lleol / yr economi leol | 2 | 1 |
| Pryder am effaith y cynigion ar bobl anabl / y rhai â phroblemau symudedd | 1 | 0 |
| Pryder yn ymwneud â gallu trigolion y gyrraedd a gadael eu cartrefi | 3 | 1 |
| Pryder yn ymwneud â'r lleoedd parcio sydd ar gael i drigolion | 4 | 4 |
| Pryder y bydd lleoedd parcio i drigolion yn rhy bell o'u cartrefi / ddim yn cael eu defnyddio | 3 | 2 |
| Pryder y bydd lleoedd parcio i drigolion yn anodd i'r rhai â phlant | 1 | 0 |
| Pryder y bydd lleoedd parcio i drigolion yn anodd i bobl hŷn | 1 | 0 |
| Pryder am fynediad at Fochras (ffordd / pont) | 2 | 0 |
| Pryder am lygredd aer / ansawdd aer gwael | 1 | 2 |
| Pryder am ddiogelwch defnyddwyr y ffordd | 2 | 6 |
| Pryder am ddiogelwch cerddwyr a beicwyr | 1 | 3 |
| Pryder am ddiogelwch plant / plant ysgol | 1 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Pryder am draffig ymwelwyr / twristiaid | 3 | 3 |
| Pryder am fynediad at siopau lleol | 1 | 1 |
| Pryder am effaith ar fywyd gwyllt / anifeiliaid | 1 | 0 |
| Pryder am effaith ar fynediad gwasanaethau brys | 1 | 2 |
| Pryder am yr effaith ar fynediad ar gyfer danfoniadau / cludwyr / masnachwyr | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 0 | 2 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 1 | 2 |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 2 | 0 |
| Ymholiad: Y pellter rhwng lleoedd parcio i drigolion a chartrefi (Opsiwn 4) | 1 | 0 |
| Ymholiad: Ble fydd trigolion yn parcio os caiff cyfyngiadau eu cyflwyno? | 2 | 0 |
| Ymholiad: Defnydd o oleuadau traffig - amseriadau / rhan-amser / adegau brig yn unig ac ati? | 0 | 1 |
| Ymholiad: Sut fydd gwelliannau yn gwneud y pentref yn fwy diogel i gerddwyr a beicwyr? | 1 | 0 |
| Ymholiad: A ellir gwario arian yn rhywle arall yn hytrach / ei wario ar bethau eraill? | 0 | 1 |
| Dim sylwadau i'w gwneud ar y cynigion | 1 | 1 |

14.1.7. Darparodd cyfanswm o 130 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio u safbwyntiau. Roedd y rhain yn cynnwys 68 o ymatebwyr o Lanbedr a 62 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau Cefnogol**

14.1.8. Mynegodd nifer fach o ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol i'r opsiynau arfaethedig yn absenoldeb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel:

- Cefnogwyd y cynigion gan un ymatebwr o Lanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill heb nodi opsiwn a ffefrir.
- Mynegwyd cefnogaeth i Opsiwn 1 (gwelliannau diogelwch yn unig) gan ddau o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill, tra bod tri o ymatebwyr o Lanbedr a phump o fannau eraill yn cefnogi Opsiwn 3.

14.1.9. Mynegwyd cefnogaeth i Opsiwn 4, sy'n canolbwyntio ar welliannau diogelwch, teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a llif y traffig (e.e. lleoedd parcio oddi ar y stryd), gan dri o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill.

14.1.10. Cefnogwyd Opsiwn 6 (gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr) gan un ymatebwr o fan arall, ac roedd un ymatebwr o Lanbedr ac un o fan arall yn cefnogi'r syniad o gynnal treial dros dro yn gyntaf.

14.1.11. Roedd cefnogaeth amlwg i Opsiwn 6 wrth i dri o ymatebwyr o Lanbedr a phump o fannau eraill ei gymeradwyo.

**Awgrymiadau**

14.1.12. Gwnaeth sawl ymatebwr awgrymiadau i wella'r cynnig:

- Awgrymodd pump o ymatebwyr o Lanbedr ac 11 o fannau eraill y dylid cyflwyno cyfyngiadau ar barcio ar y stryd, gan gynnwys defnyddio llinellau melyn dwbl.
- Soniwyd yn benodol am gyfyngu parcio ar yr A496 gan ddau o ymatebwyr o Lanbedr.
- Awgrymodd pedwar o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill y dylid darparu lleoedd parcio i ymwelwyr.

14.1.13. Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Parcio;
- Mesurau rheoli cyflymder a thraffig;
- Seilwaith teithio llesol; ac
- Awgrymiadau yn hytrach na'r cynnig presennol.

**Beirniadaethau**

14.1.14. Y feirniadaeth fwyaf cyffredin oedd y byddai'r opsiynau amgen yn annigonol heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Codwyd hyn gan 29 o ymatebwyr o Lanbedr a 24 o ymatebwyr o fannau eraill. Roedd gwrthwynebiad cyffredinol hefyd i'r opsiynau arfaethedig neu'r ffordd liniaru gan dri o ymatebwyr yn Llanbedr, er nad oedd unrhyw ymatebwyr o fannau eraill yn rhannu'r safbwynt hwn.

14.1.15. Cafwyd beirniadaeth o elfennau penodol o'r prosiect hefyd:

- Gwrthwynebiad i'r cynnig i gyflwyno goleuadau traffig;
- Gwrthwynebiad i welliannau i lwybrau cerdded a beicio;
- Beirniadaeth y byddai'r cynigion yn gwaethygu tagfeydd neu broblemau traffig; a'r
- Gred nad oedd y cynigion yn gwella traffig drwodd yn ddigonol nac yn cynnig unrhyw fudd.

**Pryderon**

14.1.16. Roedd pryderon cyffredin yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Parcio a mynediad;
- Pryderon mynediad a symudedd ehangach; a
- Diogelwch.

14.1.17. Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- Llygredd aer ac ansawdd aer gwael;
- Bywyd gwyllt;
- Cyfanrwydd strwythurol pont Llanbedr;
- Mynediad i'r gwasanaethau brys; a
- Mynediad ar gyfer danfoniadau, cludwyr, neu fasnachwyr

**Arall**

14.1.18. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Ymholiadau penodol am drefniadau parcio;
- Gweithrediad goleuadau traffig;
- Ymholiad am sut y byddai diogelwch i gerddwyr a beicwyr yn cael ei wella; a
- Chwestiynau ynglŷn ag a fyddai'n well defnyddio'r cyllid ar gyfer prosiectau eraill.

# 15 GWELLIANNAU PENTREF LLANBEDR – GYDA FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL


15.1.1. Nod y rhan hon o'r arolwg oedd casglu safbwyntiau'r cyhoedd ar y gwelliannau ym mhentref Llanbedr o adeiladu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Gallai ymatebwyr ddewis ateb cadarnhaol neu negyddol o'r ddau opsiwn arfaethedig a restrwyd ac yna fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau testun rhydd ar gyfer cwestiynau yn yr adran.

15.1.2. Gofynnwyd i bobl a fyddent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno, neu'n beicio ym mhentref Llanbedr â'r mesurau canlynol ar waith pe baent yn cael eu cyflwyno *gyda* Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cael ei hadeiladu:

- Opsiwn 5 – Gwella Diogelwch
- Opsiwn 6 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

15.1.3. Ymatebodd cyfanswm o 197 a 201 o ymatebwyr i Opsiwn 5 ac Opsiwn 6, yn eu trefn. Rhoddir crynodeb o gyfanswm yr ymatebion yn **Ffigur 15-1**.


**Ffigur 15-1 – Barn ymatebwyr ar welliannau ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**




- Fel y dangosir yn **Ffigur 15-1**, dywedodd 76% (152) o 201 o ymatebwyr y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n beicio yn y pentref gydag Opsiwn 6 – Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus.
- Roedd hyn yn cymharu â chyfanswm o 75% (147) o ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus gydag Opsiwn 5 – Gwella Diogelwch, â chefnogaeth gan 75% (147) o 197.

15.1.4. Caiff yr ymatebion eu crynhoi yn seiliedig ar fan preswyl yn **Ffigur 15-2**.

**Ffigur 15-2 – Gwelliannau Pentref Llanbedr ar hyd yr A496 ac yng nghanol y pentref – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn seiliedig ar fan preswyl**




15.1.5. Fel y dangosir yn **Ffigur 15-2** uchod, dywedodd 80% (82) o 103 o ymatebwyr o fannau eraill y byddai Opsiwn 5 yn eu gwneud yn fwy cyfforddus, o'i gymharu â 69% (65) o 94 o ymatebwyr o Lanbedr.

15.1.6. Yn yr un modd, dywedodd 79% (86) o 104 o ymatebwyr o fannau eraill y byddai Opsiwn 6 yn eu gwneud yn fwy cyfforddus, o'i gymharu â 67% (66) o 97 o ymatebwyr o Lanbedr.

15.1.7. Rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i rannu unrhyw sylwadau.

15.1.8. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cwestiwn hwn yn **Tabl 15-1**.

**Tabl 15-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Gwelliannau Pentref Llanbedr – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 14 | 11 |
| Yn cefnogi Opsiwn 5 (ffordd liniaru + gwelliannau diogelwch yn Llanbedr) | 1 | 0 |
| Yn cefnogi Opsiwn 6 (ffordd liniaru + gwelliannau diogelwch, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn Llanbedr) | 2 | 0 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Blaenoriaethu adeiladu cyflym (e.e. bwrw ymlaen â phethau ac ati) | 2 | 3 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Bydd yn lleihau llygredd aer / gwella ansawdd aer | 3 | 3 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Bydd yn lleihau sŵn traffig | 1 | 1 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr (haws cyrraedd cyfleusterau yn Llanbedr) | 0 | 1 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr | 6 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r cynigion: Gwell mynediad i bobl anabl / y rhai â phroblemau symudedd | 1 | 0 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Bydd yn lleihau tagfeydd traffig yn Llanbedr (e.e. trwy lai o draffig) | 7 | 5 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Bydd yn lleihau nifer y cerbydau nwyddau trwm / loriau trwy Lanbedr | 1 | 0 |
| Yn cefnogi'r cynigion: i ddiogelu'r tirlun gwledig / cymeriad y pentref | 2 | 3 |
| Yn cefnogi'r cynigion: i ddiogelu a gwarchod y bont | 1 | 1 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Bydd Ffordd Liniaru yn gwella amseroedd teithiau / amseroedd ymateb cynt i wasanaethau brys | 0 | 2 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Bydd yn gwell busnes lleol | 0 | 1 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu i Opsiynau 5 a 6 gael eu hystyried ar ôl adeiladu ffordd liniaru | 3 | 0 |
| Yn awgrymu gwahardd parcio ar y stryd – h.y., ychwanegu llinellau melyn dwbl / cyfyngiadau parcio ar y stryd | 1 | 2 |
| Yn awgrymu gwahardd traffig drwodd | 3 | 3 |
| Yn awgrymu y dylid defnyddio'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar y Ffordd Liniaru | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid darparu lleoedd parcio ychwanegol i drigolion (h.y. i wneud iawn am golli lleoedd parcio ar y stryd) | 2 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid darparu lleoedd parcio ychwanegol i ymwelwyr | 1 | 1 |
| Yn awgrymu cynnal ymgyrch diogelwch ar y ffyrdd yn y rhanbarth | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai cynigion gynnwys goleuadau traffig yn Llanbedr | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai cynigion gynnwys camera / gorfodaeth cyflymder yn Llanbedr | 0 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu pont i gerddwyr ochr yn ochr â'r bont ffordd | 0 | 1 |
| Yn awgrymu bod angen i drigolion allu gyrru dros y bont i gyrraedd amwynderau | 2 | 1 |
| Yn awgrymu bod yn rhaid o'r bont fod yn hygyrch i gerbydau preifat | 3 | 1 |
| Yn awgrymu bod angen terfyn pwysau ar y bont | 0 | 1 |
| Yn awgrymu chylchfan wrth y gyffordd rhwng y ffordd osgoi a'r A496 | 0 | 1 |
| Yn awgrymu dull graddol | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid arfarnu atebion lleol cyn adeiladu ffordd liniaru | 0 | 1 |
| Yn awgrymu bod cwrb newydd yn cael ei ddarparu ar Ffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwell mynediad at y creigiau / glannau'r afon | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (e.e. nid oes ei hangen) | 3 | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu pob cynnig: Nid oes eu hangen / ni fyddant yn gwneud gwahaniaeth / ddim yn ateb hirdymor | 0 | 3 |
| Ni fydd angen Opsiwn 5 a 6 os caiff Ffordd Liniaru ei hadeiladu | 12 | 8 |
| Yn gwrthwynebu cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion: Defnydd gwael o gyllid / gwastraff arian | 2 | 2 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion: Dim digon o feicwyr i fod yn werth chweil / ddim yn deall y pwyslais ar feicio | 1 | 1 |
| Yn gwrthwynebu cau'r bont i draffig | 2 | 0 |
| Yn gwrthwynebu cau Ffordd Mochras / dylai gysylltu â'r ffordd liniaru | 2 | 0 |
| Beirniadaeth o'r holiadur / ymgynghoriad | 0 | 1 |
| Beirniadaeth bod gogledd Cymru yn derbyn llai o fuddsoddiad na gogledd Cymru | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder na fydd dim yn cael ei wneud (o gwbl) / perygl parhaus i ddiogelwch | 2 | 0 |
| Pryder y bydd ffordd liniaru yn cael ei hadeiladu ac na fydd unrhyw gyllid ar ôl ar gyfer Opsiwn 5 neu 6 | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y cynigion ar dirlun gwledig/cymeriad adeiledig | 1 | 0 |
| Yn pryderu am ddiffyg cysylltiadau ymlaen i gerddwyr a beicwyr (h.y. y tu allan i Lanbedr) | 0 | 1 |
| Pryder am effaith y cynigion ar yr amgylchedd | 2 | 0 |
| Pryder am effaith y cynigion ar bobl anabl / y rhai â phroblemau symudedd | 2 | 0 |
| Yn pryderu am effaith y cynigion ar eiddo'r ymatebwr | 4 | 0 |
| Pryder na fydd gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus yn digwydd / beirniadaeth o drafnidiaeth gyhoeddus | 0 | 1 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 1 | 0 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 0 | 2 |

15.1.9. Darparodd cyfanswm o 86 o ymatebwyr sylwadau i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 46 o ymatebwyr o Lanbedr a 40 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau Cefnogol**

15.1.10. Rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel arfaethedig gan 14 o ymatebwyr yn Llanbedr ac 11 o fannau eraill. Ymhlith y rhain, amlygodd nifer y gostyngiad i dagfeydd traffig drwy'r pentref a gefnogwyd gan saith o ymatebwyr o Lanbedr a phump o fannau eraill. Roedd chwech o ymatebwyr yn Llanbedr a phump o fannau eraill yn cefnogi'r gwelliannau disgwyliedig i ddiogelwch cerddwyr a beicwyr.

15.1.11. Cefnogwyd manteision amgylcheddol fel lleihau llygredd aer a gwella ansawdd aer gan dri o ymatebwyr Llanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cefnogi'r

gostyngiad disgwyliedig i sŵn traffig, a’r potensial i ddiogelu’r tirlun gwledig neu gynnal cymeriad y pentref.

15.1.12. Codwyd yr angen i flaenoriaethu adeiladu’r cynllun yn gyflym gan dri o ymatebwyr o Lanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill.

15.1.13. Roedd sylwadau unigol eraill yn cynnwys:

- Cefnogaeth i lai o draffig ac amseroedd teithiau gwell;
- Gwarchod y bont; a
- Manteision i fusnesau lleol.

**Awgrymiadau**

15.1.14. Gwnaeth sawl ymatebwr awgrymiadau i wella neu addasu’r cynigion presennol ar gyfer y Ffordd Liniaru, gan gynnwys syniadau i ddiogelu’r opsiwn ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol:

- Awgrymodd tri o ymatebwyr o Lanbedr na ddylai’r cynllun presennol atal cyflwyno mesurau a amlinellir yn Opsiynau 5 a 6 yn y dyfodol (ni wnaeth unrhyw ymatebwyr o fannau eraill sôn am hyn).
- Awgrymwyd gwahardd traffig drwodd rhag defnyddio ffyrdd presennol y pentref gan dri o ymatebwyr yn Llanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill.
- Cefnogwyd mesurau i wahardd neu leihau parcio ar y stryd, fel cyflwyno llinellau melyn dwbl, gan un ymatebwr o Lanbedr a dau o ymatebwyr o fannau eraill.

15.1.15. Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Parcio;
- Mynediad i gerddwyr;
- Mynediad i gerbydau;
- Diogelwch ar y ffyrdd; ac
- Awgrymiadau yn hytrach na’r cynnig a diwygiadau iddo.

**Beirniadaethau**

15.1.16. Y feirniadaeth amlaf a godwyd os na fydd ymyriadau ychwanegol fel y rhai yn Opsiynau 5 neu 6 yn angenrheidiol mwyach os caiff y Ffordd Liniaru ei hadeiladu. Codwyd y pryder hwn gan 12 o ymatebwyr o Lanbedr ac wyth o ymatebwyr o fannau eraill.

15.1.17. Mynegwyd gwrthwynebiad i’r Ffordd Liniaru ei hun gan dri o ymatebwyr o Lanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill. Codwyd beirniadaethau ehangach o’r cynigion eu bod yn aneffeithiol neu’n ddiangen gan dri o ymatebwyr o fannau eraill, ac ni chodwyd y safbwynt hwn gan unrhyw ymatebwyr o Lanbedr.

15.1.18. Roedd dau o ymatebwyr o Lanbedr a mannau eraill yn teimlo bod y cynllun yn ddefnydd gwael o gyllid cyhoeddus.

15.1.19. Roedd beirniadaethau eraill yn cynnwys:

- Gwrthwynebiad i gau’r bont i draffig;
- Gwrthwynebiad i gael gwared ar leoedd parcio ar y stryd;
- Gwrthwynebiad i gau Ffordd Mochras, a
- Beirniadaeth o’r broses ymgynghori.

**Pryderon**

15.1.20. Codwyd pryderon am effeithiau posibl y cynllun ar eiddo preifat gan bedwar o ymatebwyr o Lanbedr. Codwyd pryderon am yr effeithiau amgylcheddol ehangach ar y tirlun gwledig a'r cyffiniau hefyd gan ddau o ymatebwyr o Lanbedr. Ni chodwyd y pryderon hyn gan unrhyw ymatebwyr o fannau eraill.

15.1.21. Mynegodd dau o ymatebwyr bryderon am effaith bosibl y cynllun ar bobl anabl neu'r rhai â symudedd cyfyngedig, a chododd un ymatebwr o Lanbedr bryder am y risgiau diogelwch parhaus os na bydd unrhyw welliannau yn cael eu darparu yn y pen draw.

15.1.22. Roedd pryderon eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Diffyg seilwaith teithio llesol;
- Diffyg gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus;
- Effaith amgylcheddol; a
- Chyllid.

**Sylwadau Eraill**

15.1.23. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd; a
- Cheisiadau am ragor o wybodaeth.

# 16 GWELLIANNAU FFORDD MOCHRAS – HEB FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

16.1.1. Nod rhan nesaf yr arolwg oedd casglu safbwyntiau'r cyhoedd ar y gwelliannau ar hyd Ffordd Mochras heb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

16.1.2. Fel yr adran flaenorol, gallai ymatebwyr ddewis ateb cadarnhaol neu negyddol o'r ddau opswn arfaethedig a restrwyd ac yna fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau testun rhydd ar gyfer cwestiynau yn yr adran.


16.1.3. Gofynnwyd i bobl a fyddent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno, neu'n beicio ar hyd Ffordd Mochras â'r mesurau canlynol ar waith pe baent yn cael eu cyflwyno *heb* adeiladu Ffordd Liniaru Cyflymder Isel:

- Opsiwn 7 – Gwelliannau Diogelwch
- Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol

16.1.4. Rhoddir crynodeb o gyfanswm yr ymatebion ar gyfer y ddau opsiwn yn **Ffigur 16-1**.


- Dywedodd cyfanswm o 34% (72) o 212 o ymatebwyr y byddai Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol yn eu gwneud yn fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n beicio ar hyd Ffordd Mochras.
- Roedd hyn yn cymharu â 33% (69) o 207 o ymatebwyr a ddywedodd yr un fath ar gyfer Opsiwn 7 – Gwelliannau Diogelwch.

**Ffigur 16-1 – Barn ymatebwyr ar Welliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**




16.1.5. Caiff yr opsiynau a ffefrir yn seiliedig ar fan preswyl ymatebwyr eu crynhoi yn **Ffigur 16-2**.

Ffigur 16-2 – Gwelliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn seiliedig ar fan preswyl




16.1.6. Mae **Ffigur 16-2** yn dangos bod 33% (35) o 106 o ymatebwyr o Lanbedr yn dweud y byddai Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus. Ceir rhaniad mwy cyfartal ymhlith ymatebwyr o fannau eraill, lle dywedodd 36% (38) o 107 o ymatebwyr Opsiwn 7 a 35% (37) o 106 o ymatebwyr Opsiwn 8.

16.1.7. Gofynnwyd i'r ymatebwyr gynnig unrhyw sylwadau pellach. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau testun rhydd a dderbyniwyd yn **Tabl 16-1**.

**Tabl 16-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Senario Gwelliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi peidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 1 | 0 |
| Yn cefnogi Opsiwn 7 – Gwelliannau Diogelwch | 0 | 2 |
| Yn cefnogi Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol | 0 | 2 |
| Yn cefnogi cyfyngiadau parcio ychwanegol ar Ffordd Mochras | 0 | 0 |
| Yn cefnogi mesurau gostegu traffig ar Ffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn cefnogi ymestyn y terfyn cyflymder 20mya hyd at orsaf Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn cefnogi gostwng y terfyn cyflymder o orsaf Llanbedr i Fochras | 0 | 1 |
| Yn cefnogi gosod rhwystrau igam-ogamu | 1 | 0 |
| Yn cefnogi llwybr teithio llesol o Lanbedr i orsaf Llanbedr | 2 | 0 |
| Yn cefnogi lleihau nifer y cerbydau sy'n gyrru i'r orsaf reilffordd | 1 | 0 |

| Awgrymiadau | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngiad ar barcio ar y stryd | 3 | 0 |
| Yn awgrymu mai parcio yw'r brif broblem yn ystod y tymor brig yn unig | 0 | 1 |
| Yn awgrymu ymestyn llinellau melyn dwbl ymhellach i ffwrdd o'r bont fysiau | 1 | 0 |
| Yn awgrymu man parcio ar gyfer trigolion neu annog trigolion i barcio ar eu tramwyfeydd eu hunain | 2 | 1 |
| Yn awgrymu integreiddio cyfleusterau cerdded ar hyd yr afon a'r mannau picnic | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu palmentydd a lledaenu'r ffordd i wella diogelwch | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darparu goleuadau ffordd | 2 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau cyflymder | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwell ymwybyddiaeth ac addysg o ran diogelwch ar y ffyrdd | 0 | 2 |
| Yn awgrymu mai cael gwared ar y traffig yw'r unig opsiwn synhwyrol | 0 | 0 |
| Yn awgrymu y byddai tagfeydd yn aros yr un fath os bydd cyfanswm y traffig yn aros yr un fath | 0 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid adeiladu'r ffordd liniaru cyn gynted â phosibl | 1 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu'r ffordd liniaru â therfyn cyflymder cenedlaethol yn hytrach | 0 | 1 |
| Yn awgrymu bod cerbydau angen mynediad ar hyd y ffordd liniaru | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid gwrando ar drigolion canol Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen trafod mesurau gyda thrigolion | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwell mynediad at yr Orsaf | 2 | 0 |
| Yn awgrymu cau Mochras | 1 | 0 |
| Yn awgrymu adeiladu pont i gerddwyr ochr yn ochr â'r bont ffordd | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid ystyried gwelliannau arfaethedig i Lanbedr ar ôl agor y Ffordd Liniaru | 0 | 0 |
| Yn awgrymu gwelliannau i'r rhwydwaith cerdded / beicio yn yr ardal (teithio llesol) | 4 | 1 |
| Yn awgrymu blaenoriaethu gwerth am arian / defnydd da o gyllid | 0 | 1 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu peidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (e.e. mae angen y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel) | 17 | 9 |
| Yn gwrthwynebu Opsiwn 7 – Gwelliannau Diogelwch | 4 | 3 |
| Yn gwrthwynebu Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol | 4 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu cyfyngiadau parcio ychwanegol ar Ffordd Mochras | 0 | 0 |
| Yn gwrthwynebu mesurau gostegu traffig ar Ffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu ymestyn y terfyn cyflymder 20mya hyd at orsaf Llanbedr | 0 | 0 |
| Yn gwrthwynebu gostwng y terfyn cyflymder o orsaf Llanbedr i Fochras | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu gosod rhwystrau igam-ogamu | 0 | 1 |
| Yn gwrthwynebu cau Ffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r llwybr beicio newydd | 1 | 0 |
| Beirniadaeth fod y broses ymgynghori yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol ac nid trigolion Llanbedr yn unig | 1 | 0 |
| Ni fydd angen y cynigion yn y pentref / ar hyd Ffordd Mochras os caiff ffordd liniaru ei hadeiladu | 3 | 2 |
| Mae'r cynigion yn cynnig gwerth gael am arian / yn gostus | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder am ddiogelwch (yn gyffredinol) | 5 | 0 |
| Pryder am ddiogelwch cerddwyr ar Ffordd Mochras | 4 | 3 |
| Pryder am ddiogelwch ar hyd Ffordd Mochras | 2 | 3 |
| Pryder am ddiogelwch defnyddwyr ffordd oherwydd cerbydau yn goryrru | 2 | 0 |
| Pryder am ddiogelwch cerddwyr sy'n cerdded ar y bont | 1 | 0 |
| Pryder am ddiogelwch cerddwyr sy'n cerdded i Orsaf Llanbedr | 2 | 0 |
| Pryder am fynediad at wasanaethau brys | 1 | 1 |
| Pryder na ellir gwella Ffordd Mochras oni bai fod y ffordd yn cael ei lledaenu | 1 | 0 |
| Pryder am oryrru, a diffyg gorfodi'r terfyn cyflymder | 1 | 1 |
| Pryder am dagfeydd traffig / cyfanswm y traffig ar hyd Ffordd Mochras | 1 | 2 |
| Pryder y byddai tagfeydd traffig yn cael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd lleol a thrigolion heb y ffordd liniaru | 1 | 3 |
| Pryder am dagfeydd sylweddol cyson, sy'n achosi oedi a phroblemau diogelwch, pan fydd Mochras ar agor ac ar ôl penllanw heb y ffordd liniaru | 0 | 1 |
| Pryder am dagfeydd traffig (yn gyffredinol) | 0 | 0 |
| Pryder na ellir gwella Ffordd Mochras oni bai fod ffordd liniaru yn cael ei hadeiladu | 1 | 3 |
| Pryder am draffig Mochras yn defnyddio Ffordd Mochras | 2 | 1 |
| Pryder y byddai mynediad cerbydau nwyddau trwm i Fochras a'r maes awyr yn peryglu gwaith yn rheolaidd | 1 | 1 |
| Pryder bod y cynigion yn methu â mynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol | 0 | 1 |
| Pryder am lygredd sy'n cael ei achosi gan gerbydau disymud | 0 | 1 |
| Pryder am draffig presennol i Fochras, sy'n beryglus i gerddwyr | 0 | 0 |
| Pryder am barcio | 1 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Pryder am gost tanwydd | 1 | 0 |
| Pryder mai'r gyffordd ffordd gyda'r bont yw'r dagfa wirioneddol | 1 | 1 |
| Pryder am ddiffyg rheolaeth goleuadau traffig | 0 | 1 |
| Pryder am fynediad i drigolion | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 0 | 1 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 1 | 1 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 4 | 1 |
| Ddim yn siŵr | 1 | 0 |

16.1.8. Darparodd cyfanswm o 68 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 42 o ymatebwyr o Lanbedr a 26 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

16.1.9. Ar y cyfan, mynegodd pedwar o ymatebwyr o fannau eraill gefnogaeth i Opsiwn 7 – Gwelliannau Diogelwch ac Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol (dau o ymatebwyr yr un), er bod dau o ymatebwyr o Lanbedr yn cefnogi llwybr teithio llesol o Lanbedr i orsaf Llanbedr.

16.1.10. Fodd bynnag, cefnogwyd y cynigion ar gyfer peidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, mesurau gostegu traffig ar Ffordd Mochras, ymestyn y terfyn cyflymder 20mya hyd at orsaf Llanbedr a gosod rhwystrau igam-ogamu gan lai o ymatebwyr, ag un ymatebwr yr un o Lanbedr.

16.1.11. Roedd un ymatebwr o fan arall hefyd yn cefnogi gostwng y terfyn cyflymder o orsaf Llanbedr i Fochras.

**Beirniadaethau**

16.1.12. Codwyd gwrthwynebiad i beidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (e.e. mae angen y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel) gan 17 o ymatebwyr o Lanbedr a naw o ymatebwyr o fannau eraill. Dilynwyd hyn gan saith o ymatebwyr yn gwrthwynebu Opsiwn 7 – Gwelliannau Diogelwch (pedwar o Lanbedr a thri o fannau eraill) a chwech o ymatebwyr yn gwrthwynebu Opsiwn 8 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol (pedwar o Lanbedr a dau o fannau eraill).

16.1.13. Yn yr un modd, awgrymodd pump o ymatebwyr (tri o Lanbedr a dau o fannau eraill) na fyddai angen y cynigion yn y pentref / ar hyd Ffordd Mochras os caiff ffordd liniaru ei hadeiladu.

16.1.14. Roedd beirniadaethau eraill yn cynnwys:

- Gwrthwynebiad i fesurau gostegu traffig;
- Cost y prosiect; a
- Gwrthwynebiad i welliannau teithio llesol.

**Pryderon**

16.1.15. Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr eu pryderon ynghylch diogelwch. Roedd hyn yn cynnwys:

- Pryderon am ddiogelwch cerddwyr ar Ffordd Mochras (pedwar o ymatebwyr o Lanbedr a thri o fannau eraill).
- Diogelwch (yn gyffredinol) (pump o ymatebwyr o Lanbedr).
- Diogelwch ar hyd Ffordd Mochras (dau o ymatebwyr o Lanbedr a thri o fannau eraill).
- Diogelwch ddefnyddwyr ffordd oherwydd cerbydau yn goryrru (dau o ymatebwyr o Lanbedr).

- Diogelwch cerddwyr sy'n cerdded i Orsaf Llanbedr (dau o ymatebwyr o Lanbedr).

16.1.16. Codwyd pryderon y gallai tagfeydd traffig gael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd lleol heb y ffordd liniaru; codwyd hyn gan dri o ymatebwyr o fannau eraill ac un o Lanbedr. Nodwyd patrwm tebyg ar gyfer ymatebwyr yn awgrymu na ellir gwella Ffordd Mochras tan i ffordd liniaru gael ei hadeiladu.

16.1.17. Codwyd pryderon hefyd am y themâu canlynol:

- Tagfeydd a chyfanswm y traffig;
- Diogelwch cerddwyr;
- Llif y traffig i Fochras ac yn ôl;
- Parcio; a
- Phryderon amgylcheddol.

**Awgrymiadau**

16.1.18. Gwnaed awgrymiadau amrywiol yn ymwneud â gwelliannau parcio, teithio llesol a seilwaith ar gyfer cynigion ar hyd Ffordd Mochras:

- Awgrymodd pedwar o ymatebwyr o Lanbedr welliannau i'r rhwydwaith cerdded a beicio yn yr ardal (teithio lleso), ynghyd ag un ymatebwr o fan arall.
- Awgrymwyd cyfyngu parcio ar y stryd gan dri o ymatebwyr o Lanbedr.
- Awgrymodd dau o ymatebwyr o Lanbedr ac un ymatebwr o fan arall fan farcio ar gyfer trigolion neu annog trigolion i barcio ar eu tramwyfeydd eu hunain.

16.1.19. Awgrymwyd mynediad gwell at yr Orsaf a darparu goleuadau ffordd hefyd yn rhai o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr o Lanbedr (dau o ymatebwyr ar gyfer pob un).

16.1.20. Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Parcio;
- Teithio llesol;
- Gostegu traffig;
- Awgrymiadau amgen a diwygiadau i'r cynnig.

**Arall**

16.1.21. Roedd yr ymatebion eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd; a
- Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru.

# 17 GWELLIANNAU FFORDD MOCHRAS – GYDA FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

17.1.1. Nod y rhan hon o'r arolwg oedd casglu safbwyntiau'r cyhoedd ar y gwelliannau ar hyd Ffordd Mochras *gyda'r* Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.


17.1.2. Gallai ymatebwyr ddewis ateb cadarnhaol neu negyddol o'r ddau opsiwn arfaethedig ac yna fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau testun rhydd ar gyfer cwestiynau.

17.1.3. Gofynnwyd i bobl a fyddent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno, neu'n beicio ar hyd Ffordd Mochras â'r mesurau canlynol ar waith pe baent yn cael eu cyflwyno gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel wedi cael ei hadeiladu:

- Opsiwn 9 – Gwelliannau Diogelwch
- Opsiwn 10 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol


17.1.4. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion gan 176 a 179 o ymatebwyr ar gyfer Opsiynau 9 a 10, yn eu trefn, yn **Ffigur 17-1**, a chaiff y dosbarthiad yn seiliedig ar fan preswyl ei grynhoi yn **Ffigur 17-2**.

**Ffigur 17-1 – Barn ymatebwyr ar Welliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**




- Mae **Ffigur 17-1** yn dangos bod 82% (144) o 176 o ymatebwyr wedi dweud y byddai Opsiwn 9 – Gwelliannau Diogelwch yn eu gwneud i deimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n beicio.
- Dywedodd cyfanswm o 78% (140) o 179 o ymatebwyr y byddai Opsiwn 10 – Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol yn eu gwneud i deimlo'n fwy cyfforddus.

**Ffigur 17-2 – Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn seiliedig ar fan preswyl**




17.1.5. Fel y dangosir yn **Ffigur 17-2**, dywedodd 80% (67) o 84 o ymatebwyr o Lanbedr y byddai Opsiwn 9 yn eu gwneud i deimlo'n fwy cyfforddus o'i gymharu â 73% (63) o 86 o ymatebwyr a ddywedodd Opsiwn 10.

17.1.6. Roedd Opsiwn 9 a 10 yn gyfartal o ran ymatebwyr o fannau eraill yn dweud y byddent yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus. Roedd hyn yn cymharu ag 84% (77) o 92 o ymatebwyr ag Opsiwn 9 ac 83% (77) o 93 o ymatebwyr ag Opsiwn 10.

17.1.7. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ateb cwestiwn penagored i gynnig unrhyw sylwadau. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn **Tabl 17-1**.

**Tabl 17-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Senario Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel arfaethedig (ni ddywedwyd unrhyw beth arall) | 11 | 2 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel arfaethedig: Bydd yn lleihau traffig ar Ffordd Mochras | 2 | 3 |
| Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Ffordd Mochras: Gwelliannau diogelwch | 4 | 2 |
| Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Ffordd Mochras: Gwelliannau Teithio Llesol | 2 | 0 |
| Yn cefnogi'r cynigion: Byddai'n gwneud mynediad at yr orsaf yn haws i gerddwyr | 2 | 0 |
| Yn cefnogi'r cynnig ar gyfer ffordd liniaru â mynediad at safle gwersylla Mochras i leihau tagfeydd traffig | 1 | 1 |
| Yn cefnogi'r cynigion i leihau tagfeydd traffig | 2 | 1 |

| Awgrymiadau | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y dylai Ffordd Mochras fod yn 'Fynediad yn Unig' ar ôl adeiladu ffordd liniaru | 0 | 1 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau traffig ychwanegol o’r hydref i’r gwanwyn | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau ar barcio ar y stryd | 0 | 1 |
| Yn awgrymu darparu maes parcio arhosiad byr am ddim yn y pentref | 0 | 1 |
| Yn awgrymu darparu lleoedd parcio ar y stryd dynodedig ar gyfer trigolion | 0 | 2 |
| Yn awgrymu y dylai’r terfyn cyflymder 30mya gychwyn ar ôl y maes parcio | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gorfodi’r terfyn cyflymder / camerâu cyflymder cyfartalog | 0 | 1 |
| Yn awgrymu cau Mochras | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid ystyried gwelliannau arfaethedig i Lanbedr ar ôl agor y Ffordd Liniaru | 3 | 0 |
| Yn awgrymu gorfodi cyfyngiad ar gerbydau nwyddau trwm / lorïau yn defnyddio Ffordd Mochras | 0 | 1 |
| Yn awgrymu culhau Ffordd Mochras (â lleoedd pasio) a darparu palmant mwy llydan | 0 | 1 |
| Yn awgrymu darparu palmant lle nad oes un ar hyn o bryd | 2 | 0 |
| Yn awgrymu darparu mynediad o Ffordd Mochras at y Ffordd Liniaru | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyflwyno rheolaeth goleuadau traffig | 0 | 1 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu Ffordd Liniaru Cyflymder Isel arfaethedig | 0 | 2 |
| Yn gwrthwynebu cau Ffordd Mochras i draffig | 2 | 0 |
| Nid oes angen / nid yw’n angenrheidiol cau Ffordd Mochras | 0 | 0 |
| Ni fydd angen y cynigion yn y pentref / ar hyd Ffordd Mochras | 9 | 4 |
| Yn gwrthwynebu gwelliannau Teithio Llesol Ffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu cau Pont Llanbedr | 2 | 0 |
| Mae’r cynigion yn werth gael am arian / yn gostus | 1 | 1 |
| Bydd Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn werth gael am arian / yn gostus | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Yn pryderu y bydd cau Ffordd Mochras yn gwneud mynediad yn anodd | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn pryderu y bydd y cynigion yn gwneud parcio yn anodd ar Ffordd Mochras | 0 | 1 |
| Yn pryderu am effaith y cynigion ar eiddo / preifatrwydd trigolion | 3 | 0 |
| Yn pryderu y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar yr economi leol (siopa, caffis, tafarnau ac ati) | 2 | 0 |
| Pryder y byddai blwch / goleuadau traffig arfaethedig wrth y fynedfa i Ffordd Mochras yn gwneud ymuno â'r A496 yn anodd | 1 | 0 |
| Yn pryderu na fyddai'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn 'gyflymder isel' mewn gwirionedd | 0 | 1 |
| Yn pryderu y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn niweidio'r amgylchedd | 0 | 1 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 1 | 0 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 1 | 1 |
| Beirniadaeth o'r holiadur/ cwestiwn ddim yn eglur | 0 | 1 |

17.1.8. Darparodd cyfanswm o 46 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 31 o ymatebwyr o Lanbedr a 15 o ymatebwyr o fannau eraill.

17.1.9. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

17.1.10. Mynegodd sawl ymatebwr gefnogaeth i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel arfaethedig a gwelliannau cysylltiedig ar hyd Ffordd Mochras:

- Roedd un ar ddeg o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill yn cefnogi'r ffordd liniaru yn gyffredinol, heb ymhelaethu.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r ffordd liniaru yn helpu i leihau traffig ar Ffordd Mochras.
- Roedd eraill yn cefnogi cynigion cysylltiedig sydd â'r nod o wella diogelwch a gwella seilwaith teithio llesol.

17.1.11. Roedd sylwadau cefnogol ychwanegol yn cynnwys:

- Gwell mynediad i gerddwyr at yr orsaf reilffordd
- Llai o dagfeydd trwy well mynediad at safle gwersylla Mochras drwy'r ffordd liniaru
- Cefnogaeth gyffredinol i gynigion sydd â'r nod o leihau tagfeydd traffig

**Awgrymiadau**

17.1.12. Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau gan ymatebwyr i gefnogi gwella effeithiolrwydd y ffordd liniaru arfaethedig ac ymyriadau cysylltiedig:

- Awgrymodd tri o ymatebwyr o Lanbedr y dylid ystyried unrhyw welliannau i bentref Llanbedr dim ond ar ôl pan fydd y ffordd liniaru yn weithredol.
- Codwyd awgrymiadau yn ymwneud â pharcio gan ymatebwyr o fannau eraill, gan gynnwys darparu lleoedd parcio dynodedig ar y stryd i drigolion (dau o ymatebwyr o fannau eraill), creu maes parcio arhosiad byr am ddim yn y pentref, a chyfyngu parcio ar y stryd (un ymatebwr yr un o fannau eraill).

17.1.13. Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Rheoli traffig; a
- Gwelliannau i gerddwyr.

**Beirniadaeth**

17.1.14. Fe wnaeth nifer sylweddol o ymatebwyr gwestiynu'r angen am y cynigion yn y pentref ac ar hyd Ffordd Mochras, wrth i naw o ymatebwyr o Lanbedr a phedwar o fannau eraill awgrymu na fyddai angen yr ymyriadau hyn am fydd y ffordd liniaru yn weithredol.

17.1.15. Codwyd gwrthwynebiad i gau Ffordd Mochras i draffig gan ddau o ymatebwyr o Lanbedr, a mynegodd dau o ymatebwyr eraill o fannau eraill wrthwynebiad cyffredinol i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel arfaethedig. Gwrthwynebodd dau o ymatebwyr Llanbedr yn benodol i gau arfaethedig Pont Llanbedr.

17.1.16. Nodwyd pryderon am gost a gwerth am arian y cynigion. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo bod y cynigion yn gyffredinol yn rhy gostus neu'n werth gael am arian, ac fe wnaeth sylw ychwanegol godi pryderon am werth am arian y ffordd liniaru. Codwyd gwrthwynebiadau i'r gwelliannau teithio llesol hefyd.

**Pryderon**

17.1.17. Mynegodd sawl ymatebwr bryderon am effeithiau posibl y cynigion ar drigolion a'r economi:

- Roedd tri o ymatebwyr o Lanbedr yn poeni y gallai'r cynigion effeithio'n negyddol ar eu heiddo neu breifatrwydd.
- Cododd dau o ymatebwyr yn Llanbedr bryderon y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol fel siopau, caffis, a thafarnau.

17.1.18. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â'r themâu canlynol:

- Mynediad a llif y traffig;
- Parcio; ac
- Effaith ar yr amgylchedd.

**Eraill**

17.1.19. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd;
- Beirniadaeth o'r holiadur;
- Ceisiadau am ragor o wybodaeth; a
- Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru.

# 18 GORSAF REILFFORDD LLANBEDR

18.1.1. Gofynnodd y rhan nesaf o’r arolwg i’r ymatebwyr fynegi eu barn ar y ddau opsiwn gwella cyfleusterau parcio beiciau a cheir arfaethedig a fyddai’n eu hannog i ddefnyddio Gorsaf Reilffordd Llanbedr.


18.1.2. Gallai ymatebwyr ddewis ateb cadarnhaol neu negyddol yn erbyn y rhestr o opsiynau a roddwyd ac yna fe’u gwahoddwyd i wneud sylwadau testun rhydd ar gyfer cwestiynau yn yr adran hon.

18.1.3. Dyma’r opsiynau arfaethedig ar gyfer Gorsaf Reilffordd Llanbedr:

- Opsiwn 11 – Gwelliannau i Gyfleusterau Parcio Ceir a Beiciau Presennol.
- Opsiwn 12 – Cyfleusterau Parcio Ceir a Beiciau Newydd.


18.1.4. Mae’r ymatebion ar gyfer y ddau opsiwn wedi’u crynhoi yn **Ffigur 18-1**, a chaiff y dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a yw’r ymatebwr yn byw yn Llanbedr ei grynhoi yn **Ffigur 18-2**.

**Ffigur 18-1 – Barn ymatebwyr ar Welliannau Gorsaf Reilffordd Llanbedr**




- Mae **Ffigur 18-1** yn dangos bod 57% (118) o 208 o ymatebwyr yn cefnogi Opsiwn 12 – Cyfleusterau Parcio Ceir a Beiciau Newydd.
- Roedd hyn yn cymharu â 55% (115) o 207 o ymatebwyr sy’n cefnogi Opsiwn 11 – Gwelliannau i Gyfleusterau Parcio Ceir a Beiciau Presennol.

**Ffigur 18-2 – Gwelliannau Gorsaf Reilffordd Llanbedr yn seiliedig ar fan preswyl**




18.1.5. Fel y dangosir yn **Ffigur 18-2**, mae 59% (58) o 99 o ymatebwyr o Lanbedr yn cefnogi Opsiwn 12, er bod Opsiwn 11 yn cael yr un faint o gefnogaeth gan ymatebwyr o Lanbedr (55% o 101 o ymatebwyr) ac o fannau eraill (55% o 107 o ymatebwyr).

18.1.6. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i gynnig unrhyw sylwadau.

18.1.7. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn **Tabl 18-1**.

**Tabl 18-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud â Gorsaf Reilffordd Llanbedr**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi gwelliannau i gyfleusterau parcio beiciau a cheir | 1 | 1 |
| Yn cefnogi'r cynnig ar gyfer y ffordd liniaru i wella diogelwch wrth ddefnyddio'r Orsaf | 3 | 0 |
| Yn cefnogi cyfleusterau parcio ceir gwell yn unig | 2 | 0 |
| Yn cefnogi'r cynnig ar sail diogelwch / byddai'r cynnig yn gwella diogelwch | 4 | 1 |
| Yn cefnogi'r cynigion gan y byddent yn annog mwy o ddefnydd o orsaf Llanbedr | 2 | 2 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu darpariaethau i wella mynediad i gerddwyr at yr Orsaf, gan gynnwys palmentydd | 3 | 1 |
| Yn awgrymu y dylid cyflwyno llwybr teithio llesol i wella mynediad i'r Orsaf ac ohoni | 0 | 1 |
| Yn awgrymu bod angen gwell cysylltedd rheilffordd / cyfle i wella cysylltiadau rheilffordd | 2 | 1 |
| Yn awgrymu gwell cyfleusterau parcio (dewis amgen i'r cynnig) | 1 | 1 |
| Yn awgrymu gwelliant i gyfleusterau'r Orsaf (fel lloches i deithwyr ar y platfform) | 3 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu darpariaeth barcio well ger Pensarn | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwasanaethau trên amlach (gan gynnwys bod angen mwy o drenau) | 3 | 3 |
| Yn awgrymu gwelliannau i'r danffordd | 0 | 1 |
| Yn awgrymu mwy o wasanaethau bysiau | 1 | 0 |
| Yn awgrymu maes parcio yn y pentref i leihau tagfeydd a achosir gan barcio | 0 | 1 |
| Yn awgrymu cyfyngiad ar fynediad i gerbydau at yr orsaf | 1 | 0 |
| Yn awgrymu mwy o drenau yn hwyr fin nos | 0 | 1 |
| Yn awgrymu gwelliannau o Orsaf Pensarn | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwelliannau i fynediad beicio/gyrru at orsaf Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylai lleoedd parcio i bobl anabl fod ger yr orsaf | 0 | 2 |
| Yn awgrymu gwell arwyddion | 0 | 1 |
| Yn awgrymu integreiddio tirlunio meddal yn y maes parcio i integreiddio â'r tirlun gwledig | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid cynnal ymgynghoriad pellach ar fanylion tirlunio'r cynigion | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfleusterau parcio ar gyfer yr orsaf reilffordd | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfleusterau parcio ar gyfer y pentref | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwelliannau i wneud yr Orsaf yn fwy hygyrch | 1 | 1 |
| Yn awgrymu bod angen gwell goleuadau yn yr orsaf | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen gwell goleuadau stryd (h.y. i'r orsaf ac ohoni) | 2 | 0 |
| Yn awgrymu y dylai'r maes parcio fod am ddim i'w ddefnyddio (h.y. nid parcio talu ac arddangos) | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai'r maes parcio fod ar gael i'w ddefnyddio dros nos (e.e. parcio am sawl diwrnod) | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylai'r maes parcio fod ar raddfa lai | 0 | 1 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Beirniadaeth bod trafnidiaeth gyhoeddus bresennol yn annibynadwy | 1 | 1 |
| Beirniadaeth o'r lleoedd parcio sydd ar gael ar hyn o bryd a'u lleoliad | 2 | 0 |
| Nid oes angen maes parcio newydd – ceir digon o leoedd parcio eisoes | 3 | 3 |
| Yn gwrthwynebu cyfleusterau parcio ceir a beiciau newydd (Opsiwn 12) | 3 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gwrthwynebu lonydd beicio newydd | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r holl gynigion i newid trefniadau parcio presennol neu leoedd parcio newydd ar gyfer Gorsaf Reilffordd Llanbedr | 2 | 2 |
| Beirniadaeth o wasanaethau rheilffordd presennol | 3 | 2 |
| Beirniadaeth o ddyluniad y maes parcio newydd | 1 | 1 |
| Beirniadaeth o amlder isel presennol gwasanaethau trên | 3 | 3 |
| Beirniadaeth o gyflwyniad arfaethedig mannau gwefru cerbydau trydan | 0 | 1 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder bod y ffordd o'r Orsaf yn gul iawn | 0 | 1 |
| Pryder ynghylch diogelwch cerbydau yng Ngorsaf Llanbedr | 1 | 0 |
| Pryder ynghylch diogelwch wrth gerdded i'r Orsaf (e.e. yn y gaea / pan fydd yn dywyll) | 5 | 0 |
| Pryder am ddiogelwch plant wrth gerdded o'r Orsaf | 1 | 0 |
| Pryder am berygl llifogydd yn lleoliad y maes parcio newydd | 1 | 1 |
| Pryder am effaith maes parcio newydd ar dir amaeth / colli tir amaeth | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 1 | 0 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 0 | 0 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 2 | 0 |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 0 | 1 |
| Beirniadaeth o Trafnidiaeth Cymru (fel gweithredwr trenau) | 0 | 1 |
| Nid yw'r cynigion yn effeithio ar yr ymatebwr gan nad yw'n defnyddio'r Orsaf | 0 | 3 |
| Ni fyddai'r cynigion yn cael effaith ar yr ymatebwr gan y byddai'n dod o hyd i le parcio arall | 1 | 0 |
| Ni fyddai darpariaeth barcio yn gwneud unrhyw wahaniaeth | 1 | 0 |
| Mae'r Orsaf yn bell o'r pentref | 0 | 2 |
| Ymholiad a oes Gorsaf Reilffordd | 0 | 1 |
| Nid yw cyfleusterau parcio ceir a beiciau yn annog yr ymatebwr i ddefnyddio'r orsaf | 1 | 1 |
| Nid yw'r ymatebwr yn defnyddio cyfleusterau parcio beiciau yn yr orsaf | 1 | 0 |
| Nid yw'r ymatebwr yn defnyddio cyfleusterau parcio ceir na beiciau yn yr orsaf (yn mynd i'r orsaf ar droed) | 1 | 0 |

18.1.8. Darparodd cyfanswm o 67 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 42 o ymatebwyr o Lanbedr a 25 o ymatebwyr o fannau eraill.

18.1.9. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

18.1.10. Mynegodd sawl ymatebwr gefnogaeth i'r cynigion, yn enwedig o ran gwell diogelwch a mynediad at yr orsaf:

- Roedd pedwar o ymatebwyr o Lanbedr ac un o fan arall yn cefnogi'r cynigion ar sail diogelwch.
- Fe wnaeth tri o ymatebwyr o Lanbedr groesawu'n benodol y ffordd liniaru arfaethedig ar gyfer gwella diogelwch wrth ddefnyddio'r orsaf.

18.1.11. Roedd annog mwy o ddefnydd o orsaf Llanbedr yn fudd arall a nodwyd yn gyffredin, yn ogystal â chefnogaeth i welliannau i gyfleusterau parcio ceir a beiciau.

18.1.12. Hefyd, mynegodd dau o ymatebwyr o Lanbedr gefnogaeth yn benodol i well cyfleusterau parcio ceir.

**Awgrymiadau**

18.1.13. Gwnaed amrywiaeth eang o awgrymiadau gan yr ymatebwyr yn ymwneud â mynediad at yr orsaf, gwasanaethau rheilffordd, parcio, a chyfleusterau cysylltiedig

- Roedd cynyddu amlder gwasanaethau trên ymhlith yr awgrymiadau a godwyd amlaf, ac fe'i gwnaed gan dri o ymatebwyr o Lanbedr a thri o fannau eraill.
- Fe wnaeth tri o ymatebwyr o Lanbedr hefyd awgrymu gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf, fel darparu lloches i deithwyr.
- Argymhellodd dau o ymatebwyr o Lanbedr oleuadau stryd gwell rhwng y pentref a'r orsaf.
- Cynigiwyd mynediad gwell at yr orsaf i gerddwyr, gan gynnwys ychwanegu palmentydd, gan dri o ymatebwyr o Lanbedr ac un o fan arall.

18.1.14. Gwnaed awgrymiadau i wella cysylltedd rheilffordd gan ddau o ymatebwyr o Lanbedr ac un o fan arall, ac fe wnaeth un ymatebwr o fan arall gynnig yn benodol llwybr teithio llesol i'r orsaf ac ohoni.

18.1.15. Roedd awgrymiadau eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Hygyrchedd yr orsaf reilffordd ar gyfer dulliau llesol a cherbydau preifat;
- Parcio;
- Gwelliannau teithio llesol;
- Dyluniad y cynllun; a
- Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus.

**Beirniadaethau**

18.1.16. Roedd y beirniadaethau mwyaf cyffredin yn ymwneud â gwasanaethau rheilffordd presennol a'r maes parcio arfaethedig:

- Fe wnaeth tri o ymatebwyr o Lanbedr a thri o fannau eraill feirniadu amlder isel gwasanaethau trên presennol.
- Roedd yr un faint o ymatebwyr (tri bob un o Lanbedr a mannau eraill) yn teimlo nad oes angen maes parcio newydd, gan ddweud bod trefniadau parcio presennol eisoes yn ddigonol.

- Hefyd, fe wnaeth tri o ymatebwyr o Lanbedr wrthwynebu'r cyfleusterau parcio newydd i geir a beiciau (Opsiwn 12).

18.1.17. Codwyd pryderon ehangach am drafnidiaeth gyhoeddus hefyd:

- Fe wnaeth tri o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill feirniadu'r gwasanaethau rheilffordd presennol.
- Dywedodd un ymatebwr o Lanbedr ac un o fan arall bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol yn annibynadwy.

18.1.18. Codwyd beirniadaethau eraill ar sail y themâu canlynol:

- Trefniadau parcio;
- Dyluniad y cynllun; a
- Chynigion gwefru cerbydau trydan.

**Pryderon**

18.1.19. Roedd diogelwch yn bryder allweddol i sawl ymatebwr, yn enwedig o ran mynediad at Orsaf Llanbedr ar droed:

- Mynegodd pump o ymatebwyr o Lanbedr bryder am gerdded i'r orsaf yn ystod y gaeaf neu mewn amodau o olau gwan, gan nodi peryglon diogelwch.
- Cododd un o drigolion Llanbedr bryderon hefyd am ddiogelwch plant yn cerdded o'r orsaf, a nododd ymatebwr arall o Lanbedr bryderon diogelwch i gerbydau sydd wedi parcio yn yr orsaf.
- Cododd un ymatebwr bryder hefyd am gulni'r ffordd sy'n arwain o'r orsaf, gan awgrymu problemau diogelwch neu fynediad posibl i gerbydau.

18.1.20. Codwyd pryderon amgylcheddol hefyd ynghylch perygl ac effaith posibl llifogydd ar dir amaeth.

**Eraill**

18.1.21. Roedd sawl sylw yn adlewyrchu amgylchiadau personol yr ymatebwyr neu ddiffyg perthnasedd tybiedig:

- Dywedodd tri o ymatebwyr o fannau eraill na fyddai'r cynigion yn effeithio arnynt gan nad ydynt yn defnyddio Gorsaf Llanbedr.
- Nododd dau o ymatebwyr o fannau eraill bod yr orsaf ymhell o'r pentref, ac fe wnaeth un ymatebwr o fan arall gwestiynu a oes gorsaf reilffordd hyd yn oed yn bodoli yn yr ardal.
- Nododd sylwadau ychwanegol y byddai rhai ymatebwyr yn dod o hyd i le parcio amgen neu'n teimlo na fyddai'r cyfleusterau parcio arfaethedig yn gwneud unrhyw wahaniaeth.

18.1.22. Gwnaed sylwadau eraill i adlewyrchu ymddygiadau teithio unigol:

18.1.23. Roedd sylwadau eraill y tu allan i gwmpas prif themâu'r ymgynghoriad, gan gynnwys y canlynol:

- Ceisiadau am ragor o wybodaeth;
- Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru; a
- Beirniadaeth o Trafnidiaeth Cymru.

# 19 OPSIYNAU A FFEFRIR

19.1.1. Nod y rhan hon o’r arolwg oedd casglu safbwyntiau’r cyhoedd ar yr holl opsiynau a roddwyd yr oedd ymatebwyr yn eu cefnog. Gallai’r rhai a gymerodd ran ddewis sawl ymateb o restr o opsiynau arfaethedig ac yna fe’u gwahoddwyd i gynnig sylwadau testun rhydd ar gyfer y cwestiynau yn yr adran hon. Roedd y cwestiwn yn seiliedig ar restr gynhwysfawr o wahanol senarios gwella.

19.1.2. Rhoddir crynodeb o’r ymatebion gan gyfanswm o 241 o ymatebwyr (ac eithrio bod Opsiwn 1 wedi cael ei ateb gan 240 o ymatebwyr) yn **Ffigur 19-1**.

**Ffigur 19-1 – Barn y Cyhoedd ar Senarios Gwella ar gyfer Llanbedr**



- Mae **Ffigur 19-1** yn dangos bod 44% (107) o 241 o ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 5 – Gwella Diogelwch (Gwelliannau Pentref Llanbedr – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel) a bod 40% (97) yn cefnogi Opsiwn 6.
- Dilynwyd hyn gan 38% (91) o ymatebwyr a oedd yn cefnogi Opsiwn 9 – Gwelliannau Diogelwch (Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel).
- Dim ond 35% o gefnogaeth yr un a roddwyd i Opsiwn 10 (Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel), Opsiwn 11 – Gwelliannau i Gyfleusterau Parcio Ceir a Beiciau Presennol (Gorsaf Llanbedr) ac Opsiwn 0 – Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (gan gynnwys gwahardd cerbydau modir ar Bont Afon Artro a Ffordd Mochras).
- Opsiwn 8 (Gwelliannau Ffordd Mochras – Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel) oedd yr opsiwn a ffafriwyd leiaf, â 93% o ymatebwyr yn ei wrthwynebu.

**Ffigur 19-2 – Barn a Senarios Gwella ar gyfer Llanbedr – Llanbedr**




19.1.3. Mae **Ffigur 19-2** yn dangos bod 49% o 107 o ymatebwyr o Lanbedr yn ffafrio Opsiwn 5, ac yna 40% (91) o ymatebwyr a oedd yn cefnogi Opsiwn 6. Cynigiwyd y ddau opsiwn ar gyfer Gwelliannau Pentref Llanbedr – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

19.1.4. Cafodd Opsiynau 9 a 10 ar gyfer Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yr un faint o gefnogaeth gan 36% (39) o ymatebwyr.

19.1.5. Opsiwn 11 – Gwelliannau i Gyfleusterau Parcio Ceir a Beiciau oedd yr opsiwn a ffafriwyd ar gyfer gwelliannau Gorsaf Llanbedr, â 35% (37) o ymatebwyr yn cytuno â hwn. Dim ond 36% (39) o gefnogaeth a roddwyd i Opsiwn 0 – Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (gan gynnwys gwahardd cerbydau modur ar Bont Afon Artro a Ffordd Mochras).

19.1.6. Cafwyd dim mwy na 12% (13 o ymatebwyr) o gefnogaeth i'r opsiynau heb ffordd liniaru cyflymder isel gan 107 o ymatebwyr o gategori Llanbedr.

**Ffigur 19-3 – Barn ar Senarios Gwella ar gyfer Llanbedr – Pawb arall**



19.1.7. Fel y dangosir yn **Ffigur 19-3**, roedd yr 134 o ymatebwyr o fannau eraill yn adlewyrchu'r tueddiadau a welwyd ymhlith trigolion Llanbedr. Opsiwn 5 (41%) ac Opsiwn 6 ar gyfer Pentref Llanbedr – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel oedd yr opsiynau a ffafriwyd fwyaf, ac yna Opsiwn 9 (39%) ar gyfer Gwelliannau Ffordd Mochras – Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

19.1.8. Ni chafwyd dim mwy na 13% o gefnogaeth i'r cynigion heb ffordd liniaru cyflymder isel.

19.1.9. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r ymatebwyr ateb cwestiwn penagored i rannu unrhyw sylwadau.

19.1.10. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cwestiwn hwn yn **Tabl 19-1**.

**Tabl 19-1 – Crynodeb o sylwadau yn ymwneud ag opsiynau arfaethedig**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn cefnogi Opsiwn 1 fel yr opsiwn a ffefrir | 1 | 1 |
| Yn cefnogi Opsiwn 2 fel yr opsiwn a ffefrir | 1 | 0 |
| Yn cefnogi Opsiwn 3 fel yr opsiwn a ffefrir | 1 | 2 |
| Yn cefnogi Opsiwn 4 fel yr opsiwn a ffefrir | 5 | 6 |
| Yn cefnogi Opsiwn 5 fel yr opsiwn a ffefrir | 8 | 8 |
| Yn cefnogi Opsiwn 6 fel yr opsiwn a ffefrir | 11 | 11 |
| Yn cefnogi'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (yn gyffredinol) | 39 | 26 |
| Yn cefnogi gwelliannau diogelwch | 4 | 2 |
| Yn cefnogi cyfyngiadau ar gerbydau ar Pont Afon Artro / Ffordd Mochras | 6 | 2 |
| Yn cefnogi gwelliannau teithio llesol ym mhentref Llanbedr | 3 | 0 |
| Yn cefnogi Opsiwn 11 fel yr opsiwn a ffefrir | 1 | 0 |
| Yn cefnogi Opsiwn 12 fel yr opsiwn a ffefrir | 3 | 0 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu caniatáu mynediad i drigolion trwy system drwyddedau | 2 | 0 |
| Yn awgrymu cyflwyno cyfyngiadau pwysau neu gerbydau i ddiogelu'r bont | 3 | 0 |
| Yn awgrymu creu llwybr mynediad lleol amgen cyn gorfodi cyfyngiadau | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau parcio ar y stryd fawr | 2 | 2 |
| Yn awgrymu bod y ffordd liniaru yn cael ei hadeiladu, ac yna gellir cynnal asesiad o welliannau eraill wedyn | 4 | 1 |
| Yn awgrymu bod syniadau yn cael eu cyfuno, â gwybodaeth bellach am gostau, i lunio cynllun | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfuniad o Opsiwn 6 ac Opsiwn 10, heb y cyfyngiadau llawn ar gyfer Pont Afon Artro | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid cyfyngu traffig i mewn i Lanbedr a thros y Bont i "Fynediad yn Unig " | 0 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y dylid cwblhau'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn fwy buan | 0 | 1 |
| Yn awgrymu adeiladu ffordd liniaru â therfyn cyflymder cenedlaethol | 0 | 5 |
| Yn awgrymu mwy o wasanaethau bysiau yn hwyr fin nos | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen mynd i'r afael â pharcio trigolion ar y ffordd | 2 | 0 |
| Yn awgrymu lledaenu'r palmant ar Ffordd Mochras | 0 | 1 |
| Yn awgrymu cael gwared ar y palmant ar y bont, gan ddarparu rhodfa yn hytrach | 1 | 0 |
| Yn awgrymu cyfyngu traffig twristiaeth ar Ffordd Mochras | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwelliannau diogelwch i Ffordd Mochras (e.e. adeiladu palmant) | 3 | 0 |
| Yn awgrymu rheolaeth goleuadau traffig | 0 | 2 |
| Yn awgrymu lleihau cyflymder drwy'r pentref cyfan | 2 | 0 |
| Yn awgrymu darpariaethau storio beiciau ger Gorsaf Reilffordd Llanbedr | 1 | 0 |
| Yn awgrymu darpariaethau parcio newydd / amgen (e.e. i drigolion heb leoedd parcio y tu allan i'w tai) | 1 | 3 |
| Yn awgrymu ail-darmacio a diweddaru marciau ffordd | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gorfodi cyflymder cyfartalog | 0 | 1 |
| Yn awgrymu gwelliannau i droedffyrdd presennol | 0 | 2 |
| Yn awgrymu cysylltiadau rheilffordd gwell i Lanbedr | 0 | 1 |
| Yn awgrymu cyfyngiadau ar barcio yn ystod misoedd yr haf / y tymor twristiaeth | 0 | 1 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Yn gwrthwynebu cyfyngiadau ar gerbydau ar draws Afon Artro / Ffordd Mochras | 6 | 2 |
| Beirniadaeth bod yr opsiynau yn unochrog, ddim yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau cyflym ac wedi'u seilio ar agenda | 0 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r Prosiect (yn gyffredinol) | 2 | 1 |
| Yn gwrthwynebu'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 0 | 2 |
| Beirniadaeth bod yr opsiynau wedi cael eu penderfynu heb gynnwys trigolion y pentref | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu Opsiwn 8 | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu Opsiwn 10 | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion yn y pentref / pob cynnig ac eithrio'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 7 | 4 |
| Beirniadaeth nad yw'r un o'r opsiynau yn datrys y problemau | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Beirniadaeth bod y cynigion yn y pentref yn wastraff arian cyhoeddus | 2 | 0 |
| Caniatáu i gerbydau ddefnyddio Pont Artro ac eithrio cerbydau nwyddau trwm / lorïau | 1 | 0 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder y bydd y cynigion yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 | 0 |
| Pryder am effaith cynigion ar fusnesau lleol | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y cynnig ar y rhai ag amhariadau corfforol a/neu feddyliol | 1 | 0 |
| Pryder bod gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn ddibwys heb y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, oherwydd tagfeydd presennol | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y cynigion ar drigolion (yn gyffredinol) | 2 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 0 | 1 |

19.1.11. Darparodd cyfanswm o 146 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn am yr opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio ar gyfer Gwelliannau Pentref Llanbedr. Roedd hyn yn cynnwys 88 o ymatebwyr o Lanbedr a 58 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd isod.

**Sylwadau cefnogol**

19.1.12. Roedd y gefnogaeth a fynegwyd amlaf i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (Opsiwn 0), â 39 o ymatebwyr o Lanbedr a 26 o ymatebwyr o fannau eraill yn nodi hwn fel yr opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio. Mynegwyd cefnogaeth gyfartal i Opsiwn 5 (Gwelliannau Diogelwch – gyda Ffordd Liniaru) ac Opsiwn 6 (Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus – gyda Ffordd Liniaru), ag 11 o ymatebwyr o bob grŵp yn cefnogi Opsiwn 6 ac wyth o ymatebwyr o bob grŵp yn cefnogi Opsiwn 5.

19.1.13. Cafodd Opsiwn 4 (Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif y Traffig – Parcio Oddi ar y Stryd, Heb Ffordd Liniaru) gefnogaeth gan bump o ymatebwyr yn Llanbedr a chwech o fannau eraill. Nodwyd cefnogaeth i Opsiwn 8 (Gwelliannau Diogelwch a Theithio Llesol ar Ffordd Mochras, heb Ffordd Liniaru) gan chwech o ymatebwyr o Lanbedr a dau o ymatebwyr o fannau eraill.

19.1.14. Mynegodd niferoedd llai o ymatebwyr gefnogaeth i opsiynau unigol eraill, gan gynnwys Opsiwn 1 (Gwelliannau Diogelwch yn Llanbedr heb Ffordd Liniaru), Opsiwn 2 (Gwelliannau Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus – heb Ffordd Liniaru), Opsiwn 3 (Gwelliannau Goleuadau Traffig – heb Ffordd Liniaru), ac Opsiynau 11 a 12 (gwelliannau i gyfleusterau parcio ceir/beicio neu ddarpariaeth o gyfleusterau newydd yng Ngorsaf Reilffordd Llanbedr). Cyfeiriwyd at y rhain rhwng un a thair gwaith fesul opsiwn, ac yn fwy aml yn gyffredinol gan drigolion Llanbedr.

19.1.15. Gwnaed sylwadau cefnogol eraill ar y themâu canlynol:

- Diogelwch;
- Cyfyngiadau i gerbydau; a
- Gwelliannau teithio llesol.

**Awgrymiadau**

19.1.16. Gwnaed sawl awgrym ar gyfer gwella'r opsiynau arfaethedig gan gynnwys:

- Codwyd awgrymiadau i ganiatáu mynediad i breswylwyr drwy system drwyddedau gan ddau ymatebydd o Lanbedr.
- Awgrymwyd rhoi cyfyngiadau pwysau neu gerbydau ar waith i ddiogelu'r bont gan dri o ymatebwyr o Lanbedr.

19.1.17. Gwnaed awgrymiadau eraill ar y themâu canlynol

- Cynigion amgen neu ddiwygiadau i gynigion presennol;
- Gwelliannau i gerddwyr;
- Rheoli cyflymder;
- Parcio; a
- Gwelliannau teithio llesol.

**Beirniadaethau**

19.1.18. Y feirniadaeth fwyaf cyffredin oedd gwrthwynebiad i gynigion yn y pentref (ac eithrio'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel), a godwyd gan saith o ymatebwyr o Lanbedr a phedwar o fannau eraill.

19.1.19. Roedd gwrthwynebiad penodol i gyfyngiadau ar gerbydau ar draws Pont Artro neu ar Ffordd Mochras hefyd yn flaenllaw, ac fe'u gwnaed gan chwech o Lanbedr a dau o fannau eraill.

19.1.20. Roedd rhai o ymatebwyr Llanbedr yn teimlo nad oedd yr un o'r opsiynau yn datrys y problemau allweddol yn briodol neu eu bod yn ddefnydd gwael o gyllid cyhoeddus. Mynegwyd y pryderon hyn gan un i ddau ymatebwr ar gyfer pob mater.

19.1.21. Nodwyd gwrthwynebiad cyffredinol i'r prosiect cyffredinol neu'r opsiynau a gyflwynwyd, yn ogystal â gwrthwynebiad penodol i'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel.

19.1.22. Mynegodd ymatebwyr bryder hefyd am gynhwysiant y broses ymgynghori, ac yn benodol na chafodd trigolion y pentref eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r opsiynau.

**Pryderon**

19.1.23. Codwyd pryderon am amrywiaeth o effeithiau posibl yn deillio o'r cynigion. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am:

- Fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Effaith negyddol ar fusnesau lleol; ac
- Effaith ar y rhai ag amhariadau corfforol a/neu feddyliol.

19.1.24. Codwyd pryderon eraill am effaith y cynigion ar drigolion, ac effeithiolrwydd gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus heb y ffordd liniaru cyflymder isel.

**Arall**

19.1.25. Fe wnaeth un ymatebwr feirniadu Llywodraeth Cymru.

# 20 PROFFIL DEMOGRAFFIG YR YMATEBWYR

20.1.1. Roedd rhan olaf yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau 'Amdanoch Chi' y bwriadwyd iddynt ddatblygu dealltwriaeth fwy eglur o broffil demograffig y rhai a gymerodd ran.

20.1.2. Mae'r cwestiynau hyn yn sicrhau bod safbwyntiau a gesglir yn adlewyrchu amrywiaeth eang ac amrywiol o safbwyntiau, gan roi cyfle cyfartal i bawb gael eu cynrychioli.


20.1.3. Roedd yr holl gwestiynau yn yr adran hon yn ddewisol ac nid oedd eu hateb yn ofynnol. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis un ymateb o'r opsiynau a ddarparwyd, ac ar gyfer rhai cwestiynau fe'u gwahoddwyd hefyd i gynnig sylwadau ychwanegol mewn fformat testun rhydd.

## 20.1 RHYW

20.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu rhyw yn gyntaf, gan ddewis un o'r pedwar opsiwn a roddir ar y rhestr.


- Mae **Ffigur 20-1** yn dangos o'r 212 o ymatebion bod 50% (107) o ymatebwyr yn uniaethu fel Dyn/Gwryw, ac yna 45% (95) o ymatebwyr a ddewisodd Menyw/Benyw.
- Dewisodd 4% o'r ymatebwyr (naw o ymatebwyr) 'Mae'n well gen i beidio â dweud' a dewisodd 1% (un ymatebwr) 'Rwy'n uniaethu mewn ffordd wahanol'.

**Ffigur 20-1 – Rhyw'r ymatebwr**




20.1.2. Mae **Ffigur 20-2** yn dangos bod 102 o ymatebwyr o Lanbedr wedi cynnig ymateb â 54% yn uniaethu fel Menyw/Benyw a 41% fel Dyn/Gwryw, tra bod 59% o 110 o ymatebwyr o fannau eraill yn Ddyn/Gwryw, ac yna 36% Menyw/Benyw.

**Ffigur 20-2 – Rhyw'r ymatebwyr yn seiliedig ar eu mannau preswyl**





## 20.2 GRŴP OEDRAN

20.2.1. Nesaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu grŵp oedran, gan ddewis o ystodau a ddiffiniwyd ymlaen llaw i adlewyrchu eu hoedran presennol.


20.2.2. Derbyniwyd cyfanswm o 211 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a rhoddir y crynodeb ohonynt yn **Ffigur 20-3.**

**Ffigur 20-3 – Grŵp oedran yr ymatebwyr**



- 55-64 (26%) oedd y categori oedran mwyaf cyffredin ymhlith yr ymatebwyr, a dilynwyd hwn gan 45-54 oed (22% o ymatebwyr).
- Dewisodd cyfanswm o 21% o'r ymatebwyr yr oed 65-74. Nid oedd unrhyw ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn iau nag 16 oed.
- Mae'r data yn dangos rhywfaint o dangynrychiolaeth ymhlith grwpiau oedran iau, sy'n gyffredin ar gyfer ymarfer ymgysylltu o'r math hwn, â dosbarthiad cymharol gyfartal ymhlith grwpiau oedran hŷn.

**Ffigur 20-4 – Grŵp oedran yr ymatebwyr yn seiliedig ar fan preswyl**




20.2.3. Fel y dangosir yn **Ffigur 20-4**, dewisodd cyfanswm o 50% (52) o 102 o ymatebwyr o Lanbedr gategorïau oed 45-54 a 55-64 (25% yr un).

20.2.4. Fodd bynnag, dim ond 19% (21) o 109 o ymatebwyr o fannau eraill ddewisodd y categori 45-54 mlwydd oed. Roedd 8% (wyth) o ymatebwyr o fannau eraill a oedd yn iau na 35 oed, o'i gymharu â 4% (pedwar) o ymatebwyr o Lanbedr.

20.2.5. Gellid nodi tueddiad tebyg yn nosbarthiad ymatebwyr hŷn na 64 oed ar gyfer Llanbedr a phawb arall.


## 20.3 SGILIAU CYMRAEG

20.3.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd ddisgrifio eu sgiliau Cymraeg, gan ddynodi pa mor hyderus y gallent siarad, darllen, ac ysgrifennu'r iaith.

20.3.2. Roedd opsiynau ymateb lluosog o'r rhestr, gan gynnwys 'Mae'n well gen i beidio â dweud' ac 'arall'. Gwahoddwyd y rhai a ddewisodd 'arall' i gynnig ymateb testun rhydd.


- Fel y dangosir yn
-
- Ffigur 20-5, roedd 31% (72) o 233 o ymatebwyr yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl.
- Er i 17% (39) ddewis 'Mae'n well gen i beidio â dweud', dywedodd y 15% (35) o ymatebwyr a oedd yn weddill 'Rwy'n dysgu'.
- Dilynwyd hyn gan 12% (27) o ymatebwyr nad ydynt yn gallu siarad na deall Cymraeg.

**Ffigur 20-5 – Sgiliau Cymraeg yr ymatebwyr**





20.3.3. Dewisodd 103 o 140 o ymatebwyr o Lanbedr ymateb i'r cwestiwn hwn a chaiff eu hymatebion eu crynhoi yn **Ffigur 20-6**. Dewisodd 31% (32) 'yn siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl', ac yna 21% (22) y mae'n well ganddynt beidio â dweud a dewisodd 17% (18) 'Rwy'n dysg'. Dewisodd 16% (16) o ymatebwyr ddim yn siarad nac yn deall Cymraeg.

**Ffigur 20-6 – Sgiliau Cymraeg – Llanbedr**




20.3.4. Mae **Ffigur 20-7** yn dangos y gall 31% (40) o 130 o ymatebwyr o fannau eraill 'siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl'. Mae hyn yn debyg i ymatebwyr o Lanbedr yn **Ffigur 20-6**. Dilynwyd hyn gan 39% o ymatebwyr a ddewisodd 'Rwy'n dysgu', 'Mae'n well gen i beidio â dweud' a 'ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg' (13% (17) bob un).

**Ffigur 20-7 – Sgiliau Cymraeg – Pawb arall**




**Dadansoddiad Agored**

20.3.5. Darparodd cyfanswm o 12 o ymatebwyr sylwadau testun rhydd ar gyfer y cwestiwn sgiliau Cymraeg. Roedd pedwar o'r ymatebwyr o Lanbedr ac roedd wyth o fannau eraill.

20.3.6. Categoreiddiwyd crynodeb o'r sylwadau isod:


- Fe wnaeth tri o ymatebwyr o fannau eraill gwestiynu perthnasedd y cwestiwn, a dywedodd ymatebwr arall ei fod yn dysgu.
- Fe wnaeth yr ymatebwyr eraill i'r cwestiwn ymhelaethu ar eu hateb, gan ddynodi lefel eu rhugldeb yn y Gymraeg yn gyffredinol.

## 20.4 CENEDLIGRWYDD

20.4.1. Fe wnaeth cwestiwn pellach wahodd ymatebwyr i nodi eu cenedligrwydd, naill ai trwy ddewis o restr a ddiffiniwyd ymlaen llaw a oedd yn cynnwys mae'n well gen i beidio â dweud neu ddewis 'arall' a chyflwyno ymateb testun rhydd.


- Roedd 212 o ymatebion i'r cwestiwn, yr oedd 42% (88) ohonynt yn Cymro/Cymraes, ac yna 28% (60) a ddewisodd Prydeiniwr, a dewisodd 18% (39) o ymatebwyr Sais/Saesnes.
- Dewisodd 7% (15) o ymatebwyr 'Mae'n well gen i beidio â dweud' a dewisodd y 4% (wyth) o ymatebwyr a oedd yn weddill 'arall' gan gynnig sylwadau testun rhydd. Rhoddir y crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 20-8**.

**Ffigur 20-8 – Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol yr ymatebwr**




20.4.2. Dadansoddwyd yr ymatebion yn seiliedig ar fan preswyl. Caiff hyn ei grynhoi yn **Ffigur 20-9**.

**Ffigur 20-9 – Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol ymatebwyr yn seiliedig ar fan preswyl**




20.4.3. Roedd y 101 o ymatebwyr a roddodd eu hymateb o Lanbedr yn seiliedig ar y man preswyl. Roedd mwyafrif ohonynt yn Gymry (37% (37), wedi'u dilyn gan 32% (32) Prydeinwyr. Fodd bynnag, roedd 46% (51) o 111 o ymatebwyr o fannau eraill yn cynnwys Cymry ac yna 25% (28) o ymatebwyr a ddewisodd Prydeiniwr fel eu cenedligrwydd.

**Dadansoddiad Agored**

20.4.4. Darparodd pob un o'r wyth o ymatebwyr a ddewisodd 'arall' sylwadau testun rhydd yn ymwneud â Chenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol.

20.4.5. Mae crynodeb o'r sylwadau wedi'i gynnwys isod:


- Dywedodd pedwar o'r ymatebwyr, a oedd o Lanbedr, 'Iseldirwr', 'Prydeiniwr', 'y DU', a 'Mam yn Gymraes, tad yn Sais' yn eu trefn.
- Fe wnaeth dau o'r ymatebwyr o fannau eraill gwestiynu perthnasedd y cwestiwn.
- Dywedodd dau o'r ymatebwyr o fannau eraill, 'Cymro/Cymraes fabwysiedig er i mi gael fy ngeni yn Lloegr, â rhagflaenwyr o Gymru,' a 'Gwyddelig, yn eu trefn.

## 20.5 HIL

20.5.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i nodi eu cefndir ethnig. Cyflwynwyd amrywiaeth o gategorïau ethnig, ynghyd ag opsiwn o "mae'n well gen i beidio â dweud" neu i nodi "unrhyw grŵp ethnig arall".


- Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 20-10**, yn dangos bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr wedi dewis Gwyn (89% (187) o 211 o ymatebwyr).
- Dilynwyd hyn gan 10% o ymatebwyr a ddywedodd 'Mae'n well gen i beidio a dweud' a dewisodd 1% (dau) o'r ymatebwyr 'arall'.

**Ffigur 20-10 – Hil yr ymatebwr**




20.5.2. Caiff y dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a oedd yr ymatebwr yn byw yn Llanbedr ei grynhoi yn **Ffigur 20-11**.

**Ffigur 20-11 – Hil yr ymatebwr yn seiliedig ar fan preswyl**




20.5.3. Mae **Ffigur 20-11** yn dangos bod 87% (88) o 101 o ymatebwyr o Lanbedr wedi dewis Gwyn o'i gymharu â 90% (99) o 110 o ymatebwyr o fannau eraill a ddewisodd Gwyn. Roedd ymatebwyr o Lanbedr hefyd yn cynnwys Asiaidd (1%) a Du / Affricanaidd / Caribïaidd (1%).


20.5.4. Fe wnaeth dau o'r ymatebwyr o fannau eraill a ddewisodd 'arall' gwestiynu perthnasedd.

## 20.6 CREFYDD

20.6.1. Gofynnodd yr arolwg hefyd i ymatebwyr nodi eu crefydd neu gred, gyda'r opsiwn i ddewis o dri o grefyddau mawr y byd. Roedd y rhestr o opsiynau hefyd yn cynnwys 'dim crefydd', 'mae'n well gen i beidio â dweud', neu 'arall', gyda'r opsiwn i gynnig sylwadau testun rhydd.

- O'r 209 o ymatebion a dderbyniwyd, roedd 45% (95) yn uniaethu fel 'Cristnogion'.
- Dilynwyd hyn gan 36% (75) a ddewisodd 'dim crefydd', a dewisodd 15% (31) o'r ymatebwyr 'Mae'n well gen i beidio â dweud'. Dewisodd 3% o'r ymatebwyr 'arall'.
- Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 20-12**.


**Ffigur 20-12 – Crefydd yr ymatebwr**



20.6.2. Yn seiliedig ar y man preswyl, dewisodd 42% (42) o 101 o ymatebwyr o Lanbedr ‘Cristion’, ac yna 41% (41) o ymatebwyr a ddewisodd ‘dim crefydd’. Dewisodd 1% (1) o’r ymatebwyr Sikh.

20.6.3. Fodd bynnag, o’i gymharu â Llanbedr, dewisodd 31% (34) o 108 o ymatebwyr o fannau eraill ‘dim crefydd’, a dewisodd 5% (pump) o ymatebwyr ‘arall’. Caiff yr ymatebion yn seiliedig ar fan preswyl eu crynhoi yn **Ffigur 20-13**.

**Ffigur 20-13 – Crefydd yr ymatebwr yn seiliedig ar fan preswyl**




**Dadansoddiad Agored**

20.6.4. Darparodd cyfanswm o bump o ymatebwyr o fannau eraill a ddewisodd ‘arall’ sylwadau testun rhydd. O’r rhain, gofynnodd dau o ymatebwyr am berthnasedd y cwestiwn hwn i’r cynigion, a dywedodd un o’r ymatebwr ‘peidiwch a busnesu’.

20.6.5. Atebodd y ddau ymatebwr arall ‘Pagan’ a ‘Derwydd’, yn eu trefn.


## 20.7 RHYWIOLDEB

20.7.1. Gofynnodd cwestiwn pellach i’r ymatebwyr nodi eu cyfeiriadedd rhywiol.

20.7.2. Gallai’r ymatebwyr ddewis ateb priodol o’r rhestr o opsiynau a ddarparwyd. Roedd gan yr ymatebwyr y dewis i ddweud ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’ neu ddewis ‘arall’ a chynnig disgrifiad amgen mewn blwch testun rhydd.

- Fel y dangosir yn **Ffigur 20-14**, roedd 80% (167) o’r 208 o ymatebwyr a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn uniaethu eu hunain fel ‘Heterorywiol/ Syth’.
- Dilynwyd hyn gan 14% (29) o ymatebwyr a ddewisodd ‘Mae’n well gen i beidio â dweud’.
- Dewisodd 3% o’r ymatebwyr ‘Deurywiol’, ‘Dyn hoyw’ a ‘Menyw hoyw/ lesbiad’ (1% yr un).


**Ffigur 20-14 – Rhywioldeb yr ymatebwr**




20.7.3. Mae **Ffigur 20-15** yn dangos, o 101 o ymatebwyr o Lanbedr, y dewisodd 3% o ymatebwyr 'Deurywiol', 'Dyn hoyw', 'Menyw hoyw/ lesbiad' (1% yr un), a dewisodd 81% (82) o ymatebwyr 'Heterorywiol/ Syth'. Gellid gweld tueddiad tebyg yn y categori ymatebwyr o fannau eraill.

20.7.4. Fodd bynnag, dewisodd 12% (13) o 107 o ymatebwyr o fannau eraill 'Mae'n well gen i beidio â dweud' wedi'u dilyn gan 6% (saith) o ymatebwyr a ddewisodd 'arall' o'i gymharu ag 16% (16) o Lanbedr a ddewisodd 'Mae'n well gen i beidio â dweud' ac 1% (un) a ddewisodd 'arall'.

**Ffigur 20-15 – Rhywioldeb yr ymatebwr yn seiliedig ar fan preswyl**




20.7.5. Gwnaeth chwech o'r saith o ymatebwyr a ddewisodd 'arall' sylwadau testun rhydd o ran rhywioldeb.

20.7.6. Roedd pob un o'r chwe ymatebwr o fannau eraill. Mae'r crynodeb o'r sylwadau wedi'i gategoreiddio isod:


- Fe wnaeth pump o'r ymatebwyr ymholi am berthnasedd y cwestiwn hwn i'r cynigion neu ddweud ei fod yn 'ddiangen' neu'n 'amherthnasol'.
- Dywedodd un o'r ymatebwyr, 'peidiwch â busnesu'.

## 20.8 HUNANIAETH RHYWEDD

20.8.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd pa un a ydynt yn uniaethu â'r rhywedd a neilltuwyd iddynt pan y'u ganwyd, gyda'r cyfle i ddynodi os yw eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol. Roedd gan yr ymatebwyr opsiwn i nodi bod yn well ganddynt beidio â dweud.


20.8.2. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 20-16**, a chaiff dosbarthiad yn seiliedig ar ba un a yw'r ymatebwr yn byw yn Llanbedr ei grynhoi yn **Ffigur 20-17**.

**Ffigur 20-16 – Gwahaniaeth mewn hunaniaeth rhywedd o'r hyn a neilltuwyd ar adeg genedigaeth**




- Mae **Ffigur 20-16** yn dangos bod 89% o'r 205 o ymatebwyr wedi dewis 'nac ydy' pan ofynnwyd iddynt a oedd eu hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd iddynt pan y'u ganwyd, tra bod yn well gan 11% o'r ymatebwyr beidio â dweud.

**Ffigur 20-17 – Gwahaniaeth mewn hunaniaeth rhywedd o'r hyn a neilltuwyd ar adeg genedigaeth – yn seiliedig ar fan preswyl**





20.8.3. Fel y dangosir yn **Ffigur 20-17**, dewisodd 1% (un) o 101 o ymatebwyr o Lanbedr 'do' pan ofynnwyd iddynt a oedd eu hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd iddynt pan y'u ganwyd a dewisodd 9% (naw) o ymatebwyr 'Mae'n well gen i beidio â dweud'. Mae hyn yn is na 13% (13) o 104 o ymatebwyr o fannau eraill a ddewisodd 'Mae'n well gen i beidio â dweud'. Dewisodd yr 88% (91) o 104 o ymatebwyr sy'n weddill o fannau eraill 'naddo'.

## 20.9 ANABLEDD

20.9.1. Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa un a ydynt yn ystyried bod ganddynt anabledd, fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.


- Fel y gellir gweld yn **Ffigur 20-18**, mae 10% (20) o 209 o ymatebwyr yn ystyried bod ganddynt anabledd tra bod yn well gan 11% (23) o ymatebwyr beidio â dweud.

**Ffigur 20-18 – Barn ymatebwyr ar ba un a ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl**



20.9.2. Mae **Ffigur 20-19** yn dangos bod 9% (naw) o 101 o ymatebwyr o Lanbedr yn ystyried eu hunain yn anabl tra bod 13% (13) o ymatebwyr wedi dewis 'Mae'n well gen i beidio â dweud'. Fodd bynnag, mae 10% (11) o 108 o ymatebwyr o fannau eraill yn ystyried eu hunain yn anabl a dewisodd 9% (10) o ymatebwyr 'Mae'n well gen i beidio â dweud'.

**Ffigur 20-19 - Barn ymatebwyr ar ba un a ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl yn seiliedig ar fan preswyl**




# 21 EFFAITH AR Y GYMRAEG

21.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwyr rannu eu safbwyntiau ar sut gallai'r cynlluniau arfaethedig effeithio ar y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a'i statws yn y gymuned.

21.1.2. Gallai'r ymatebwyr ddewis un ymateb o'r opsiynau a ddarparwyd.


21.1.3. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn **Ffigur 21-1**.

**Ffigur 21-1 – Barn Ymatebwyr ar effaith y cynlluniau arfaethedig ar y Gymraeg**




- Mae **Ffigur 20-1** yn dangos bod 54% (112) o 208 o ymatebwyr yn meddwl y byddai'r cynigion yn cael effaith 'niwtral' ar ddefnydd o'r Gymraeg a'i statws yn y gymuned.
- Dilynwyd hyn gan 29% (60) o ymatebwyr a ddewisodd 'effaith gadarnhaol'.
- Fodd bynnag, mae 9% (18) o ymatebwyr o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol gyfyngedig neu negyddol.

**Ffigur 21-2 – Barn ymatebwyr ar effaith y cynlluniau arfaethedig ar y Gymraeg yn seiliedig ar fan preswyl**



21.1.4. Mae **Ffigur 21-2** yn dangos bod 35% (35) o 99 o ymatebwyr o Lanbedr yn meddwl y byddai'r cynigion yn cael effaith 'gadarnhaol gyfyngedig' neu 'gadarnhaol' ar y Gymraeg. Gellid nodi barn debyg ymhlith 39% (43) o 109 o ymatebwyr o fannau eraill.

21.1.5. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr hefyd ateb cwestiwn penagored i gynnig unrhyw sylwadau ar y cyfleoedd i addasu'r cynlluniau arfaethedig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol.

21.1.6. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn **Tabl 21-1**.

**Tabl 21-1 – Crynodeb o sylwadau ar y cyfleoedd i addasu'r cynlluniau arfaethedig i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn creu ymdeimlad o barch at ddiwylliant Cymru | 2 | 2 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr y Gymraeg | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn gwella cyfleustra yn y pentref, tra'n rheoli twristiaeth i lefel sy'n fwy addas ar gyfer yr ardal leol heb ddinistrio busnesau lleol | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned (e.e. trwy leihau traffig twristiaeth) | 3 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn galluogi digwyddiadau yn y pentref i fod yn fwy hygyrch â llai o draffig a mwy o leoedd parcio | 1 | 1 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu y dylid defnyddio'r enwau 'Mochras' a 'Ffordd Mochras' ar bob arwydd ffordd | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwella mynediad at faes awyr Llanbedr i greu swyddi medrus i annog pobl ifanc i weithio'n lleol, gan gynnal eu defnydd o'r Gymraeg ac annog cyflogeion a theuluoedd sy'n dod i'r ardal i ddysgu Cymraeg, gan gyfrannu at y diwylliant lleol | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai pob arwydd fod yn y Gymraeg | 1 | 2 |
| Yn awgrymu bod y rhwydwaith rheilffyrdd yn cael ei wella a'i gysylltu i'r gogledd i ganiatáu twristiaeth fwy cynaliadwy, gan ddarparu mwy o swyddi i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai pob arwydd trwy, o gwmpas, neu heibio'r pentref fod yn y Gymraeg a'r Saesneg | 3 | 2 |
| Yn awgrymu mesurau i leihau nifer y cartrefi gwyliau yn yr ardal | 1 | 0 |
| Yn awgrymu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy i wneud iawn am unrhyw gynnydd i brisiau tai sy'n deillio o'r cynllun | 1 | 0 |
| Yn awgrymu mai dim ond y ffordd liniaru sydd ei hangen i leddfu tagfeydd yn ystod y tymor prysur | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu hyrwyddo astudiaeth o'r Gymraeg am ddim i drigolion | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwneud Llanbedr yn gyrchfan trwy ddisgrifio'r mannau pwysig a diddorol cyfagos | 0 | 1 |
| Yn awgrymu annog mwy o bobl i ymweld â Chymru, gan hyrwyddo'r wlad, yr iaith a'r diwylliant | 0 | 1 |
| Yn awgrymu creu swyddi yn y Gwersyll i gyflwyno'r Gymraeg ar waith | 1 | 0 |
| Yn awgrymu defnyddio cwmni sydd â gweithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith, a chynhyrchu'r holl ddogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai'r bont fod ar agor i gerbydau i alluogi'r rhai sy'n ddibynnol ar geir i fod yn rhan o'r gymuned | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod angen i bolisïau economaidd annog cyflogaeth i gadw pobl ifanc | 1 | 1 |
| Yn awgrymu gwella mynediad at Faes Awyr / Parth Menter Llanbedr / ardal Mochras i wella mynediad at gyflogaeth a gweithgarwch | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y dylai'r Prosiect ddenu busnesau a diwydiannau newydd i'r ardal i greu cyflogaeth o ansawdd i bobl ifanc | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Beirniadaeth o'r cwestiwn / nid yw'r cwestiwn yn berthnasol i'r Prosiect | 3 | 4 |
| Beirniadaeth y dylai Llanbedr aros fel y mae i gadw ei threftadaeth draddodiadol | 1 | 0 |
| Beirniadaeth na fydd y Prosiect yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg | 6 | 1 |
| Beirniadaeth nad oes unrhyw gyfleusterau o gwbl yn yr ardal hon gan fod arian yn cael ei ddefnyddio yn ne Cymru | 1 | 0 |
| Beirniadaeth o'r diffyg buddsoddiad yn yr ardal, fel y gwelir o'r diffyg gwasanaethau cyhoeddus a chau cyfleusterau ar hyd y morlin | 1 | 0 |
| Beirniadaeth bod angen i'r gwelliannau fod o fudd i bawb, beth bynnag fo'u hiaith | 0 | 1 |
| Beirniadaeth bod y Prosiect wedi cael ei ganslo yn y gorffennol a bod yr ymgynghoriad yn wastraff arian | 1 | 0 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder y bydd cynigion i gau'r bont i draffig a'r diwygiadau parcio diangen yn cael effaith negyddol ar gymeriad y pentref | 1 | 0 |
| Pryder bod prisiau tai yn atal pobl ifanc rhag buddsoddi mewn eiddo yn yr ardal leol | 0 | 1 |
| Pryder y bydd osgoi'r pentref yn arwain at golli swyddi yn y diwydiant twristiaeth, sy'n siaradwyr Cymraeg lleol yn bennaf | 1 | 1 |
| Pryder y bydd osgoi'r pentref heb ddigolledIad priodol (e.e. parcio, mynediad rhwydd trwy gylchfannau, llwybrau teithio llesol gwell) yn golygu y bydd y pentref yn marw | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Pryder bod y Prosiect yn dibynnu ychydig iawn ar yr achos busnes dros gwella mynediad at Barc Menter y Maes Awyr ac felly prin fydd y manteision y bydd yn eu cynnig o ran swyddi i bobl leol a fydd yn cadw siaradwyr Cymraeg yn yr ardal | 0 | 1 |
| Pryder y bydd canol y pentref yn dod yn lle deniadol i fyw ynddo o ganlyniad i'r Prosiect, gan arwain at fwy o ail gartrefi ac effaith niweidiol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru | 0 | 1 |
| **Codau Eraill** | | |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 1 | 3 |
| Ddim yn siŵr | 3 | 0 |
| Ni fydd y Prosiect yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg | 4 | 1 |

21.1.7. Darparodd cyfanswm o 62 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 38 o ymatebwyr o Lanbedr a 24 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

21.1.8. Mynegodd sawl ymatebwr gefnogaeth i'r prosiect, yn enwedig o ran ei effaith ar y gymuned a'r diwylliant lleol:

- Awgrymodd tri o ymatebwyr o Lanbedr y byddai'r prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned, yn enwedig trwy leihau traffig twristiaeth.
- Roedd dau o ymatebwyr yr un o Lanbedr ac o fannau eraill yn teimlo y byddai'r prosiect yn helpu i feithrin ymdeimlad o barch at ddiwylliant Cymru.
- Amlygodd un ymatebwr o fan arall y byddai'n cefnogi defnyddwyr y Gymraeg.

21.1.9. Nododd sylwadau cefnogol ychwanegol y gallai'r prosiect wella cyfleustra yn y pentref yn gyffredinol tra'n helpu i reoli twristiaeth ar raddfa sy'n briodol i'r ardal leol, heb effeithio'n negyddol ar fusnesau lleol (codwyd gan un ymatebwr yr un o Lanbedr ac o fan arall).

21.1.10. Roedd cefnogaeth hefyd gan un ymatebwr yn Llanbedr ac un o fan arall a oedd yn teimlo y byddai'r prosiect yn galluogi digwyddiadau yn y pentref i fod yn fwy hygyrch oherwydd llai o draffig a mwy o leoedd parcio ar gael.

**Awgrymiadau**

21.1.11. Gwnaeth sawl ymatebwr awgrymiadau yn canolbwyntio ar arwyddion a hyrwyddo'r Gymraeg:

- Cynigodd tri o ymatebwyr o Lanbedr a dau o fannau eraill y dylai'r holl arwyddion trwy, o gwmpas, neu heibio'r pentref fod yn ddwyieithog – yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Awgrymodd dau ymatebwr arall o fannau eraill ac un o Lanbedr y dylai'r holl arwyddion fod yn y Gymraeg.
- Hefyd, dywedodd un ymatebwr o Lanbedr y dylid defnyddio'r enw 'Mochras' a 'Ffordd Mochras' yn gyson ar bob arwydd ffordd.

21.1.12. Amlygodd awgrymiadau hefyd y potensial i'r prosiect gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy gyflogaeth ac addysg:

- Awgrymodd un ymatebwr o fan arall y dylid gwella mynediad at Faes Awyr Llanbedr i greu swyddi medrus i bobl ifanc leol a theuluoedd sy'n symud i'r ardal, gan annog defnydd o'r Gymraeg a'i dysgu.

- Awgrymodd ymatebwr arall y dylid hyrwyddo astudiaeth o'r Gymraeg i drigolion, ac argymhellodd un o fan arall y dylid defnyddio cwmni â gweithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith a sicrhau bod yr holl ddogfennau yn ddwyieithog.
- Cafwyd awgrym hefyd y dylid creu swyddi yn y gwersyll a fyddai'n arddangos yn weithredol y Gymraeg yn cael ei defnyddio (un ymatebwr o Lanbedr).

21.1.13. Gwnaed awgrymiadau pellach ar y themâu canlynol:

- Datblygu economaidd;
- Pryderon yn ymwneud â thwristiaeth a thai;
- Gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd; a
- Hyrwyddo Cymru a Llanbedr.

**Beirniadaethau**

21.1.14. Roedd y feirniadaeth fwyaf cyffredin yn ymwneud ag amherthnasedd tybiedig y cwestiwn i'r prosiect cyffredinol, â thri o ymatebwyr o Lanbedr a phedwar o fannau eraill yn mynegi'r farn hon. Nodwyd hefyd y dylai'r cynigion fod o fudd i bawb beth bynnag fo'u hiaith.

21.1.15. Dywedodd chwech o ymatebwyr o Lanbedr ac un o fan arall nad oeddent yn credu y byddai'r prosiect yn cael unrhyw effaith ystyrlon ar y Gymraeg.

21.1.16. Roedd beirniadaethau eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth o ddiffyg cyllid cyffredinol yn yr ardal;
- Beirniadaeth o'r ymgynghoriad; a
- Beirniadaeth y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar y pentref.

**Pryderon**

21.1.17. Codwyd sawl pryder ynghylch effaith gymdeithasol ac economaidd bosibl y prosiect ar y gymuned leol, yn enwedig o ran cyflogaeth, tai, a'r Gymraeg, gan gynnwys:

- Pryder am yr effaith ar gyflogaeth twristiaeth; a
- Phryder am ddirywiad y pentref.

21.1.18. Codwyd pryderon hefyd am effaith y prosiect ar gymeriad y pentref a dynameg tai, gan gynnwys:

- Niwed i gymeriad y pentref;
- Pryder am brisiau tai; a
- Chynnydd i berchnogaeth ail gartrefi.

21.1.19. Roedd pryderon ychwanegol yn cynnwys amheuon am werth strategol y prosiect o ran creu swyddi a'r diffyg achos busnes cryf dros well mynediad at Barc Menter Maes Awyr Llanbedr.

**Arall**

21.1.20. Rhannodd sawl ymatebwr safbwyntiau nad oeddent yn cyd-fynd yn uniongyrchol â phrif themâu'r ymgynghoriad. Dywedodd pedwar o ymatebwyr o Lanbedr ac un o fan arall eu bod yn credu na fyddai'r prosiect yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

21.1.21. Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys datganiadau o ansicrwydd am y prosiect neu ei oblygiadau, â thri o ymatebwyr o Lanbedr yn dynodi eu bod yn ansicr.

# 22 EFFAITH AR UNIGOLION O DAN ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

22.1.1. Gofynnwyd i'r ymatebwr hefyd gynnig sylwadau ar effaith bosibl y cynigion ar unigolion o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, fel y rhai sy'n wynebu tlodi ariannol neu ddigidol, neu fynediad cyfyngedig at wasanaethau a digwyddiadau.

22.1.2. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r cwestiwn yn **Tabl 22-1**.

**Tabl 22-1 – Crynodeb o'r sylwadau ar farn ymatebwyr ar effaith y cynlluniau arfaethedig ar y rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol**

| Sylwadau Cefnogol | Llanbedr | Pawb arall |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn gwella cyfleoedd i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd a chymdeithasol | 4 | 6 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn cynnig opsiynau gwell ar gyfer teithio mwy diogel i wasanaethau i fod o fudd i'r rhai sy'n wynebu tlodi digidol | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn cynnig seilwaith gwell | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn creu gwell mynediad at swyddi | 1 | 2 |
| Yn awgrymu y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cynyddu cyfleoedd swyddi yn y Maes Awyr (e.e. i bobl ifanc) | 2 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus o fudd i bawb | 3 | 4 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain at amgylchedd mwy braf yn y pentref | 6 | 3 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain at fwy o gyfleoedd datblygiad busnes yn y pentref | 3 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cynorthwyo buddsoddiad yn yr ardal | 2 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn annog datblygu cynaliadwy | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain at well mynediad at wasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol | 6 | 3 |
| Yn awgrymu y bydd uwchraddio'r orsaf yn arwain at well mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a digwyddiadau cymdeithasol | | |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn ei gwneud yn haws i gael mynediad at weithgareddau yn y pentref | 2 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect o fudd i'r economi leol | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn gwneud y pentref yn fwy diogel (e.e. i gerddwyr a beicwyr) | 6 | 5 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect o fudd i'r amgylchedd (e.e. llai o lygredd aer, llai o lygredd sŵn) | 1 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn annog mwy o ddefnydd o opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac y byddant ar gael mwy i bawb | 6 | 2 |
| Yn awgrymu y bydd gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn creu gwell gwasanaethau | 3 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd Ffordd Liniaru Cyflymder Isel o fudd i wasanaethau brys | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain at greu swyddi newydd | 8 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain at arbedion o ran costau tanwydd | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain i lawer gael cymorth ymarferol yn y gymuned heb fod angen gyrru i rywle arall | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth lleol, gan ganiatáu i drigolion lleol fforddio tai lleol, ac i raddedigion ddod o hyd i waith yn lleol | 1 | 0 |
| Yn awgrymu y byddai'r Prosiect yn annog gweithgareddau yn y pentref i dyfu, gan gynnig budd pellach | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y bydd y Prosiect yn caniatáu i unigolion boeni llai am draffig ar eu cymudiad yn ystod twristiaeth brig yr haf | 0 | 1 |
| **Awgrymiadau** | | |
| Yn awgrymu bod yn rhaid i'r Prosiect ystyried anghenion grwpiau agored i niwed i sicrhau bod manteision yn cael eu rhannu ac nad ydynt yn ynysu poblogaethau neu'n rhoi o dan anfantais | 1 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai trafnidiaeth bysiau aros fel y mae | 2 | 0 |
| Yn awgrymu y dylid gwella amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus i adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth (e.e. i Abermo a Phorthmadog ac yn ôl) | 1 | 0 |
| Yn awgrymu bod Mochras yn gwneud cyfraniad ariannol at gostau'r Prosiect yn seiliedig ar y manteision y bydd y safle yn eu mwynhau | 1 | 0 |
| Yn awgrymu gwella mynediad at Faes Awyr / Parth Menter Llanbedr / ardal Mochras ar frys i wella mynediad at gyflogaeth a gweithgarwch | 1 | 1 |
| Yn awgrymu na ddylai'r Prosiect annog defnydd o faes awyr na phentref Llanbedr gan bersonél milwrol na chyfleoedd swyddi medrus na all y trigolion lleol eu gwneud | 0 | 1 |
| Yn awgrymu y dylai'r Prosiect ddenu busnesau a diwydiannau newydd i'r ardal a chreu cyflogaeth o ansawdd i bobl ifanc | 1 | 0 |
| **Beirniadaethau** | | |
| Beirniadaeth y bydd cynigion yn y pentref, gan gynnwys addasiadau parcio, yn gwaethygu mynediad at swyddi a chyfleoedd | 1 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Beirniadaeth y bydd y Prosiect yn cael effaith negyddol ar yr economi | 1 | 1 |
| Yn gwrthwynebu newidiadau yn y pentref | 1 | 0 |
| Yn gwrthwynebu newidiadau i fynediad cerbydau trigolion | 2 | 0 |
| Beirniadaeth fod yr opsiynau arfaethedig yn ynysu poblogaeth a busnesau Llanbedr trwy dorri'r pentref i ffwrdd | 0 | 2 |
| Yn gwrthwynebu'r cynigion (yn gyffredinol) | 0 | 1 |
| Beirniadaeth y bydd y Prosiect yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd a chymdeithasol | 0 | 1 |
| Beirniadaeth o nifer y perchnogion ail gartrefi / llety gwyliau / llety rhent | 1 | 0 |
| **Pryderon** | | |
| Pryder am effaith y Prosiect ar ddenu busnesau a diwydiannau newydd i'r ardal i greu cyflogaeth o ansawdd i bobl ifanc | 0 | 0 |
| Pryder y gallai'r Prosiect arwain at gostau byw uwch, fel prisiau eiddo uwch neu lai o fforddiadwyedd o ran gwasanaethau hanfodol | 0 | 1 |
| Pryder y bydd y Prosiect yn ei gwneud yn fwy anodd cael mynediad at gyfleusterau yn y pentref i ddefnyddwyr bathodyn glas ac anabl | 1 | 1 |
| Pryder y bydd y Prosiect yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn anhygyrch | 1 | 0 |
| Pryder y bydd effaith gadarnhaol y ffordd liniaru yn cael ei hamharu gan atal mynediad lleol | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar fusnesau lleol | 1 | 3 |
| Pryder y bydd y Prosiect yn gwahanu cymuned y pentref | 1 | 2 |
| Pryder am y pellteroedd ychwanegol a fydd yn cael eu gyrru os caiff y bont ei chau i draffig | 1 | 0 |
| Pryder am effaith y Prosiect ar y rhai sy'n byw ar lwybr y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel | 1 | 0 |
| Pryder na fydd y rhai ag amhariadau corfforol yn gallu parcio y tu allan i'w tai | 1 | 0 |
| Pryder bod safleoedd gwersylla lleol sy'n denu niferoedd mawr o dwristiaid yn niweidio'r gymuned a'r amgylchedd | 1 | 0 |
| **Codau Eraill** | | |
| Y Tu Allan i'r Cwmpas | 1 | 0 |
| Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd | 0 | 1 |
| Cais am ragor o wybodaeth | 0 | 0 |
| Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru | 1 | 1 |
| Ddim yn siŵr | 2 | 0 |

22.1.3. Darparodd cyfanswm o 89 o ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn, i esbonio eu safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys 52 o ymatebwyr o Lanbedr a 37 o ymatebwyr o fannau eraill. Cyflwynir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn penagored hwn isod.

**Sylwadau cefnogol**

22.1.4. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r prosiect o ran gwell cyfleoedd i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd a chymdeithasol gan bedwar o ymatebwyr yn Llanbedr a chwech o ymatebwyr o fannau eraill.

22.1.5. Nodwyd y bydd y prosiect yn arwain at well mynediad at wasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol ac yn arwain at amgylchedd mwy braf yn y pentref gan chwech o ymatebwyr o Lanbedr a thri o ymatebwyr o fannau eraill.

22.1.6. Nodwyd y bydd y prosiect yn arwain at greu swyddi newydd ac yn gwneud y pentref yn fwy diogel (e.e. i gerddwyr a beicwyr) gan wyth a chwech o ymatebwyr, yn eu trefn, o Lanbedr. Awgrymodd pump o ymatebwyr o fannau eraill hefyd y byddai'r prosiect yn gwneud y pentref yn fwy diogel.

22.1.7. Gwnaed sylwadau cefnogol eraill â chynrychiolaeth lai, gan gynnwys effaith gadarnhaol y cynllun ar iechyd meddwl, cyfleoedd cyflogaeth, ac annog gweithgareddau yn y pentref i dyfu.

**Beirniadaethau**

22.1.8. Roedd beirniadaethau allweddol yn cynnwys:

- Gwrthwynebiad i newidiadau i fynediad i gerbydau trigolion (dau o ymatebwyr o Lanbedr).
- Beirniadaeth fod yr opsiynau arfaethedig yn ynysu poblogaeth a busnesau Llanbedr trwy dorri'r pentref i ffwrdd (dau o ymatebwyr o fannau eraill).
- Y prosiect yn cael effaith negyddol ar yr economi (dau o ymatebwyr o Lanbedr a mannau eraill).
- Gwrthwynebiad i'r cynigion (yn gyffredinol) ac effaith negyddol ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd a chymdeithasol (dau o ymatebwyr o fannau eraill).

22.1.9. Roedd gwrthwynebiad hefyd i newidiadau i'r pentref a chynigion yn y pentref, gan gynnwys diwygiadau parcio.

**Pryderon**

22.1.10. Mynegodd ymatebwyr eu pryderon am ffaith ar fusnesau lleol (tri o ymatebwyr o fannau eraill ac un ymatebwr o Lanbedr) a'r effaith bosibl y bydd y prosiect yn gwahanu cymuned y pentref (dau o ymatebwyr o fannau eraill ac un ymatebwr o Lanbedr).

22.1.11. Dywedodd un ymatebwr yr un o Lanbedr ac o fannau eraill y bydd y prosiect yn ei gwneud yn fwy anodd cyrraedd cyfleusterau yn y pentref i ddefnyddwyr bathodyn glas ac anabl.

22.1.12. Roedd pryderon eraill yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Anhygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus;
- Parcio;
- Twristiaeth; ac
- Effaith ar drigolion.

**Awgrymiadau**

22.1.13. Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch gwelliannau trafnidiaeth a seilwaith yn Llanbedr. Mae'r rhai a awgrymwyd amlaf yn cynnwys:

- Awgrymodd dau o ymatebwyr o Lanbedr y dylai trafnidiaeth bysiau aros fel y mae.

- Awgrymodd un ymatebwr o Lanbedr ac un ymatebwr o fan arall bod yn rhaid i'r Prosiect ystyried anghenion grwpiau agored i niwed i sicrhau bod manteision yn cael eu rhannu ac nad ydynt yn ynysu poblogaethau neu'n eu rhoi o dan anfantais.

22.1.14. Gwnaed awgrymiadau eraill ynghylch:

- Trafnidiaeth gyhoeddus;
- Cyfraniadau ariannol; a
- Chyflogaeth.

**Arall**

22.1.15. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Beirniadaeth o Lywodraeth Cymru;
- Beirniadaeth o Gyngor Gwynedd; a
- Dim sylw.

Tŷ Opus
Pentref Busnes Iâl
Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam

**wsp.com**
Nid yw WSP UK Limited yn gwneud unrhyw warantiadau na sicrwydd, gwirioneddol neu awgrymedig, o ran yr adroddiad hwn, na'r effaith fasnachol, dechnegol, economaidd, neu ariannol yn y pen draw ar y prosiect y mae'n ymwneud ag ef, ac nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd yn ymwneud â'i ddefnydd ac eithrio fel y nodir yn y contract y'i cyflenwyd yn unol ag ef.